MENTER IAITH SIR DDINBYCH

England & Wales · Charity number 1120223

Details

Status	Registered
Legal form	Charitable company
Company number	06204415
Registered	2007-07-24
Register	View on the Charity Commission register

Contact

Address	Y Farchnad Fenyn Llain y Capel Dinbych Sir Ddinbych LL16 3TU
Phone	01745 812822
Email	menter@MISirddinbych.cymru
Website	www.misirddinbych.cymru

Activities

Objects: 3. THE CHARITY'S OBJECTS (THE OBJECTS) ARE:TO PROMOTE THE EDUCATION OF THE RESIDENTS OF DENBIGHSHIRE WITH REGARDS TO THE WELSH LANGUAGE.3. AMCANION (YR AMCANION) YR ELUSEN YW HYRWYDDO ADDYSG TRIGOLION SIR DDINBYCH O RAN DEFNYDDIO'R IAITH GYMRAEG.

Activities: Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn Sir Ddinbych.Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-Gymraeg ddysgu'r iaith.Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defydd o'r iaith.Dylanwadu ar y ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu'r iai

Downloaded from opencharities.uk/ew/1120223

Classification

- **How:** Provides Services, Provides Advocacy/advice/information, Sponsors Or Undertakes Research, Acts As An Umbrella Or Resource Body
- **What:** Education/training, Arts/culture/heritage/science, Environment/conservation/heritage, Economic/community Development/employment
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People, People With Disabilities, People Of A Particular Ethnic Or Racial Origin, Other Charities Or Voluntary Bodies, Other Defined Groups, The General Public/mankind

Geography

- **Area of benefit:** THE COUNTY OF DENBIGHSHIRE (SIR DDINBYCH)
- Denbighshire

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-03-31	£143,482	£141,934	-	-
2024-03-31	£124,902	£114,225	-	-
2023-03-31	£123,456	£120,350	-	-
2022-03-31	£115,449	£105,326	-	-
2021-03-31	£133,814	£110,046	-	-

Downloaded from opencharities.uk/ew/1120223

Trustees

Name	Role	Appointed
Bethan Cartwrwight		2019-10-30
Catrin Williams		2021-10-20
Dyfan Phillips		2023-10-18
Dyfrig Lloyd Roberts		2025-10-23
EMRYS WYNNE		2012-12-13
Gwenan Prysor		2015-10-21
Lowri Haf Ellis		2021-10-20
Manon Rees-O'Brien		2024-10-23
Menna Eluned Jones		2019-01-16
OWAIN GWYN MORRIS		2012-01-19
Owain Llyr Williams		2024-10-23

Downloaded from opencharities.uk/ew/1120223

MENTER IAITH SIR DDINBYCH

England & Wales - Charity number 1120223

Accounts

Menter Iaith Sir Ddinbych



Hawlfraint llun / copyright: Cledwyn Jones

Adroddiad Blynyddol
Menter Iaith Sir Ddinbych
Annual Report

2024 - 2025

www.misirddinbych.cymru

Cynnwys
Content

02 Pwy ydyn ni a Gair gan y cadeirydd?
Get to know us and Welcome from the chair

04 Strwythur y Fenter a'r Staff
Menter Iaith Structure & Staff

06 Cyd-destun ein gwaith
Our work context

07 Ariannu
Finances

8 Ein sir
Our county

10 Ein blaenoriaethau, Ein hamcanion
Our priorities, Our objectives

12 Beth rydym wedi ei gyflawni? Partneriaethau
What have we achieved? Partners

14 Beth rydym wedi ei gyflawni? Partneriaethau
What have we achieved? Partners

16 Beth rydym wedi ei gyflawni? Teuluoedd
What have we achieved? Families

18 Beth rydym wedi ei gyflawni? Digwyddiadau Cymunedol
What have we achieved? Community Events

20 Beth rydym wedi ei gyflawni? Digwyddiadau Cymunedol
What have we achieved? Community Events

22 Beth rydym wedi ei gyflawni? Digwyddiadau Cymunedol
What have we achieved? Community Events

24 Beth rydym wedi ei gyflawni? Plant a Phobl Ifanc
What have we achieved? Children and Young People

26 Cyfathrebu a Gwirfoddolwyr
Communications and Volunteers

28 Ar y gweill, Cysylltu â ni a Diolch
Coming up, Contact us & Diolch

Pwy ydyn ni?

1998 - Menter Iaith Dinbych - Conwy
2003 - sefydlu Menter Iaith Sir Ddinbych
2004 - cofrestru'r Fenter fel elusen gofrestredig
2007 - cofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant

12 aelod ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Fenter
3 aelod o staff
2 aelod o staff prosiect (rhan amser)
1 aelod o staff achlysurol
cefnogaeth llu o wirfoddolwyr a charedigion



Get to know us

1998 – Menter Iaith Dinbych - Conwy
2003 – Menter Iaith Sir Ddinbych established
2004 – register as a registered charity
2007 – register as a company limited by guarantee

12 members on Menter Iaith's Board of Directors
3 staff members
2 project staff (part-time)
1 casual staff members
support from many volunteers and Welsh language supporters

Croeso i'n hadroddiad blynyddol. Dyma gyfle i ni edrych nôl ar waith y flwyddyn a diolch i'r criw gweithgar o staff, aelodau o'r Bwrdd, gwirfoddolwyr a charedigion y Gymraeg am eu gwaith. Mae'r tîm yn cyflawni cymaint, diolch i chi!

Rydym yn parhau yn ein nod o hyrwyddo'r Gymraeg yn sir Ddinbych, hybu defnydd o'r iaith a chydweithio i gyrraedd nod cenedlaethol Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n nod uchelgeisiol, ond yn un rydym yn parhau i weithio tuag ati yma yn sir Ddinbych.

Welcome to our annual report. This is an opportunity for us to look back at the year's work and to thank the hardworking team of staff, Board members, volunteers and Welsh language supporters for their efforts. This team achieves so much – diolch yn fawr iawn i chi!

We continue in our aim of promoting the Welsh language in Denbighshire, encouraging its use and working together to reach the Welsh Government's national goal of securing a million Welsh speakers by 2050.

Gair gan y Cadeirydd

Bu'n flwyddyn o newid wrth symud i adeilad newydd sbon 'Y Farchnad Fenyn' ar ddiwedd y flwyddyn yma. Ond parhau yng nghalon un o drefi farchnad y sir, Dinbych y mae'r swyddfa. Mae'n lleoliad braf a hwylus ac yn siwtio byd gwaith yr unfed ganrif ar hugain. Cofiwch alw draw am dro.

Trwy gydweithio mae llwyddo, a rhaid diolch i'n partneriaid, rhai hen a newydd, am barhau i gerdded y daith gyda ni. Mae nifer o brosiectau difyr wedi dwyn ffrwyth yn ystod y flwyddyn ac mae mwy i ddod. Cewch glywed am rai yng nghloriau'r adroddiad yma.

Dwi'n ddiolchgar am y fraint a'r anrhydedd o fod yn rhan o'r mudiad gweithgar hwn, ymlaen â ni ar y daith.

Bethan Cartwright
Cadeirydd
Menter Iaith Sir Ddinbych

Welcome from the Chair

It is an ambitious goal, but one we continue to work towards here in this county.

It has been a year of change as we moved into our brand-new building 'Y Farchnad Fenyn (The Butter Market) at the end of this year. But our office remains at the heart of one of the county's market towns, Dinbych. It is a stunning and convenient location, well suited to a work space in the 21st century. Please do call in for a chat.

Through collaboration comes success, and we must thank our partners, both old and new, for continuing to walk this journey with us. A number of exciting projects have come to fruition during the year and there is still more to come. You can read about some of these within the pages of this report.



Bethan Cartwright

Cadeirydd y Fenter sy'n dod a phrofiad helaeth i'r Bwrdd o'i gyrfa yn y byd addysg

Menter Iaith Chair who brings a wealth of experience to the Board as an educational sector expert

I am grateful for the privilege and honoured to be part of this active organisation – 'onwards and upwards on our important journey.

Bethan Cartwright
Chair
Menter Iaith Sir Ddinbych

Strwythur y Fenter 2024-2025

Menter Iaith Structure

Ein Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr



Bethan Cartwright
Cadeirydd
Chair
8 mlynedd



Gwenan Prysor
Is-Gadeirydd
Vice-Chair
10 mlynedd



Owain Gwyn Morris
Trysorydd
Treasurer
14 blynedd



Llŷr Williams
Ysgrifennydd
Secretariat
1 flwyddyn



Arwel Roberts
Cyfarwyddwr
Director
11 mlynedd



Menna Jones
Cyfarwyddwr
Director
6 mlynedd

Our Directors and Trustees



Catrin Eynon
Cyfarwyddwr
Director
4 mlynedd



Lowri Ellis
Cyfarwyddwr
Director
4 mlynedd



Dyfan Philips
Cyfarwyddwr
Director
2 flynedd



Manon Rees O'Brien
Cyfarwyddwr
Director
1 flwyddyn



Eifion Williams
Cyfarwyddwr
Director
1 flwyddyn



Emrys Wynne
Cyfarwyddwr
Director
13 mlynedd

Is-bwyllgor staffio
Staff sub committee

2 x Cyfarwyddwr
2 x Directors

Prif Swyddog
Chief officer

Pwyllgor Apêl Staff
Staff Appeal Committee

Cadeirydd
Chair

2 x Gyfarwyddwr
2 x Directors

STAFF
Cyflogedig



Ruth Williams
Prif Swyddog
Chief officer
Llawn amser | *Full time*



Eryl Prys Jones
Swyddog Prosiect Ardal y Glannau
Coastal Project Officer
Rhan amser, cyflogir trwy gytundeb gyda Menter Iaith Conwy
Part time, employed in partnership with Menter Iaith Conwy



Gwenno Williams
Swyddog Cefnogi (achlysurol)
Support Officer (casual)

STAFF
Salaried



Gwion Tomos-Jones
Swyddog Datblygu Cymunedol
Community Development Officer
Llawn amser hyd at ddechrau Chwefror 2025 |
Full time until begining of February 2025



Iorwen Jones
Swyddog Cyllid a Busnes y Fenter
Business & Finance Officer
4 diwrnod | 4 days



Nia Evans
Swyddog Prosiect Hiraethog *Project Officer*
Rhan amser, cyflogir trwy gytundeb gyda Menter Iaith Conwy
Part time, employed in partnership with Menter Iaith Conwy

Is-bwyllgor Cyllid ac Adnoddau
Finance and Resources sub committee

Trysorydd
Treasurer

Cyfarwyddwr
Director

Prif Swyddog
Chief officer

Swyddog Cyllid
Finance Officer

Cyd-destun ein gwaith

- Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn un o 22 Menter Iaith sy'n rwydwaith yn gweithio trwy Gymru gyfan.
- Yn genedlaethol, rydym yn cefnogi dros 160,000 o blant, ieuenctid ac oedolion bob blwyddyn i gynyddu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.
- Dyma ffenest siop ar gyfer y Gymraeg i helpu bobl i fyw, dysgu a mwynhau'r Gymraeg o fewn eu cymunedau.
- Mae'n darpariaeth ni'n canolbwyntio ar Sir Ddinbych, ond wrth gwrs, trwy gydweithio â swyddogion drwy'r rhwydwaith o fentrau iaith, rydym yn rhannu arfer da, enghreifftiau o lwyddiant a dylanwadu ar gynllunio ieithyddol.



- Mae'r arian gan Llywodraeth Cymru yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar dri phrif faes a rheini'n deillio o Thema 2 (Defnydd o'r Gymraeg) a rhaglen waith Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg

1. Plant a Phobl Ifanc
2. Teuluoedd
3. Y Gymuned



Our work context

- Menter Iaith Sir Ddinbych is one of a network of 22 Menter Iaith working throughout Wales.
- Nationally, we support over 160,000 children, youth and adults every year to increase and strengthen the use of the Welsh language.
- It is a shop window for everything Welsh to help people live, learn and enjoy the Welsh language within their communities.
- Our provision focuses on Denbighshire, but of course, by collaborating with officers through the network of language initiatives, we share good practice, successful examples and influence linguistic planning.
- The funding from the Welsh Government ensures that we focus on three main areas which derive from Theme 2 (Increasing the Use of Welsh) and the Cymraeg 2050 work programme: A Million Welsh Speakers

1. Children and Young People
2. Families
3. The Community



Ariannu / Finances

Mae'r sefyllfa ariannol eleni yn iach sy'n dangos bod llywodraethiant cadarn a chyfrifol yn parhau yn y Fenter.
Ar ddiwedd 31 Mawrth 2025 mae'r arian dderbyniwyd wedi codi o £124,902 i £143,482, cynnydd o £18,580 ers llynedd (14.8%).
Gwelwyd hefyd bod cyfanswm yr adnoddau wedi codi o £114,225 i £141,924 eleni, cynnydd o £27,709 (24%) yn bennaf o ganlyniad i grant penodol gan Gronfa Allweddol, trwy DVSC ar gyfer prosiect gwella sgiliau rhifedd a mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg.
Cafwyd gwarged o £1,540 am y flwyddyn o'i chymharu a £10,677 am y flwyddyn flaenorol.

Incwm		**Income**
Rhoddion a grantiau craidd tuag at gynnal y sefydliad a chreu cyfleoedd i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg	£96,646	Donations and core grants towards maintaining the organisation and creating opportunities for residents to use the Welsh language
Grantiau a rhoddion er mwyn cynnal gweithgareddau i blant, bobl ifanc, oedolion a dysgwyr Cymraeg	£30,980	Grants and donations in order to carry out activities for children, young people, adults and Welsh learners
Incwm trwy werthiant, e.e. tocynnau a gweithgareddau gwyliau i blant	£10,458	Income through sales, e.g. tickets and holiday activities for children
Incwm arall	£5,398	Other income
Cyfanswm incwm	**£143,482**	**Total income**

Gwariant		**Expenditure**
Gwariant ar weithgareddau'r Fenter	**£141,934**	Expenditure on activities supplied by Menter Iaith
Incwm / Gwariant Net	£1,548	Income / Net Expenditure
Cyfanswm cronfeydd 31.3.25	**£55,364**	Total funds 31.3.25

This year's financial situation is healthy, evidence that sound and responsible governance continues within Menter Iaith.
On the 31 March 2025, the end of the financial year, the finances received has risen from £124,902 to £143,482, an increase of £18,580 since last year (14.8%).
In addition, the total resources rose from £114,225 to £141,924 this year, an increase of £27,709 (24%) mainly as a result of a specific grant from the Key Fund, via DVSC for a project to improve numeracy and mathematical skills through the medium of Welsh.
A surplus of £1,540 was returned for the year compared to £10,677 for the previous year.

Ein sir

Gyda thros 93,000 o bobl dros dair oed yn byw yn Sir Ddinbych, mae:

- 23% ohonynt yn gallu'r Gymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021.
- 25% oedd yn gallu'r Gymraeg yn Nghyfrifiad 2011.
- Gostyngiad felly o 1300 o siaradwyr ond pwysig yw nodi bod cynnydd yng nghyfanswm y boblogaeth yn yr un cyfnod.

Mae 50% o boblogaeth y sir yn byw ym Mhrestatyn a'r Rhyl. 14% sy'n gallu'r Gymraeg yn y trefi arfordirol yma.
Yn ne orllewin Dyffryn Clwyd ac Edeirnion, mae dros 40% yn gallu siarad Cymraeg. Mae pum cymuned yno gyda thros 50% yn gallu'r Gymraeg, a Chynwyd yw'r gymuned Cymreiciaf, gyda bron i 60% o'r boblogaeth yn gallu siarad yr iaith.

Y ddwy brif dref yn Nyffryn Clwyd yw Dinbych a Rhuthun. Mae 33% yn siarad yr iaith yn Ninbych a 38% yn siarad y Gymraeg yn Rhuthun. Ond mae'n bwysig nodi'r amrywiaeth o fewn cymdogaethau'r trefi marchnad, sy'n rhoi heriau a chyfleoedd wrth gynllunio rhaglenni gwaith. Er enghraifft, yn Ninbych Uchaf mae ardaloedd o siaradwyr Cymraeg yn 15% tra bod rhai cymdogaethau yn Ninbych Isaf cymaint â 52%

Yn ne ddwyrain y sir, mae tua 20% yn gallu'r Gymraeg, cymunedau fel Llangollen, Llantysilio, Llandegla a Llanarmon yn Iâl.

Dyna felly gynnig trosolwg ieithyddol o'r sir.

Our county

With over 93,000 people over the age of three living in Denbighshire


- 23% of them report being able to speak Welsh according to the 2021 census.
- 25% said they were able to speak Welsh in the 2011 census.
- This is a 1,300 less speakers compared to the 2011 census, but it's important to note that the overall population has grown during that time.

Half of the county's population lives in Prestatyn and Rhyl. 14% speak Welsh in these coastal towns.
In the south western part of Vale of Clwyd and Edeirnion, over 40% speak Welsh. There are five communities in this area where over 50% speak Welsh, with Cynwyd being the most Welsh-speaking area at nearly 60%.

The two main towns in the Vale of Clwyd are Denbigh and Ruthin. In Denbigh, 33% speak Welsh whilst in Ruthin it reaches 38%. However, there is significant variation between neighbourhoods within these market towns, posing both challenges and opportunities when planning work programmes. For example, in Upper Denbigh only 15% speak Welsh, whereas some neighbourhoods in Lower Denbigh reach 52%.

In the south east of the county, around 20% can speak Welsh in communities such as Llangollen, Llantysilio, Llandegla, and Llanarmon-yn-Iâl.

This provides a linguistic overview of the county.



Ein Blaenoriaethau

Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd Sir Ddinbych.

Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-Gymraeg i ddysgu'r iaith.

Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.

Dylanwadu ar yr ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog neu Gymraeg.

Ein Hamcanion

Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

Annog y di-Gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

Cynnal digwyddiadau newydd unai'n annibynnol neu trwy gydweithio mewn partneriaethau

• i bontio rhwng ysgol a chymdeithas.

• i ategu at waith darpariaeth Cymraeg i oedolion.

• i gyfoethogi bywyd Cymraeg yn gyffredinol.

Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes yn y Gymraeg.

Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

Hyrwyddo trosglwyddiad o'r Gymraeg o fewn y teulu.

Our Priorities

To normalise using the Welsh language in every aspect of life in Denbighshire.

To ensure that there are opportunities and encouragement for incomers and non-Welsh speaking residents to learn the language.

To ensure that there are opportunities for native residents to develop their knowledge and use of the language.

To influence the wide range of social, economic, cultural, and educational activity within the county so that it develops to become thoroughly bilingual or Welsh.

Our Objectives

To assist the voluntary sector to offer a bilingual service.

To encourage non-Welsh speakers to adopt a positive attitude toward the language, for example by assimilating immigrant communities and helping learners to become fluent speakers and a part of the Welsh speaking community.

To hold new events either independently or by working in partnership with others

• to bridge the gap between schools and the community.

• to support the work of the Welsh for Adults provision.

• to enrich and enliven life through the medium of Welsh in general.

To support existing voluntary activities in Welsh.

To encourage children and young people to use Welsh and to organise events for them.

To promote the transmission of the Welsh language within families.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Cydweithio a Gorymdaith Gŵyl Ddewi

Yn ystod y flwyddyn bu cydweithio helaeth gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn cymunedau'r sir. Gweithiwyd gyda swyddogion cymunedol Urdd Gobaith Cymru Sir Ddinbych ar glybiau amser cinio yn Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Brân. Cafwyd cefnogaeth gan rai o'r Urdd, Cyngor Tref Dinbych, Grŵp Cynefin a Heddlu Gogledd Cymru i'n Gorymdaith flynyddol yn nhref Dinbych, Dydd Gŵyl Dewi, hefyd. Diwrnod llwyddiannus eto eleni!



Gweithgareddau i oedolion
102
Activities for adults

What have we achieved?

Partnership and celebrating Gŵyl Ddewi


During the year there was extensive collaboration with local and regional partners to strengthen the Welsh language provision within the county's communities. We worked with Urdd Gobaith Cymru's Denbighshire community officers on lunchtime clubs at Ysgol Brynhyfryd and Ysgol Dinas Brân. There was also support from some of the Urdd officers, Denbigh Town Council, Grŵp Cynefin and North Wales Police for our annual Dydd Gŵyl Ddewi Parade through the town of Denbigh. Another successful day for our patron saint!

Dysgwyr Paned a Sgwrs, Teithiau a Chelf yn y Gymraeg

Buom yn cydweithio hefyd gyda gwirfoddolwyr a sefydliadau megis Popeth Cymraeg, Canolfan Llyn Brenig a Hwb Pentredŵr wnaeth alluogi parhad a datblygiad sesiynau Paned a Sgwrs a theithiau i ddysgwyr – 34 sesiwn mewn 7 lleoliad, gyda 162 o ddysgwyr unigryw. Cynhaliwyd teithiau a sesiynau celf i ddysgwyr er mwyn pontio gyda siaradwyr rhugl.

Partneriaethau
Partnerships









Welsh learners enjoy a 'Paned a Sgwrs' chat and cuppa and some Welsh Art sessions

We also worked in partnership with volunteers and organisations such as Popeth Cymraeg, Canolfan Llyn Brenig and Hwb Pentredŵr which enabled the continuation and development of Paned a Sgwrs sessions and trips for learners. All in all we had 34 sessions at 7 locations, with 162 unique learners. Trips and art sessions were also held for learners in order to bridge their skills with fluent Welsh speakers.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Sesiwn Werin yn plesio yn Y Rhuddlan


Yn Rhuddlan, datblygodd criw bychan o wirfoddolwyr hunaniaeth leol newydd a chynnal digwyddiad llwyddiannus, gan ddenu aelodau newydd a datblygu cynlluniau i ehangu eu darpariaeth Gymraeg. Uchafbwynt y cyfnod yng nghymuned Rhuddlan oedd Sesiwn Werin Gŵyl Ddewi gyda Gwilym Bowen Rhys, a ddenodd 45 o bobl o bob oed.



Gweithgareddau i deuluoedd
13
Activities for families

Grantiau Ffermydd Gwynt yr arfordir

Diolch i gefnogaeth ariannol ffermydd gwynt ar yr arfordir, rydym wedi llwyddo i ddatblygu perthynas dda gyda chriwiau gwirfoddol sy'n awyddus i ddatblygu'r Gyrmaeg yn eu hardaloedd. Cyflwynwyd cyfleoedd newydd i gymdeithasu, gan gynnwys gigs gydag Al Lewis, Eve Goodman a Ffenast.



Cyswllt blynyddol ag oedolion
2236
Annual Adult contact





What have we achieved?

Folk session hits the mark at Rhuddlan

In Rhuddlan, a small group of volunteers developed a new local identity and held a successful event, attracting new members and developing plans to expand its Welsh language social events. The highlight of this period within Rhuddlan community was the St. David's Day Folk Session with Gwilym Bowen Rhys, which attracted 45 people of all differing ages.

Coastal Wind Farms Grants

Thanks to the financial support of wind farms on the coast, we have succeeded in developing a great relationship with volunteers at Prestatyn keen to develop Welsh language activities in their area. New opportunities to socialise were organised which included gigs with Al Lewis, Eve Goodman and Ffenast.

Y Gymraeg drwy Lego, Minecraft a'r annwyl, Fagi Ann

Parhaodd y berthynas agos sydd gennym gyda'n cydweithwyr ym Mentrau Iaith Conwy, Fflint a Wrecsam, gan gynnwys gweithdai Lego a Minecraft, a hyfforddiant i rannu adnoddau. Buom yn cydweithio hefyd gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ystod Wythnos Dathlu'r Gymraeg, gan gynnwys ymweliad gan Gomisiynydd yr Iaith, Efa Gruffudd Jones, a sesiwn stori arbennig gyda Magi Ann ar Ward y Plant, Ysbyty Glan Clwyd.

Addysg cyfrwng Cymraeg a gwersi i oedolion

Bu partneriaethau eang gyda thiwtoriaid Cymraeg i Oedolion ar sesiynau Paned a Sgwrs, a gyda RhAG a'r papurau bro ar hyrwyddo addysg Gymraeg (gan gynnwys dosbarthu 5,000 o daflenni). Cynhaliwyd stondinau a sgyrsiau hyrwyddo mewn digwyddiadau mawr fel Carnifal Dinbych a Diwrnod Chwarae Cenedlaethol.



Lego and Minecraft in Welsh and the joy of Magi Ann

The close relationship we have with our colleagues at Mentrau Iaith Conwy, Flint and Wrexham continued, including organising Lego and Minecraft workshops, and training to share resources. We also collaborated with Betsi Cadwaladr Health Board during the week long celebration of the language, which included a visit from the Welsh Language Commissioner, Efa Gruffudd Jones, and a special story session with Magi Ann on the Children's Ward at Ysbyty Glan Clwyd.

Welsh language education and adult lessons

There have been extensive partnerships with Welsh language tutors for adults during our Paned a Sgwrs sessions, and with RhAG (parents for Welsh medium education) and local papers promoting Welsh language education (incl distribution of 5,000 leaflets). Promotional stalls and talks were held at major events such as Denbigh Carnival and National Play Day.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Geirfa Bywyd Gwyllt a miri'r Carnifal

Bu'r flwyddyn yn un llawn gweithgareddau creadigol a chydweithio i ymgysylltu â theuluoedd a hyrwyddo'r Gymraeg ledled Sir Ddinbych. Cynhaliwyd Diwrnod Natur Mewn Perllan yng Nghae Dai, Dinbych, gyda helfa drysor dan arweiniad Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Cyflwynwyd enwau Cymraeg newydd am fyd natur a bywyd gwyllt i nifer o blant ac oedolion wrth fwynhau'r awyr agored. Draw yng Ngharnifal Dinbych, denwyd dros 60 o blant i weithgareddau creu bathodynnau a chafwyd sgyrsiau adeiladol gyda dros 35 o rieni ac oedolion am addysg Gymraeg a gwersi i oedolion.



What have we achieved?

Wildlife Vocabulary and the merriment of the Carnival

Cyswllt â phobl ifanc
1116
Interaction with young people

The year was full of creative activities and partnerships to engage with families and promote the Welsh language throughout Denbighshire. A Nature Day in an Orchard was held at Cae Dai, Denbigh, with a treasure hunt led by the North Wales Wildlife Trust. Welsh names were presented to a number of children and adults for fauna and flora while enjoying the outdoors. Over at the Denbigh Carnival, over 60 children participated in badge making activities and there were constructive conversations with over 35 parents and adults about Welsh medium education and Welsh lessons for adult learners.

Taith Llyfrgelloedd yr Hydref a digwyddiadau'r Nadolig

Yn nhymor yr hydref, trefnwyd Taith Llyfrgelloedd Magi Ann mewn partneriaeth â RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) a Llyfrgelloedd y Sir. Cynhaliwyd wyth sesiwn llawn gyda tua 150 o rieni a 180 o blant bach yn mynychu. Dros y gaeaf, bu presenoldeb cryf gennym mewn digwyddiadau Nadolig, gan gynnwys Ffair Nadolig Dinbych (80 o blant, 35 o rieni) a Ffair Nadolig Rhewl (30 o blant, 15 o rieni) gyda gweithgareddau celf a chyfle i hyrwyddo adnoddau Cymraeg gyda theuluoedd.

Teuluoedd
Families



Y Nadolig yn cyrraedd Pwllglas

Cawsom Sesiwn Stori a Chân Nadolig ym Mhwllglas cyn yr Ŵyl, gan ddod â dros 50 o blant bach a 30 o rieni ynghyd i weld Magi Ann a derbyn pecynnau gwybodaeth am fanteision addysg Gymraeg. Trwy'r gweithgareddau hyn, llwyddwyd i gysylltu â channoedd o blant a rhieni, cryfhau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chynnig cyfleoedd i'w defnyddio mewn amgylchedd cymunedol a theuluol.



Autumn Library Tour and Christmas celebrations

During the autumn, our life sized character, Magi Ann's Library Tour was organised in partnership with RhAG (Parents for Welsh Medium Education) and the County Libraries. Eight full sessions were held with approximately 150 parents and 180 young children attending. During the winter, we had a strong presence at Christmas events, including Denbigh's annual Christmas Fair (80 children, 35 parents) and Rhewl's Christmas Fair (30 children, 15 parents) with art and craft activities plus an opportunity to promote Welsh language resources with families.

Christmas arrives at Pwllglas

We had a Christmas story and song 'Stori a Chan' session in Pwllglas before the festivities, bringing over 50 young children and 30 parents together to enjoy a visit from Magi Ann and receive information packs about the benefits of Welsh medium education. Through these activities, we manage to connect with hundreds of children and parents, strengthen awareness of the Welsh language and offer opportunities to use Cymraeg within a community and family environment.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Cerddoriaeth a theatr Gymraeg

Yn y gwanwyn a'r haf, cynhaliwyd cyfres o gigs llwyddiannus gan gynnwys perfformiadau gan Hen Fegin a Lleuwen Steffan draw yn Ninbych; Steve Eaves a Jacob Elwy ym Mhrestatyn a pherfformiadau gan Gwmni Theatr Bara Caws draw yng Nghlawddnewydd. Bu'r gantores Mared Williams yn diddanu yn Ninbych a chefnogwyd hefyd elfennau Cymraeg Gŵyl gerddorol flynyddol Rhuthun yn ogystal a noson 'Meddianu'r Castell' yn Nhafarn y Plu. Bu'r cyfuniad o ddigwyddiadau yn fodd i ddenu bron i 1500 o bobl i ddigwyddiadau Cymraeg na fyddai wedi eu trefnu onibai am waith a mewnbwn Menter Iaith Sir Ddinbych.



What have we achieved?

Welsh theatre and music


In the spring and summer, a series of successful gigs were held including performances by Hen Fegin and Lleuwen Steffan in Denbigh; Steve Eaves and Jacob Elwy in Prestatyn and performances by Theatr Bara Caws theatre company across in Clawddnewydd. Singer, Mared Williams, entertained a crowd in Denbigh and Menter Iaith supported Welsh elements of Ruthin's annual music festival, Gwyl Rhuthun, as well as the 'Meddianu'r Castell' event at Tafarn y Plu. The combination of people at these events attracted almost 1500 attendees given the opportunity to enjoy Welsh language artists not possible but for the work and input of Menter Iaith Sir Ddinbych.

Digwyddiadau Cymunedol

Community Events

Amrywiaeth celfyddydol

Roedd tymor yr hydref yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau: taith archaeolegol gyda Rhys Mwyn, gig gan Ffenest a Bau Cat ac yna gig arall gyda Lo-fi Jones ac Osian Gierke. Aethom draw â stondin a threfnu perfformiad roc Cymraeg yn Niwrnod Hwyl Rhuddlan i gefnogi'r criw yno a rhoi blas o'r hyn sy'n bosib, yn y Gymraeg. Cynhaliwyd hefyd gweithdai Celf a Phaned a Sgwrs yn Nolbelydr, yn ogystal a threfnu cyfres o weithdai 'Sgiliau Bywyd' yn Hwb Dinbych dros gyfnod o 12 wythnos. Bu'r gweithdai celf, 'Siarad i Greu' yn gyfle i ddenu siaradwyr Cymraeg newydd a siaradwyr profiadol i saith sesiwn gwahanol dros gyfnod o chwe mis.



A diverse artistic season

The autumn season included a variety of events: an archaeological tour with Rhys Mwyn, a gig by Ffenest and Bau Cat and then another gig with Lo-fi Jones and Osian Gierke. We attended Rhuddlan Fun Day to support the local committee by offering a taste of what is possible through the medium of Welsh. Our stall was warmly welcomed and the Welsh rock performance was a great hit. Artistic plus Paned a Sgwrs workshops were also held in Dolbelydr, Henllan as well as a series of 'Life Skills' workshops in Hwb Denbigh over a period of 12 weeks. The art workshops, 'Siarad i Greu' were an opportunity to attract new Welsh and experienced speakers to seven different sessions over a period of six months.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Perfformwyr cenedlaethol yn y sir

Dros y gaeaf, daeth y sioe '1936' gan Gwmni Theatr Bara Caws draw i Lanelwy, a chynhaliwyd taith genedlaethol Gwilym Bowen Rhys Trio. Cynhaliwyd ein cystadleuaeth ffenestr orau'r dref gyda busnesau dros gyfnod Dydd Gŵyl Ddewi a buo ni'n brysur yn trefnu taith dywys i ddysgwyr yn Nolbelydr. Penllanw'r flwyddyn oedd gwylio'r sioe un dyn 'Congrinero' gan Mewn Cymeriad yn Theatr Twm o'r Nant.

Trwy'r gweithgareddau uchod, llwyddwyd i wneud cyswllt â bron i 800 o unigolion a busnesau yn Sir Ddinbych a brofodd y diwylliant Cymraeg, meithrin cysylltiadau cymunedol a rhoi llwyfan i artistiaid a pherfformwyr lleol a chenedlaethol.





What have we achieved?

National artists in the county

During the winter, the '1936' performance by Cwmni Theatr Bara Caws visited St Asaph, and the national tour with Gwilym Bowen Rhys Trio also visited Denbighshire. Our town's best business window competition was held during St David's Day celebrations and we were busy organising a guided tour for learners at Dolbelydr. Another highlight of the year was watching the one man show of 'Congrinero' by Mewn Cymeriad productions at Theatr Twm o'r Nant.

Through the activities above, we managed to make contact with almost 800 individuals and businesses in Denbighshire who experienced Welsh culture, fostered community relations and gave a platform to local and national artists and performers.

Digwyddiadau Cymunedol

Community Events

Llwyddiant Paned a Sgwrs

O ganlyniad i gefnogaeth gwirfoddolwyr mae'r gwaith rydym yn ei gyflawni fel Menter gyda parhad a thwf sesiynau Paned a Sgwrs i ddysgwyr yn parhau i dyfu. Erbyn y cyfnod hwn, mae dros 150 o unigolion yn cymryd rhan mewn bron i 30 o sesiynau a hynny mewn naw lleoliad gwahanol ledled Sir Ddinbych. Mae'r sesiynau yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol i unigolion ac yn rhoi'r cyfle iddynt ddysgu ar wahanol gamau o'u taith Gymraeg, gyda chefnogaeth adnoddau a syniadau ymarferol gan y Fenter.





The success of Paned a Sgwrs

As a result of the support of volunteers the continued work we carry out as Menter Iaith has seen a growth in Paned and Sgwrs sessions for learners continues. During this period, over 150 individuals are taking part in almost 30 sessions across nine different locations throughout Denbighshire. The sessions offer social opportunities for individuals and give them the opportunity to learn at different stages of their Welsh language journey, with the support of resources and practical ideas from Menter Iaith.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Rhuddlan, Prestatyn a Dyserth

Yn lleol, parhaodd Menter Gymraeg Rhuddlan sydd â phedwar gwirfoddolwr gweithgar i drefnu digwyddiadau cymdeithasol yn yr ardal. Draw ym Mhrestatyn mae criw gweithgar o 11 wedi ffurfio pwyllgor newydd Llais Prestatyn ac wedi cynnal pum digwyddiad a denu cynulleidfaoedd newydd i gigs a gweithgareddau. Draw yn Nyserth, ffurfiodd grŵp Paned a Sgwrs bwyllgor ardal newydd hefyd.

I fyny'r Dyffryn

Cefnogwyd pwyllgorau gwirfoddol eraill gan gynnwys Gŵyl Ganol Haf Dinbych, Gŵyl Rhuthun, Drysau Agored Dinbych, Dydd Owain Glyndŵr a Menter y Plu, gan gynnig cyngor, presenoldeb mewn cyfarfodydd a chynorthwyo gyda deunydd hyrwyddo.









What have we achieved?

Rhuddlan, Prestatyn & Dyserth

Locally, Menter Gymraeg Rhuddlan which has four active volunteers continued to organise social events in the area. Over in Prestatyn an active group of 11 have formed the new Llais Prestatyn committee and have held five events and attracted new audiences to gigs and activities. Over in Dyserth, the Paned a Sgwrs group has also evolved into a new area committee.

In the Vale

Other voluntary committees were supported during the year including Denbigh Midsummer Festival, Ruthin Festival, Denbigh Open Doors, Owain Glyndŵr Day and Menter y Plu, offering practical strategic advice, attendance at meetings and assisting with promotional material.

Digwyddiadau Cymunedol

Community Events

Pwysigrwydd y cydweithio

Parhaodd cydweithio agos gyda Mentrau Iaith Conwy a Fflint a Wrecsam, gan gynnwys sesiynau ar y cyd, gweithdai Lego a Minecraft, a datblygu swydd i'n Swyddog prosiect newydd ardal Hiraethog gyda nawdd melinau gwynt. Cynhaliwyd hefyd gyfarfodydd Fforwm Iaith Sir Ddinbych a chydweithio trwy rwydwaith y Mentrau ar brosiectau cenedlaethol. Yn Hiraethog, dechreuwyd gwaith cynllunio gyda chymunedau lleol, gan gynnwys ymgynghoriadau gyda phobl ifanc ac ysgolion i lunio rhaglen weithgareddau ar gyfer 2025. Trwy'r holl weithgareddau hyn, mae'r Fenter wedi cryfhau cysylltiadau cymunedol, ehangu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a chefnogi grwpiau lleol i dyfu a ffynnu.





Partnership work is crucial

Close partnership working continued with Mentrau Iaith Conwy, Flint and Wrexham, including joint sessions of Lego and Minecraft workshops, and the exciting development of a new project officer role for the Hiraethog area thanks to funding support via of windmills project. Denbighshire Language Forum meetings were also held during the year and we continued our partnership work through the Mentrau Iaith Cymru's network on national projects. In Hiraethog, planning work began with local communities, including consultations with young people and schools to draw up a programme of activities for 2025. Through all these activities, Menter Iaith has strengthened community relations, expanded opportunities to use the Welsh language, and supported local groups to grow and flourish.



Cysylltu ag oedolion

2236

Contact with adults

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Cerddoriaeth yn cynnig cyfleoedd

Bu'r flwyddyn yn llawn cyfleoedd creadigol ac addysgol i bobl ifanc ar draws y sir. Cynhaliwyd Brwydr y Bandiau Brynhyfryd mewn partneriaeth â Gŵyl Rhuthun, gan roi cyfle i 21 o bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau mewn tri gweithdy a pherfformio o flaen 200 o gynulleidfa, gyda'r band buddugol yn chwarae ar lwyfan 'Dop Dre' yr Ŵyl.

Pum tref yn elwa o'r gwaith Lego a Minecraft

Cynhaliwyd wyth gweithdy Lego a Minecraft i dros 100 o blant (7–15 oed) mewn pum tref, gan gyfuno hanes lleol a threftadaeth daearyddol a hynny trwy chwarae creadigol yn y Gymraeg. Rydyn ni'n falch iawn o'r gwaith datblygu rydyn ni wedi ei wneud dros y blynyddoedd yn y maes hwn. Draw yn Nolbelydr, plasdy hanesyddol a chartref Henry Salesbury ger Henllan, trefnwyd dau weithdy Lego i 32 o blant o Ysgolion Henllan a Phant Pastynog.

Gweithgareddau i blant a phobl ifanc
62
Activities for children & young people





What have we achieved?

Music Offers Opportunities

The year was full of creative and educational opportunities for young people across the county. Brwydr y Bandiau Brynhyfryd competition was held in partnership with Ruthin Festival, giving 21 young people the opportunity to develop their skills at three workshops and perform in front of a 200 audience, with the winning band playing on the Festival's 'Dop Dre' stage.


Five towns benefit from Lego and Minecraft sessions

Eight Lego and Minecraft workshops were held for over 100 children (aged 7–15) in five towns, combining local history and geographical heritage through creative play in Welsh. We are very proud of the development work we have done over the years in this area. Over in Dolbelydr, the historic mansion and home of Henry Salesbury near Henllan, two Lego workshops were organised for 32 children from Henllan and Pant Pastynog Schools.

Clybiau'r Ysgolion Uwchradd

Parhaodd clybiau amser cinio yn Ysgol Glan Clwyd, Brynhyfryd a Dinas Brân, gyda 60 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys yr ymgyrch genedlaethol flynyddol 'Shwmae / Su'mae?.' Cynhaliwyd hefyd sioe newydd gan gwmni theatr Mewn Cymeriad 'Geirie' yn Glan Clwyd gyda 420 o ddisgyblion yn mynychu tri pherfformiad.





cyswllt â phlant
1362
Contact with children

Secondary School Clubs

Lunchtime clubs continued at Ysgol Glan Clwyd, Ysgol Brynhyfryd and Ysgol Dinas Brân, with 60 young people taking part in various activities, including the annual national campaign 'Shwmae / Su'mae?.' A new show was also performed by theatre company Mewn Cymeriad called 'Geirie' in Ysgol Glan Clwyd. 420 pupils attended the three performances.

Cyfathrebu

Mae'r gwaith o ledaenu'r gair am y Gymraeg wrth galon ein gweithgareddau. Rydym yn gyson godi proffil am yr hyn rydym yn ei chynnig i'n cymunedau ac am fanteision y Gymraeg a dwyieithrwydd drwy'r wasg, cyfryngau cymdeithasol, yn uniongyrchol gydag unigolion a grwpiau a chyda'r busnesau o fewn y sir.

Dros y flwyddyn gwnaethom gyhoeddi:

- bron i 400 o negeseuon i'n 2700 o ddilynwyr Facebook
- bron i 60 o bostiadau i'r dros 1000 o ddilynwyr Instagram
- dros 100 o bostiadau i'n 2600 o ddilynwyr ar X
- 13 ar ein cyfrif Bluesky newydd a 10 neges ar Threads

Mae dros 150 o straeon wedi eu cyhoeddi ar ein tudalen Gymraeg wythnosol yn y Denbighshire Free Press, diolch i wirfoddolwr brwd ac mae ein herthyglau yn y papurau bro yn parhau i'n cynorthwyo i gyrraedd cynulleidfa Gymraeg. Mae hyn ar ben y cyfweliadau a'r straeon gaiff eu darlledu a'u cyhoeddi yn y wasg, o dro i dro.



Communications

Communicating the general message about the benefits of the Welsh language is at the heart of our activities. We are constantly raising the profile of what we offer to our communities and the benefits the Welsh language and bilingualism has on people's outlook through the press, social media, directly with individuals and groups plus with the county's business community.

During the year we published:

- almost 400 messages to our 2700 Facebook followers
- almost 60 posts to over 1000 Instagram followers
- over 100 posts to our 2600 followers on X
- 13 on our new Bluesky account and 10 messages on Threads

Over 150 stories have been published on our weekly Welsh page in the Denbighshire Free Press, thanks to an enthusiastic volunteer and our articles in the local Welsh language community papers continue to help us reach a Welsh audience. This is on top of the interviews and stories that are broadcast and published in the press, on occasions.



Gwirfoddolwyr

"Rydyn ni'n hynod o ffodus, bod cymaint o bobl yn gweithio yn wirfoddol o fewn ein cymunedau ledled y sir," meddai Ruth, ein prif swyddog.
Trwy gynllun 'Cyfeillion y Gymraeg' bu'r Fenter yn ffurfioli nifer o'r prosesau sydd gennym, er mwyn creu banc o bobl i ehangu ein heffaith a'n dylanwad ar yr iaith yn Sir Ddinbych. Diolch o galon i bobl fel Elin, yn y llun, sy'n gwirfoddoli'n gyson gyda ni!

Volunteers

"We are extremely fortunate that so many people work voluntarily within our communities throughout the county," said Ruth, our chief officer. During the year an Initiative we used formalised a number of the processes we have to create a bank of volunteers, like Elin, in the picture, who regularly volunteers with us! Bringing in learners and new Welsh speakers as volunteers benefits both them and us, as an organisation.

Ar y gweill 25-26

Cartref newydd i'r Fenter

Mae paratoi a chynllunio manwl wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer symud i'n cartref newydd yn Y Farchnad Fenyn. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, symudodd y gweithlu i'r adeilad newydd yng nghanol tref farchnad Dinbych. Dyma gyfnod newydd a chyffrous i'r gweithlu a'n cefnogwyr. Rydyn ni'n edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod yn ein cartref newydd.

Ymestyn Prosiect Gwynt y Môr

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gais am gefnogaeth ariannol ar gyfer Swyddog Y Glannau i gefnogi capasiti'r Fenter o weithredu ar lawr gwlad yn ardaloedd glan môr sir Ddinbych. Clywsom yn ddiweddar bod y cais wedi bod yn llwyddiannus. O ganlyniad byddwn yn ymestyn y ddarpariaeth yn yr ardal ac ar ddiwedd y cynllun, byddwn wedi gweithredu ar y glannau am chwe blynedd.



Maniffesto MICymru

Yn ystod y flwyddyn, buom fel rhwydwaith o Fentrau yn gweithio ar faniffesto sy'n nodi safbwyntiau'r Mentrau Iaith am ein dyheadau dros y Gymraeg, y gymuned a'r economi leol. Mae cyhoeddi'r Maniffesto yn nodi ein blaenoriaethau a'n hawydd i gydweithio gyda ymgeiswyr gwleidyddol sy'n sefyll ar gyfer Etholiad Senedd Cymru y flwyddyn nesaf. Gallwch weld copi o'r maniffesto trwy fynd i: **www.mentrauiaith.cymru/ein-maniffesto/**

Cysylltu â ni

Menter Iaith Sir Ddinbych
Y Farchnad Fenyn,
Llain y Capel, Dinbych LL16 3TU

Contact us

menter@misirddinbych.cymru
(01745) 812822
www.misirddinbych.cymru

Menter Iaith Sir Ddinbych **@MIDinbych** **@cymraeg_sirddinbych**

Coming up in 25-26

New Home for Menter Iaith

As we prepared to move into our new home, Y Farchnad Fenyn (The Butter Market building) in-depth planning has been in the pipeline during the year. At the end of the financial year, the workforce moved to the new building in the centre of Denbigh's market town. This is a new and exciting time for our small team and our supporters. We look forward to the year ahead as we settle into our new offices.

Expansion of Gwynt y Môr project

During the year we applied for financial support for a Coastal Officer to support the team's capacity to operate at grassroot level in Denbighshire's coastal areas. We received the news recently that the application was successful. As a result we will extend the provision in the area and at the end of the project, we will have operated at these coastal areas for six years.



MICymru Manifesto

During the year, as a national network, we worked on a manifesto that sets out Mentrau Iaith Cymru's aspirations for the Welsh language, the community and the local economy. The publication of the Manifesto sets out our priorities and our desire to work with political candidates standing for next year's Welsh Senedd Election. You can see a copy by visiting: **www.mentrauiaith.cymru/ein-maniffesto/**

Diolch

I'n harianwyr a'n partneriaid.

I'r holl wirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser yn ystod y flwyddyn. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr.

A huge thank you goes to to our funders and partners.

And another diolch to all the volunteers for giving their time to support our work during the year.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych / Cheu Cymunedau Cryf trwy Weithredu Gwirfoddol. Denbighshire Voluntary Services Council Building Resilient Communities through Voluntary Action
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU Funded by UK Government
dll
Ariannwyd gan Gwynt y Môr Funded by Gwynt y Môr
Ariannwyd gan Gwastadeddau Rhyl Funded by Rhyl Flats
Cyngor Tref Rhuddlan Town Council
Cyngor Tref Rhuthun Ruthin Town Council
Noson Allan Night Out
Mentrau Iaith Cymru
MENTRAU IAITH

Rhif cofrestredig y cwmni: 6204415
Rhif yr elusen: 1120223

Menter Iaith Sir Ddinbych

Cwmni cyfyngedig drwy warant
heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Datganiadau Ariannol
Am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025
Sydd Wedi'u Paratoi Heb Archwiliad Ariannol.

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn dymuno cydnabod ei chyllidwyr 2024–25
Menter Iaith Sir Ddinbych wishes to acknowledge its funders 2024-25

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Creu Cymunedau Cryf drwy Weithredu Gwirfoddol
Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through voluntary action

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

dll

Ariannwyd gan Gwynt y Môr – Funded by Gwynt y Môr

Ariannwyd gan Gwastadeddau Rhyl – Funded by Rhyl Flats

Cyngor Tref Dinbych Denbigh Town Council

Cyngor Tref Rhuddlan Town Council

Cyngor Tref Rhuthun Ruthin Town Council

Noson Allan Night Out

MENTRAU IAITH

Diolch hefyd i swyddogion a phwyllgor Mentrau Iaith Cymru ac i rwydwaith y Mentrau Iaith am eu cefnogaeth a chydweithrediad gwerthfawr gydol y flwyddyn

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Cynnwys

	Tudalen
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1 - 5
Adroddiad yr archiliwr annibynnol	6
Datganiad o weithgareddau ariannol	7
Mantolen	8
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	9 – 18

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

CYFEIRNOD A MANYLION GWEINYDDOL.

Enw'r elusen gofrestredig	Menter Iaith Sir Ddinbych
Rhif cofrestru'r elusen:	1120223
Rhif cofrestredig y cwmni	6204415 (Cymru a Lloegr)
Swyddfa gofrestredig	Y Farchnad Fenyn Llain y Capel DINBYCH Sir Ddinbych LL16 3TU

Cyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr
Y cyfarwyddyr ac ymddiriedolwyr a fu'n gwasanaethu'r elusen yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 hyd at 31 Mawrth 2025 oedd:

Cadeirydd	Bethan Cartwright
Trysorydd	Owain Gwyn Morris
Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr eraill	Gwenan Prysor Emrys Wynne Arwel Roberts Menna Eluned Jones Catrin Williams Lowri Haf Ellis Dyfan Mael Phillips Manon Rees-O'Brien (ethol 23/10/2024) Eifion Williams (ethol 23/10/2024) Owain Llŷr Williams (ethol 23/10/2024)
Ysgrifennydd	Owain Llŷr Williams
Bancwyr	HSBC 17 Stryd y Dyffryn DINBYCH Sir Ddinbych LL16 3AG
Cyfrifwyr	Hill & Roberts Cyfrifwyr Siartredig 1 Tan y Castell RHUTHUN Sir Ddinbych LL15 1DQ

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

Strwythur a rheolaeth

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn elusen gofrestredig, rhif 1120223, wedi ei sefydlu fel cwmni cyfyngedig, rhif 6204415. Mae cyfansoddiad y cwmni yn unol â chyfansoddiad elusennol a chwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol. Cofrestrwyd Menter Iaith Sir Ddinbych fel elusen gofrestredig, ac fel cwmni cyfyngedig, ar 5 Ebrill 2007.

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych (yr 'Elusen') yn cael ei gweinyddu a'i rheoli yn ôl y memorandwm ac erthyglau cymdeithasol y cwmni, a gan aelodau bwrdd y cyfarwyddwyr.

Mae aelodaeth yr Elusen yn agored i unigolion dros 18 oed ac unrhyw gymdeithas, gorfforedig neu anghorfforedig, sydd yn cytuno ag amcanion a gwaith yr Elusen, heb wahaniaethu rhwng pobl o safbwynt eu cyfoeth, gwleidyddiaeth, hil, crefydd, rhyw neu anabledd. Bydd i bob aelod-fudiad benodi unigolyn i'w gynrychioli ac i bleidleisio.

Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn unfrydol ac am reswm da, roi terfyn ar aelodaeth unrhyw unigolyn neu aelod-fudiad: cyhyd a bod gan yr unigolyn dan sylw neu gynrychiolydd penodedig yr aelod-fudiad dan sylw'r hawl i wrandawiad gan y Bwrdd y Cyfarwyddwyr, yng nghwmni ffrind, cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Bwrdd y cyfarwyddwyr

Rheolir busnes yr Elusen gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a fydd yn atebol i'r aelodau. Ni fydd gan unrhyw berson hawl i weithredu fel Cyfarwyddwr, boed hynny am, y tro cyntaf neu dro dilynol, hyd nes y bydd wedi llofnodi datganiad derbyn parodrwydd i weithredu er budd yr Elusen yn llyfr cofnodion Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

Bydd Bwrdd y cyfarwyddwyr yn cynnwys dim llai na 5 o gyfarwyddwyr a dim mwy na 14 o gyfarwyddwyr.

Gall y Cyfarwyddwyr ar unrhyw adeg gyfethol unrhyw berson i Fwrdd y Cyfarwyddwyr cyn belled na fydd mwy nag un rhan o dair o Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn gyfetholedig a chyn belled na ragorir ar yr uchafswm a benodir yn erthygl 39, ac na wneir rhagor na thri chyfetholiad o'r fath rhwng un Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r nesaf. Rhaid i bob person a gyfetholir fel hyn ymddiswyddo yn y Cyfarfod Blynyddol yn dilyn eu cyfetholiad, ond byddent yn gymwys i'w hailbenodi wedi hynny.

Ceir talu holl gostau teithio, gwesty a threuliau eraill rhesymol cyfarwyddwyr mewn perthynas â'u presenoldeb mewn cyfarfod Cyfarwyddwyr, pwyllgorau neu gyfarfod cyffredinol neu mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau, ond fel arall ni fyddant yn derbyn tal.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

Nodau'r elusen

1. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn Sir Ddinbych.

2. Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-gymraeg ddysgu'r iaith

3. Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.

4. Dylanwadu ar yr ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog neu Gymraeg.

Amcanion yr elusen

i) Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

ii) Annog y di-gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

iii) Cynnal digwyddiadau newydd naill a'i yn annibynnol neu trwy gydweithio mewn partneriaeth ag eraill
- i bontio rhwng ysgol a chymdeithas.
- i ategu at waith y ddarpariaeth Cymraeg i oedolion.
- i gyfoethogi a bywiocáu bywyd Cymraeg yn gyffredinol.

iv) Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes yn Gymraeg.

v) Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

vi) Hyrwyddo trosglwyddiad o'r Gymraeg o fewn y teulu.

Darparu budd i'r cyhoedd

Wrth gynllunio ein gwaith am y flwyddyn, mae aelodau'r pwyllgor sy'n gyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau a'r budd i'r cyhoedd. Yn benodol, ceisiwn gynorthwyo a chefnogi'r gymuned yn ei chyfanrwydd o ran hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg gan bob oedran. Rydym yn gweithio ar draws y sir gyfan a darparwn gyfleoedd i bobl wella proffil y Gymraeg a dwyieithrwydd, drwy ddarparu cyngor, cymorth, prosiectau a gweithgareddau penodol. Ein corff ni yw'r unig un â'r brîff penodol i normaleiddio'r Gymraeg/dwyieithrwydd mewn bywyd teuluol a bywyd cyhoeddus ar draws sbectrwm oedran y sir. Gweithiwn ar y cyd gyda phartneriaid allweddol megis yr Urdd a Mudiad Meithrin a darparwyr statudol megis ysgolion a'r Cyngor Sir. Rydym yn gweithio gyda chyrff eraill sy'n ymwneud â darparu gwersi Cymraeg i oedolion hefyd gan gynorthwyo i ymestyn y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae ein deunyddiau cynnig cyngor a marchnata ar gael bob amser, ac mae'r Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr yn cytuno ar dargedau ar gyfer gwaith cymunedol yn flynyddol.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

Adolygiad ariannol

Mae'r prif weithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhai i blant a phobl ifanc, mewn partneriaeth gyda grwpiau lleol eraill. Defnyddir yr holl incwm a dderbynnir i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, p'un ai ar y ffôn, drwy gyfrwng e-bost neu wyneb yn wyneb. Ceisiwn sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol, gan dargedu'r cyhoedd drwy gynnig cyngor am ddim a gweithgareddau neu weithdai celfyddydol, llenyddol, digidol a rhai sy'n addas i siaradwyr Cymraeg rhugl neu siaradwyr Cymraeg newydd.

Campau a gyflawnwyd

Am ddarlun mwy manwl o weithgareddau'r flwyddyn sy'n cyflawni nodau ac amcanion yr elusen ac yn rhoi budd i'r cyhoedd gweler Adroddiad Blynyddol yr elusen.

Perfformiad Ariannol yr Elusen

Mae cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 wedi codi o £124,902 i £143,482, sef cynydd o £18,580 (14.87%) ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r cyfradd llog wedi aros yn debyg ac erbyn diwedd y flwyddyn derbyniwyd £389 o incwm buddsoddiad am y flwyddyn (2024 - £380). Mae cyfanswm yr adnoddau a dreuliwyd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 wedi codi o £114,225 i £141,934 sef cynydd o £27,709 (24.25%) ar y flwyddyn flaenorol. Cafwyd gwarged o £1,548 am y flwyddyn i gymharu â gwarged o £10,677 am y flwyddyn flaenorol. Mae mwy o fanylder i'w weld yn Adroddiad Blynyddol yr Elusen.

Polisi Cronfeydd

Mae'n rhan o bolisi'r Elusen i gadw cronfeydd anghyfyngedig sef y cronfeydd rhyddion, ar lefel sy'n hafal i tua 3 mis o dreuliau anghyfyngedig. Mae hyn yn caniatáu cronfa ddigonol i dalu costau rheoli, gweinyddu a chynnal yr Elusen.

Polisi Buddsoddiad

Yr amcan buddsoddiad yw diogelu'r buddsoddiadau cyfredol yn erbyn chwyddiant ac i gael incwm rhesymol yn ôl. Mae perfformiad y buddsoddiadau yn cael eu hadolygu ar sail gyson trwy eu cymharu gyda maincfesuriad addas.

Rheolaeth Risg

Gwnaed arolwg gan y Cyfarwyddwyr ym meysydd busnes a gweithredu'r Elusen a gallant gadarnhau y byddai'r Elusen mewn sefyllfa i liniaru unrhyw risg.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae'r Elusen yn parhau i weithio yn agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a phartneriaid eraill i hybu'r iaith Gymraeg drwy Sir Ddinbych gyfan. Mae'r Elusen hefyd yn parhau i ddatblygu presenoldeb ar y we a chyfryngau cymdeithasol drwy'r wefan a rhwydweithiau cymdeithasol, a hyn wedi dod yn bwysicach dros y blynyddoedd ddiwethaf wrth i batrymau cyfathrebu a chymdeithasu newid. Mae'r Elusen bellach wedi'i ddyfarnu'n Elusen Ddibynadwy gan yr NCVO am yr ail dro ym mis Medi 2023. Golyga hyn bod prosesau yn eu lle i roi sicrwydd i bartneriaid ac arianwyr a photensial i ddenu mwy o fuddsoddiad a gwaith mewn partneriaeth.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar Fenter Iaith Sir Ddinbych at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y DU (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn gofyn bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi safbwynt cywir a theg ar faterion y cwmni elusennol fel y mae pethau ac o'r ffynonellau sy'n dod i mewn a defnydd y ffynonellau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol dros y cyfnod hwnnw. Fel rhan o waith paratoi'r datganiadau ariannol, bydd gofyn i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson
- Dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen
- Beirniadu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn bwyllog
- Paratoi'r datganiadau ariannol yn seiliedig ar fusnes sydd ar fynd oni bai ei bod yn anaddas cymryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion ariannol digonol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, beth ydy sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac yn eu galluogi nhw i sicrhau fod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Cwmnïau 2006. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly hefyd dros gymryd camau rhesymol er mwyn rhwystro a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cafodd adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ei fabwysiadu ar 22 Hydref 2025 a'i arwyddo ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gan:

Llofnod *Gwenan Prysor*

Enw llawn **Gwenan Prysor**

Safle **Is-gadeirydd**

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CWMNI ELUSENNOL MENTER IAITH SIR DDINBYCH ('y Cwmni')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd
Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (a hefyd ei gyfarwyddwyr at ddibenion y gyfraith cwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archiliwad ariannol o gyfrifon y Cwmni o dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon eich elusen fel y cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol
Cwblheais fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu:

- bod cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer y Cwmni fel sy'n ofynnol gan adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; neu
- nid yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwy ar gyfer cyfrifon ac adroddiadau gan elusennau yn gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd: *R A Roberts* Dyddiad: 31/10/2025

R A Roberts, BSc, FCA
Hill & Roberts Cyfrifwyr Siartredig
1 Tan y Castell
RHUTHUN
Sir Ddinbych
LL15 1DQ

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Datganiad o weithgareddau ariannol (yn cynnwys crynodeb o gyfrif incwm a gwariant) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

	Nodyn	2025 Cronfeydd Anghyfyngedig	2025 Cronfeydd Cyfygedig	2025 Cyfanswm Cronfeydd	2024 Cyfanswm Cronfeydd
		£	£	£	£
Incwm					
Incwm a gwaddoliadau					
Rhoddion a chymynroddion	3	96,646	-	96,646	96,376
Gweithgareddau elusennol	4	30,980	-	30,980	13,060
Gweithgareddau masnachu arall	5	10,458	-	10,458	10,086
Incwm arall	6	5,000	-	5,000	5,000
Buddsoddiant	7	398	-	380	380
Cyfanswm incwm		143,482	-	143,482	124,902
Gwariant					
Gwariant ar weithgareddau elusennol	8	141,934	-	141,934	114,225
Cyfanswm gwariant		141,934	-	141,934	114,225
Incwm / gwariant net	11	**1,548**	**-**	**1,548**	**10,677**
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd				**-**	**-**
Symudiad net yn y cronfeydd		**1,548**	**-**	**1,548**	**10,677**
Cyfanswm cronfeydd 01 Ebrill 2024		53,816	-	53,816	43,139
Cyfanswm cronfeydd 31 Mawrth 2025		**55,364**	**-**	**55,364**	**53,816**

Mae holl weithgareddau'r cwmni yn cael eu hystyried yn rhai parhaol.

Nid oedd gan y cwmni enillion na cholledion heblaw am y gwarged am y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 18 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol yma.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2025

	Nodyn	2025		2024	
		£	£	£	£
Asedau sefydlog					
Asedau cyffyrddadwy	16		5,034		2,793
Asedau cyfredol					
Dyledwyr	17	355		943	
Arian yn y banc		52,118		52,047	
Arian mewn llaw		-		-	
		52,473		52,990	
Credydwyr -yn daladwy o fewn blwyddyn	18	2,143		1,967	
Asedau cyfredol net			50,330		51,023
Asedau net			**£55,364**		**£53,816**
			£		£
Cronfeydd wrth gefn					
Cronfeydd anghyfyngedig	19		55,364		53,816
Cronfeydd cyfyngedig	19		-		-
Cyfanswm cronfeydd			**£55,364**		**£53,816**

Roedd gan y cwmni hawl i eithrio rhag archwilio'r datganiadau ariannol yn rhinwedd adran 477 o'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn berthnasol i gwmnïau bychan.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni gael archwiliad o'r datganiadau ariannol am y flwyddyn berthnasol yn unol ag adran 476;

Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu dyletswyddau i gydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf ynglŷn â chadw cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau ariannol.

Y mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi mewn cytundeb â'r ddarpariaeth arbennig adran XV o ddeddf Cwmnïau 2006 sydd yn berthnasol i gwmnïau bach ac yn unol â FRS 102 SORP.

Mabwysiadwyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd yr Cyfarwyddwyr ar 22 Hydref 2025 ac arwyddwyd ar eu rhan gan:

Llofnod: *O G Morris*

Owain Gwyn Morris
Trysorydd - Cyfarwyddwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 18 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol yma

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

1 Gwybodaeth Statudol

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn gwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gorffori yng Nghymru, yn y DU. Y swyddfa gofrestredig ydy Y Farchnad Fenyn, Llain y Capel, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3TU.

Caiff y datganiadau ariannol eu cyflwyno mewn punnoedd sterling (£), arian gweithredu'r cwmni, a'i dalgrynnu at y bunt agosaf.

Mae'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol sydd wedi'u defnyddio wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn wedi'u gosod isod. Mae'r polisïau wedi'u defnyddio yn gyson gyda phob blwyddyn gaiff ei chyflwyno, oni bai y nodir yn wahanol.

2 Polisïau Cyfrifyddu

Sail paratoi'r datganiadau ariannol
Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sy'n endid budd cyhoeddus o dan FRS102, wedi'u paratoi yn unol â Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen (FRS102) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion Argymelledig sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adrodd Ariannol perthnasol y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (mewn grym 1 Ionawr 2019)', Safon Adrodd Ariannol 102 'Safon Adrodd Ariannol perthnasol y DU a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r confensiwn costau hanesyddol.

Incwm
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith bydd gan yr elusen hawl dros yr arian.

Incwm o weithgareddau elusennol
Mae incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm wedi'i dderbyn trwy gytundeb neu lle mae hawl dros arian grant yn dibynnu ar amodau perfformio penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod wrth i'r gwasanaethau cysylltiedig gael eu darparu ac wrth gaffael yr hawl, bydd modd mesur tebygrwydd faint gaiff ei dderbyn a'r swm ei hun gyda digon o ddibynadwyedd. Caiff incwm ei ohirio pan gaiff swm ei dderbyn cyn perfformio'r gwasanaeth neu ddigwyddiad y mae'n gysylltiedig ag o.

Incwm o fuddsoddiad
Caiff incwm o fuddsoddiad ei gydnabod pan gaiff ei derbyn.

Gwariant
Caiff dyledion eu cydnabod fel gwariant unwaith y bydd gorfodaeth ymarferol neu gyfreithiol sy'n ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, mae'n debyg y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd wrth ei dalu a bydd modd mesur swm yr orfodaeth yn ddibynadwy. Caiff gwariant ei ystyried ar sail croniadau ac mae wedi'i ddosbarthu o dan benawdau sy'n crynhoi'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw DAW nad oes modd ei hawlio yn ôl.

Mae ‘gwariant elusennol’ yn cynnwys y costau hynny mae'r elusen wedi'i wario wrth ddarparu ei gweithgareddau a'i gwasanaethau ar gyfer ei buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y mae modd eu dyrannu yn uniongyrchol tuag at weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

2 Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Gwariant (parhad)
'Costau cefnogi' ydy'r costau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gweithgaredd ond er hynny, tydyn nhw ddim yn cynhyrchu neu yn creu allbwn gweithgaredd yr elusen. Mae hyn yn cynnwys costau llywodraethol sef y costau hynny sy'n gysylltiedig gyda chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys y ffioedd a chostau cyfrifyddu sy'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen yn ogystal â rhan o'r cyflogau sy'n seiliedig ar fras amcan o'r amser a dreuliwyd ar yr adran hon.

Asedau sefydlog cyffyrddadwy
Mae asedau sefydlog wedi'u cofnodi trwy gostau i ddechrau.

Dibrisiad
Caiff dibrisiad ei gyfrifo er mwyn dileu cost ased, llai o'i werth sy'n weddill dros fywyd economaidd defnyddiol yr ased fel a ganlyn:

Offer swyddfa	- lleihau'r cyfanswm o 25%

Treth

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

Cyfrifyddu cronfeydd
Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'r elusen eu defnyddio, fel y gwêl yr ymddiriedolwyr yn ddoeth, at unrhyw ddiben sy'n ymwneud ag amcanion yr elusen.

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi'u derbyn yn amodol gan y rhoddwyr at y diben sydd wedi'i bwriadu ar eu cyfer.

Offerynnau ariannol
Does gan yr elusen ddim ond asedau ariannol a dyledion ariannol o natur sy'n cymhwyso fel offerynnau ariannol syml. Caiff offerynnau ariannol syml eu hadnabod yn gyntaf drwy werth trosglwyddo ac yna eu mesur trwy eu gwerth talu.

Dyledwyr
Caiff dyledwyr masnachu a dyledwyr eraill eu cydnabod trwy'r swm talu sy'n ddyledus ar ôl cynnig unrhyw ostyngiad masnachu.
Caiff taliadau o flaen llaw eu prisio ar y swm net a dalwyd o flaen llaw ar unrhyw ostyngiad dyledus.

Credydwyr
Caiff credydwyr eu cydnabod lle bo gan yr elusen orfodaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol fydd mwy na thebyg yn arwain at drosglwyddo cronfeydd at drydydd parti a bydd modd mesur neu amcangyfrif y swm sy'n ddyledus er mwyn talu'r orfodaeth yn ddibynadwy. Caiff credydwyr gan amlaf eu cydnabod trwy eu swm talu ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau masnachu sy'n ddyledus.

Costau pensiwn
Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun cyfraniad pensiwn diffiniedig. Caiff costau cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun pensiwn y cwmni elusennol eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y cyfnod perthnasol.

2 Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Costau pensiwn (parhad)
Mae'r cwmni elusennol yn gwneud cyfraniadau i gynlluniau pensiwn personol ar ran ei gyflogai. Caiff costau eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y cyfnod perthnasol.

3 Rhoddion a chymynrhoddion

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£	£
Grant Llywodraeth Cymru	81,583	-	81,583	81,583
Grant Cyngor Sir Ddinbych	15,063	-	15,063	14,763
Rhodd Cymdeithas Cymraeg Dinbych	-	-	-	30
	96,646	-	96,646	96,376

4 Gweithgareddau elusennol

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£	£
Grant Grwp Cynefin	-	-	-	960
Grant DVSC	-	-	-	10,000
Grant Cronfa Allweddol – Lluosi (trwy DVSC)	20,700	-	20,700	-
Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin (trwy DLL)	5,000	-	5,000	-
Grant Cyngor Tref Dinbych	3,420	-	3,420	-
Grant Cyngor Tref Rhuthun	1,360	-	1,360	-
Grant Cyngor Tref Rhuddlan	-	-	-	1,650
Grant Cyngor Tref Prestatyn	-	-	-	250
Grant Cadwyn Clwyd	-	-	-	200
Grant Mentrau Iaith Cymru	500	-	500	-
	30,980	-	30,980	13,060

5 Gweithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£	£
Gweithgareddau a phrosiectau	9,433	-	9,433	8,808
Incwm Arall	1,025	-	1,025	128
Prosiect y Glannau rhentu desg	-	-	-	750
Er cof am Richard Cowell	-	-	-	400
	10,458	-	10,458	10,086

6 Incwm Arall

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Lwfans Nawdd Cymdeithasol	5,000	-	5,000	5,000
	5,000	-	5,000	5,000

7 Incwm o fuddsoddiant

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Llog derbyniwyd	398	-	398	380
	398	-	398	380

8 Gwariant ar weithgareddau elusennol

	Cronfeydd Anghyfynedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Costau gweithgareddau elusennol cyffredin				
Cyflogau staff	73,413	-	73,413	66,785
Yswiriant gwladol	6,740	-	6,740	6,048
Costau pensiwn staff	4,476	-	4,476	5,129
Hyfforddiant	26	-	26	283
Costau gwasanaethau llawrydd	3,540	-	3,540	600
Rhent a llogi ystafelloedd	1,676	-	1,676	875
Prydlesi gweithredol – offer swyddfa	168	-	168	1,402
Teithio a Lluniaeth	2,072	-	2,072	2,295
Teleffon	351	-	351	399
Trydan	91	-	91	-
Argraffu, papur a phost	634	-	634	425
Costau Cyfrifiadur	1,309	-	1,309	662
Marchnata a hysbysebu	442	-	442	459
Costau banc	148	-	148	151
Tanysgrifiadau	1,003	-	1,003	957
Dibrisiant	1,471	-	1,471	816
Prosiectau a gweithgareddau - Cymuned	11,402	-	11,402	2,063
Prosiectau a gweithgareddau – Teulu	35	-	35	311
Prosiectau a gweithgareddau – Plant & Phobl Ifanc	2,881	-	2,881	2,703
Prosiectau a gweithgareddau – Swyddog Prosiect y Glannau	2,719	-	2,719	2,039
Prosiectau a gweithgareddau – Swyddog Prosiect Hiraethog	750	-	750	-
Prosiectau a gweithgareddau – Lluosi	3,657	-	3,657	-
Prosiectau a gweithgareddau – Dysgwyr	-	-	-	520
Prosiectau a gweithgareddau – Cronfa Allweddol Sir Ddinbych	5,376	-	5,376	-
Gwaith PR ar gyfer prosiect gwirfoddolwyr	-	-	-	800
	124,380	-	124,380	95,722

8 Gwariant ar weithgareddau elusennol (parhad)

	Cronfeydd Anghyfynedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Costau cefnogi				
Cyflogau	10,340	-	10,340	10,038
Yswiriant gwladol	799	-	799	758
Costau pensiwn staff	724	-	724	399
Rhent	239	-	239	125
Yswiriant	764	-	764	763
Prydlesi gweithredol – offer swyddfa	24	-	24	200
Trydan	13	-	13	-
Glanhau	392	-	392	486
Cynnal a chadw	56	-	56	82
Argraffu, post a phapur	91	-	91	161
Marchnata a hysbysebu	63	-	63	66
Teleffon	50	-	50	57
Costau cyfrifiadur	187	-	187	105
Costau cyfieithu	277	-	277	106
Costau proffesiynol	-	-	-	2,024
Teithio a lluniaeth	528	-	528	202
Costau cyfrifo	2,412	-	2,412	2,228
Costau banc	21	-	21	21
Mân gostau	164	-	164	341
Tanysgrifiadau	183	-	183	137
Dibrisiant asedau cyffyrddadwy	210	-	210	116
(Elw)/Colled ar waredu	8	-	8	88
Llog ar dreth	9	-	9	-
	17,554	-	17,554	18,503
Cyfanswm gwariant ar weithgareddau elusennol	141,934	-	141,934	114,225

9 Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl math y gronfa

	Cronfeydd Anghyfyng-edig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cronfeydd Anghyfyng-edig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2024 £
Gwariant elusennol	124,380	-	124,380	95,722	-	95,722
Costau cefnogi	17,554	-	17,554	18,503	-	18,503
	141,934	-	141,934	114,225	-	114,225

10 Gwariant elusennol yn ôl gweithgareddau

	Gweithgareddau Uniongyrchol	Costau Cefnogi	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£	£
Gweithgareddau elusennol cyffredin	124,380	13,733	138,113	109,092
Gweithgareddau elusennol penodol	-	-	-	-
Costau llywodraethol	-	3,821	3,821	5,133
	124,380	17,554	141,934	114,225

11 Dadansoddiad o gostau cefnogi

	Costau Gweithgareddau Hybu'r iaith Gymraeg	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	£	£	£
Costau staff	11,863	11,863	11,195
Costau eiddo	274	274	286
Costau swyddfa gyffredinol	1,596	1,596	1,889
Costau llywodraethu	3,821	3,821	5,133
	17,554	17,554	18,503

12 Gwariant / Incwm Net

Mae Gwariant net wedi ei ddatgan ar ôl codi:	£
Dibrisiant	959

13 Taliadau a Budd-daliadau'r Ymddiriedolwyr

Talwyd cydnabyddiaeth i un o'r ymddiriedolwyr am ei gwaith yn cysylledig ar prosiect Lluosi ar sail hunan gyflogaeth yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 (gweler nodyn 21). Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiant eraill i'r ymddiriedolwyr eraill ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 (2024 - £ Dim). Mae'r elusen yn ystyried mai ei phersonél rheoli allweddol ydy'r ymddiriedolwyr a'r prif swyddog. Cyfanswm buddiant cyflogaeth y personél rheoli allweddol, yn cynnwys cyfraniadau pensiwn, oedd £36,527 (2024 - £35,473).

Treuliau'r ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 (2024 - £ Dim).

14 Costau staff

	2025	2024
	£	£
Cyflogau	83,753	76,823
Yswiriant gwladol	7,539	6,806
Cyfraniadau pensiwn	5,200	5,528
Lwfans cyflogwr	(5,000)	(5,000)
	£91,492	£84,157

Mae'r elusen yn cyflogi 2 aelod o staff llawn amser ac 2 aelod o staff rhan-amser ar gyfartaledd (2024 - 2 amser llawn ac 2 rhan amser). Ni enillodd unrhyw aelod o staff fwy na £60,000 y flwyddyn (2024: Dim). Mae'r elusen yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig mewn perthynas â'r staff. Mae rheolwyr annibynnol yn dal y cynllun a'i asedau. Mae'r tâl pensiwn yn cynrychioli cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cwmni a'u cyfanswm yw £5,200 (2024 - £5,528). Cyfraniadau pensiwn sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn oedd £dim (2024: £dim).

15 Tâl yr Arolygwyr Annibynnol

Roedd tâl yr arholwr annibynnol yn gyfystyr â ffi cyfrifo ac arholi o £1,981 (2024 - £1,800) a gwaith cyflogres o £431 (2024 - £428).

16 Asedau cyffyrddadwy sefydlog

	Dodrefn	Offer Swyddfa	Cyfanswm
Cost	£	£	£
Ar 1 Ebrill 2024	673	7,647	8,320
Ychwanegiadau	-	3,930	3,930
Gwaredu	(357)	(610)	(967)
Ar 31 Mawrth 2025	316	10,967	11,283
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2024	665	4,862	5,527
Dibrisiant am y cyfnod	2	1,679	1,681
Dileu wrth waredu	(354)	(605)	(959)
Ar 31 Mawrth 2025	313	5,936	6,249
Gwerth llyfr net			
Ar 31 Mawrth 2025	£3	£5,031	£5,034
Ar 31 Mawrth 2024	£8	£2,785	£2,793

17 Dyledwyr – yn ddyledus o fewn y flwyddyn

	2025	2024
	£	£
Dyledwr eraill	355	943
	355	943

18 Credydwyr - yn ddyledus o fewn y flwyddyn

	2025	2024
	£	£
Credydwyr masnachol	-	-
Trethi a nawdd cymdeithasol	-	-
Credydwyr eraill	2,143	1,967
	2,143	1,967

19 Dadansoddiad o gronfeydd elusennol

	Ar 31 Mawrth 2024	Incwm	Gwariant	Trosglwy-ddiadau	Ar 31 Mawrth 2025
	£	£	£	£	£
Cronfeydd cyfyngedig	-	-	-	-	-
Cronfeydd anghyfyngedig	53,816	143,482	(141,934)	-	55,364
Cyfanswm cronfeydd	**£53,816**	**£143,482**	**£(141,934)**	**£-**	**£55,364**

20 Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

	Asedau sefydlog cyffyrddadwy	Asedau Cyfredol net	Rhwymedig-aethau tymor hir	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cronfeydd cyfyngedig	-	-	-	-
Cronfeydd anghyfyngedig	5,034	50,330	-	55,364
	£5,034	**£50,330**	**£ -**	**£55,364**

21 Trafodion gyda ymddiriedolwyr neu bersonau cysylltiedig neu debyg

Mae'r ymddiriedolwyr yn rhoi o'u hamser yn gwbl wirfoddol i gyfarfod, rheoli a chynnal gweithgaredd yr elusen, heb unrhyw dâl neu gydnabyddiaeth yn uniongyrchol nag yn anuniongyrchol o gronfa'r elusen am wneud hynny.

Yr unig eithriad eleni yw taliad i un ymddiriedolwr am ei gwaith ar y prosiect lluosi. Gwneir hynny ar sail hunan gyflogaeth ac ar yr un telerau yn union â phobl eraill nad ydynt yn Ymddiriedolwyr.

1. Talwyd yr Ymddiriedolwyr canlynol am waith gyda'r prosiect lluosi:

B Cartwright	£1,300

22 Ymrwymiadau ariannol arall

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan y cwmni ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol ni chaiff eu diddymu, dros weddill tymor y prydlesi yma o £dim (2024 - £dim).

MENTER IAITH SIR DDINBYCH

England & Wales - Charity number 1120223

Accounts

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2023 - 2024

Menter Iaith Sir Ddinbych













Elusen Gofrestredig: 1120223

Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant: 6204415

SAFON ELUSEN DDIBYNADWY
LEFEL 1
NCVO

CYNNWYS:

Adroddiad y Cadeirydd	3
Beth yw Menter Iaith?	4
Menter Iaith Sir Ddinbych	5
Cyfarwyddwyr 2023-2024	6
Staff y Fenter 2023-2024	6
Yr ardal a wasanaethir	7
Nodau ac Amcanion Menter Iaith Sir Ddinbych	8
Ein llwyddiannau yn 2023-2024	9 – 15
Gweledigaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf	16
Datblygu a Chryfhau'r Fenter	16
Diolchiadau	16
Cysylltu	17
Noddwyr a phartneriaid	18

ADRODDIAD Y CADEIRYDD



Mae'n ymddangos mai'r unig beth sydd yn GYSON yn ein bywydau ar hyn o bryd yw NEWID. Mae'r byd o'n cwmpas yn newid mewn sawl ffordd, wedi'i ysgogi gan dechnoleg, globaleiddio, sifftiau demograffig, cynnydd cymdeithasol a newid amgylcheddol. Yn ein gwlad fach hardd rydym yn falch iawn o weld un peth, o leiaf, yn aros sef y nod Cenedlaethol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd yn cyflwyno Bil y Gymraeg ac Addysg yng Ngorffennaf eleni.

Gellir dadlau fod newidiadau yn dod a chyfleoedd a buddion newydd, ond maent hefyd yn creu heriau a risgiau sy'n ymofyn lefelau uwch o arweinyddiaeth a chydweithio. Diolchwn felly am y balchder a'r ewyllys da sydd yn ein Sir tuag at y Gymraeg ac yn arbennig felly'r ymdrech ddiflino gan Fenter Iaith Sir Ddinbych dan arweiniad diwyd ein Prif Swyddog, Ruth Williams. Diolchwn hefyd i'w chydweithwyr, Iorwen Jones a Gwion Tomos Jones, a phawb arall ddaw atynt yn achlysurol dan nawdd gwahanol grantiau neu'n wirfoddol, yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor ei hun hefyd sy'n cynnig cefnogaeth a chyngor pan mae'r staff eu hangen. Dim ond drwy gydweithio fel hyn y daw llwyddiant.

Mae'r profiadau a'r gefnogaeth y mae'r Fenter yn ei ddarparu a'i gynnig ar draws y Sir a thu draw iddi yn ysbrydoliaeth i ni gyd gyda'r Adroddiad Blynyddol hwn yn tystio i ehangder, amrywiaeth, arloesedd ac ansawdd y gwasanaeth hwnnw. Anodd yw credu sut y gall tîm o dri gyflawni cymaint â hynny heb gynnydd yn yr arian a ddaw o du'r llywodraeth unwaith eto eleni.

Wrth lywio ffordd drwy newid mae'n bwysig dathlu llwyddiannau. Llongyfarchiadau calonnog felly i holl staff a phwyllgor ar ddyfarniad marc safon Elusen Ddibynadwy am yr ail waith. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb ymrwymiad ac ymroddiad pob un i'r Fenter.

Yng nghanol yr holl newid mae'n bwysig ein bod hefyd yn edrych i'r dyfodol. Mae cyfnod hynod gyffrous wrth droed wrth i'r Fenter fod yn wynebu ail leoli eu swyddfa i'r Farchnad Fenyn yng nghanol tref Dinbych. Rwy'n sicr y bydd delwedd wahanol iawn i'r Fenter erbyn yr adeg yma flwyddyn nesaf fydd yn gweddu yn well ein byd heddiw, ac yn llawer mwy hwylus a chyfleus i bawb.

Fel y daw fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd y Bwrdd Rheoli i ben rhaid dweud ei bod yn fraint ac yn anrhydedd i fod yn rhan o fudiad mor weithgar a llwyddiannus â Menter Iaith Sir Ddinbych. Hoffwn ddymuno yn dda i chi ar gyfer 2024-25

Bethan Cartwright, Cadeirydd
Hydref 2024

Beth yw Menter Iaith?

What's a Menter Iaith?



Mae 22 Menter yn gweithio yn ein cymunedau dros Gymru

There are 22 Welsh language enterprises working in Wales



yn cefnogi dros 160,000 o bobl o bob oed

supporting over 160,000 people of all ages



i gynyddu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau.

to increase and strengthen the use of Welsh in our communities.



Yn trefnu gwyliau, clybiau gofal, sesiynau iaith a mwy -

Organising festivals, childcare, language sessions and more -



mae'r fenter yn siop-un-stop ar gyfer yr iaith,

Menter Iaith is a one-stop-shop for the language,



yn ein helpu i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.

helping us live, learn and enjoy in Welsh



Mae'r Mentrau Iaith i bawb.

Mentrau Iaith is for everyone.

MENTRAU IAITH
MENTRAUIAITH.CYMRU

I ddarganfod mwy ewch i **mentrauiaith.cymru**

To find out more go to **mentrauiaith.cymru**


CYMRAEG

MENTER IAITH SIR DDINBYCH

Sefydlwyd Menter Iaith Sir Ddinbych ym mis Hydref 2003 pan esblygodd o'r hen Fenter Iaith Dinbych-Conwy a oedd wedi bodoli ers 1998.

Mae'r Fenter yn elusen gofrestredig ers 11eg Tachwedd 2004 ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant ers 5ed Ebrill 2007. Mae gan y Fenter fwrdd o gyfarwyddwyr profiadol, gweithgar a chefnogol iawn.

Strwythur Menter Iaith Sir Ddinbych 2023-2024



CYFARWYDDWYR / YMDDIRIEDOLWYR 2023-2024

	Enw:	Cynrychioli	Etholwyd
Cadeirydd	Bethan Cartwright	Unigolyn	11/10/2017
Is–Gadeirydd	-	-	-
Trysorydd	Owain Gwyn Morris	Unigolyn	20/10/2011
Ysgrifennydd	Anna Lloyd Edwards	Unigolyn	16/10/2019
	Gwenan Prysor	Unigolyn	21/10/2015
	Arwel Roberts	Unigolyn	24/04/2014
	Emrys Wynne	Unigolyn	03/10/2012
	Menna Jones	Unigolyn	16/01/2019
	Catrin Eynon	Unigolyn	21/10/2021
	Lowri Ellis	Unigolyn	21/10/2021
	Dyfan Philips	Unigolyn	18/10/2023

STAFF 2023-2024

Prif Swyddog: Ruth Williams
Mae Ruth wedi gweithio i'r Fenter ers Medi 2013. Yn llawn amser, mae hi'n rheoli'r Fenter o ddydd i ddydd, yn gyfrifol am faterion strategol, marchnata a chyfathrebu. Mae hi hefyd yn gyfrifol am ambell i weithgaredd cymunedol.



Swyddog Cyllid a Busnes: Iorwen Jones
Mae Iorwen wedi gweithio i'r Fenter ers Ebrill 2004. Yn gweithio 4 diwrnod yr wythnos, mae hi'n gyfrifol am weinyddiaeth a chyllid y Fenter ac yn cefnogi peth o waith cymunedol y Fenter.

Swyddog Datblygu Cymunedol: Gwion Tomos-Jones
Mae Gwion wedi gweithio i'r Fenter, yn llawn amser, ers Hydref 2013. Mae prif feysydd gwaith Gwion yn ymwneud â chyfleoedd i blant, pobl ifanc a theuluoedd.




Swyddog Prosiect y Glannau (rhan amser): Eryl Prys Jones
Mae Eryl yn gweithio tridiau'r wythnos ar brosiect Y Glannau, sy'n weithredol ar hyd ardal glannau siroedd Conwy a Dinbych, o Brestatyn i Benmaenmawr. Ariennir y prosiect trwy gronfeydd cymunedol ffermydd gwynt Gwynt y Môr a Rhyl Flats. Cyflogir Eryl trwy gytundeb â Menter Iaith Conwy, ac mae'n gweithio diwrnod a hanner yr wythnos yn cefnogi grwpiau yn Sir Ddinbych.

Swyddog achlysurol: Gwenno Williams
Fe gychwynnodd Gwenno hefo ni trwy gynllun gwirfoddoli a phrofiad gwaith.
Mae hi wedi bod yn cefnogi ambell gweithgaredd i blant a theuluoedd hefo ni wedyn ar gytundeb achlysurol. (lluniau o Gwenno nes mlaen)

YR ARDAL A WASANAETHIR GAN Y FENTER

Mae ychydig dros 93,000 o bobl dros 3 oed yn byw yn Sir Ddinbych, ac mae 22.5% o'r rheini yn gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021. Mae hyn yn cymharu â 24.6% yng Nghyfrifiad 2011. Mae hyn o ganlyniad i ostyngiad o 1,300 yn niferoedd y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg, a chynnydd yng nghyfanswm y boblogaeth gyffredinol dros yr un cyfnod.

Drwy'r sir i gyd, cafodd 58% o'r boblogaeth eu geni yng Nghymru, ac o Loegr mae'r mwyafrif llethol o'r gweddill yn hanu. O'r rhai a aned yng Nghymru, mae ychydig dros eu traean (33.8%) yn gallu siarad Cymraeg.



Mae hanner poblogaeth y sir yn byw yn nhrefi Prestatyn a'r Rhyl, a dyma ran fwyaf Seisnig y sir, gyda'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yn 13.6% ar gyfartaledd rhyngddynt. Ychydig dros hanner y boblogaeth (53.3%) a aned yng Nghymru, ac mae'n llai na hanner mewn sawl ward.

Mae ychydig dros 11,000 o bobl yn byw yn y pentrefi, trefi a'r maestrefi cyfagos – Rhuddlan, Bodelwyddan, Dyserth a dinas Llanelwy. Mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg ychydig yn uwch yma – 18.5%.

Yn gyffredinol mae'r canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi wrth symud i fyny Dyffryn Clwyd, gyda rhwng tua chwarter a thraean yn gallu siarad Cymraeg yn mhentrefi dwyreiniol a gwaelod y dyffryn. Y ddwy brif dref yw Dinbych, lle mae 33% yn siarad Cymraeg, a Rhuthun gyda chanran o 37.8%

Rhan Gymreiciaf y sir yw de-orllewin Dyffryn Clwyd a Edeirnion, lle mae dros 40% yn gallu siarad Cymraeg ar gyfartaledd, gan godi i dros 50% mewn pum cymuned. Cynwyd yw'r gymuned fwyaf Cymraeg gyda 58.4% o'r boblogaeth yn gallu siarad yr iaith, a'r unig gymunedau eraill sydd â mymryn dros hanner yn gallu siarad Cymraeg yw Gwyddelwern, Betws Gwerfyl Goch a Llandrillo yng nghyffiniau Corwen, a Llanrhaeadr yn Nyffryn Clwyd.

Mae llawer o'r ardaloedd hyn yn ffinio at ardaloedd cyfagos yn siroedd Conwy a Gwynedd, lle mae dros ddau draean o'r boblogaeth yn gallu sairad Cymraeg.

Yn olaf, mae'r canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg yn isel – tua 20 y cant ar gyfartaledd – yn nwyrain y sir, sef Llangollen a chymunedau cyfagos Llantysilio, Llandegla a Llanarmon yn Iâl.

Uchod: Map yn dangos cymunedau sir Ddinbych lle mae 20% a mwy yn gallu siarad Cymraeg

NODAU AC AMCANION

Prif nodau hir dymor y Fenter yw:

1. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn Sir Ddinbych.

2. Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-Gymraeg ddysgu'r iaith

3. Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.

4. Dylanwadu ar yr ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog neu Gymraeg.

Amcanion

i) Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

ii) Annog y di-Gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

iii) Cynnal digwyddiadau newydd naill a'i yn annibynnol neu trwy gydweithio mewn partneriaeth ag eraill
- i bontio rhwng ysgol a chymdeithas.
- i ategu at waith y ddarpariaeth Cymraeg i oedolion.
- i gyfoethogi a bywiocáu bywyd Cymraeg yn gyffredinol.

iv) Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes yn Gymraeg.

v) Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

vi) Hyrwyddo trosglwyddiad o'r Gymraeg o fewn y teulu.

Safbwyntiau am y Gymraeg, y gymuned a'r economi leol

Gosodwyd safbwyntiau'r rhwydwaith o Fentrau Iaith am y Gymraeg, y gymuned a'r economi leol mewn maniffesto ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2021. Darllenwch y maniffesto ar wefan Mentrau Iaith Cymru.

Ein Llwyddiannau yn ystod 2023-24

Mae'r flwyddyn hon wedi gweld twf yn gyffredinol o ran ein gweithgareddau a'n heffaith. Dyma rai o'n llwyddiannau mwyaf nodedig:

1. **Rhaglenni Cymunedol:**
   Rydym wedi cynnal nifer o raglenni cymunedol yn cefnogi teuluoedd a phlant, gan ddarparu adnoddau a chefnogaeth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu bywydau.
2. **Gwirfoddolwyr:**
   Rydym wedi croesawu 15 o wirfoddolwyr newydd i'r tîm eleni, gan gryfhau ein gallu i gyrraedd hyd yn oed mwy o bobl. Ar ben hyn mae criwiau o wirfoddolwyr wedi cael eu cefnogi i ddatblygu a chynnal gweithgareddau Cymraeg ym Mhrestatyn a Rhuddlan.
3. **Partneriaethau:**
   Drwy ein partneriaethau newydd gyda sefydliadau lleol a busnesau, rydym wedi gallu estyn ein gwaith a darparu cyngor, cefnogaeth a gweithgareddau i mwy o bobl ar draws y sir.

Yn unol ag amodau'r grant craidd gan Lywodraeth Cymru, roedd ein targedau canolbwyntio ar dri phrif faes a rheini'n deillio o Thema 2 (***Defnydd*** o'r Gymraeg) rhaglen waith Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg

1. **Plant a Phobl Ifanc**
2. **Teuluoedd**
3. **Y Gymuned**

O dan y penawdau hyn buom yn gweithio tuag at:

- Mwy o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol a hyderus tu allan i oriau addysg

- Codi'r lefel o ymwybyddiaeth am y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg/Cymreig a chynyddu'r nifer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

I ddilyn, mae detholiad o'r math o waith roedd y Fenter yn ei wneud rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Blas yn unig sydd yma. Ceir darlun mwy manwl a'r cyfle i weld lluniau ac ambell glip fideo o'r gweithgareddau ar ein gwefan ac ar ein tudalennau Facebook , X (Twitter) ac Instagram.

Roedd y gwaith yn cynnwys :

i. Gweithgareddau i blant a phobl ifanc a theuluoedd
ii. Gweithgareddau cymunedol
iii. Cefnogi grwpiau cymunedol / gwirfoddol
iv. Cefnogi ymgyrchoedd y Llywodraeth
v. Fforwm Iaith – parhau i gydweithio a chynllunio gyda phartneriaid
vi. Cefnogi a chydweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Cymraeg mewn addysg
vii. Cyfathrebu â'r cyhoedd
viii. Cefnogi busnesau

i. Gweithgareddau i blant, pobl ifanc a theuluoedd

Trefnwyd **79 o weithgareddau i blant a phobl ifanc**, gyda o leiaf 1650 o blant 1-10 oed yn cymryd rhan ac o leiaf 900 o bobl ifanc 11-25 oed yn cymryd rhan ynddynt.

Cafwyd gweithgareddau yn defnyddio Lego a Minecraft ar thema hanes lleol eto, rhain yn parhau i fod yn boblogaidd ac yn safonol, ac yn cynnig lle i ddatblygu ymhellach.







Creu fideos yng Ngŵyl Fwyd Llangollen



Trefnwyd **12 gweithgaredd** i deuluoedd gydol y flwyddyn gyda **746 o blant** a **441 o rieni/oedolion** yn cymryd rhan a llawer mwy yn derbyn gwybodaeth am fanteision y Gymraeg i'w plant trwy dulliau eraill yn cynnwys ein gwaith i dargedu rheini ar y rhwydweithiau cymdeithasol**.**









ii. Gweithgareddau cymunedol

Cynhaliwyd **44 o weithgareddau cymunedol** yn ystod y flwyddyn. Rydym yn amcangyfrif fod dros 1,194 o oedolion wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. (Hyn heb gyfri'r niferoedd lu a oedd wedi mynychu gweithgareddau eraill a drefnwyd gan grwpiau a gefnogwyd gennym e.e. Gŵyl Rhuthun)



Darlith am Robert Everett gan Dr Jerry Hunter yn ystod Gŵyl Ganol Haf Dinbych



Cefnogi Dysgwyr Cymraeg

Trwy gydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg a Mentrau Iaith Cymru buom yn cynllunio a darparu teithiau tywysedig Cymraeg i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg o bob lefel.

Mae cyfres Paned a Sgwrs i ddysgwyr Cymraeg wedi cael dipyn o fuddsoddiad amser yn ystod y flwyddyn hon, er mwyn sefydlu gweithgaredd i bontio dysgwyr a siaradwyr rhugl mewn cymunedau ledled y sir. Fe gynhaliwyd 28 o sesiynau yn ystod y flwyddyn mewn 8 lleoliad gwahanol



Dysgwyr yn ymweld â Phont y Tŵr Mehefin 2023



Mwynhau'r Gymraeg



iii. Cefnogi grwpiau cymunedol / gwirfoddol

Rydym wedi parhau i gefnogi grwpiau gwirfoddol megis Grŵp Amgueddfa Dinbych, Theatr Twm o'r Nant, Prosiect y Farchnad Fenyn, Gŵyl Rhuthun, Partneriaeth De Sir Ddinbych, Cymdeithas Lenyddol y Glannau, Cymdeithas Gymraeg Dinbych, Menter Gymraeg Rhuddlan, Yr Hen Lŷs Rhuthun, Gŵyl Rhuthun, Pwyllgor Dathlu Dydd Owain Glyndŵr a Gŵyl Ganol Haf Dinbych a sawl grŵp / elusen arall wedi cael cefnogaeth gennym o ran cyfieithu a hyrwyddo digwyddiadau.







Cefnogwyd pwyllgor gwirfoddol Theatr Twm o'r Nant i gynnal 7 digwyddiadau Cymraeg a chefnogwyd Menter Gymraeg Rhuddlan i gynnal 5 gweithgaredd cymdeithasol a stondin yng Ngwledd Rhuddlan.

Sefydlwyd bwyllgor newydd ym Mhrestatyn - Llais Prestatyn, a rhoddwyd cyngor a chefnogaeth i grwpiau o wirfoddolwyr sefydlu a chynnal Paned a Sgwrs i ddysgwyr yn Nhremeirchion a Dyserth.

iv. Cefnogi ymgyrchoedd y Llywodraeth

Parhawyd i rannu ac ail-drydar ymgyrchoedd ac ymgynhoriadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru ar dudalennau Facebook ac X Menter Iaith Sir Ddinbych.

v. Fforwm Iaith Sirol (Partner Iaith Sir Ddinbych)

Cydlynwyd ein fforwm iaith sirol yn chwarterol gyda chynrychiolaeth yn mynychu o'r Cyngor Sir, Merched y Wawr, CFfI Clwyd, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Popeth Cymraeg a Choleg Cambria, yn ogystal a ninnau. Mwy na dim, fforwm i rannu profiadau, blaenoriaethau ac adrodd ar heriau a chyfleoedd oeddynt, ond hefyd yn gyfle i drafod syniadau o ran cydweithio ar ambell beth, er engraifft presenoldeb yng Ngharnifal Dinbych i hyrwyddo'r Gymraeg.

vi. Cydweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a chefnogi Cymraeg mewn addysg

Parhawyd i gefnogi a chydweithio gyda Grŵp Strategol Cymraeg Mewn Addysg Sir Ddinbych. Bu i ni hefyd gynnal:

- sesiynau ymwybyddiaeth ac ymarfer i griw o athrawon cynradd ar gwrs sabothol

- hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngharnifal y Rhyl, Carnifal Dinbych a Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn y Rhyl



- Cydweithio ag Ysgol y Llys, Ysgol Dewi Sant, Ysgol Glan Clwyd a Rhieni Dros Addysg Gymraeg i gynnal Râs yr Iaith ar hyd promenade / llwybr arfordir y Rhyl - hyn yn dilyn cais i dynnu sylw at fanteision addysg cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y sir.

- Cynhaliwyd Cwis Dim Clem i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg y sir, a braf iawn oedd medru cyhoeddi mai ysgol o Sir Ddinbych enillodd y rownd genedlaethol wedi rowndiau lleol a rhanbarthol ledled Cymru.

- Clybiau Cymraeg amser cinio rheolaidd yn Ysgol Glan Clwyd, Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Brân - 50 sesiwn rhwng y dair ysgol ystod y flwyddyn.

- Un arall o uchafbwyntio'r cydweithio o fewn addysg oedd trefniadau Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn Ninbych, lle cafodd bron i 700 o blant a phobl ifanc o 11 ysgol leol gyfle i ddod allan o'u hysgolion i orymdeithio trwy Ddinbych.

vii. Cyfathrebu â'r Cyhoedd

Rhwydweithiau cymdeithasol
Gwelsom gynnydd da yn y nifer yn ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn hon, yn adlewyrchu ein cynnydd yn y defnydd o ddulliau digidol i gyrraedd pobl o bob oed a diddordeb.

Cyhoeddwyd o leiaf 600 eitem ar y gwahanol gyfrifon digidol dros y flwyddyn (hynny ddim yn cynnwys ail-drydariadau a rhannu gan sefydliadau eraill, er bod hi'n werth nodi bod hynny'n digwydd o leiaf 20 gwaith yr wythnos hefyd). Mae dadansoddiad o'r cyfnod ar facebook yn dangos bod y postiadau mwyaf poblogaidd wedi cyrraedd o dros 4,000 o linellau amser.

Diolch i gefnogaeth gan wirfoddolwr, sicrhawyd ein bod yn parhau i weld hanner tudalen yn Gymraeg yn y Denbighshire Free Press yn wythnosol, hyn yn cyfateb i 156 o eitemau.

Cyfrannwyd dros 25 o eitemau i bapurau bro ein hardal.

viii. Cefnogi Busnesau



Mae busnesau bach y sir yn parhau i groesawu ein cefnogaeth – fel arfer angen cyngor ar gyfieithu, ond weithiau syniadau am sut i gyrraedd mwy o farchnad Gymraeg a Chymreig.

Amcangyfrifwn i ni fod wedi delio â 120+ o fusnesau bach yn ystod y flwyddyn hon, yn arbennig trwy weithio mewn ffeiri megis Gŵyl Eirin Dinbych, Ffair Nadolig Dinbych a thrwy gynnal cystadleuaeth Ffenestri Dydd Gŵyl Dewi ym Mhrestatyn, Rhuddlan, Dinbych a Rhuthun.

HELO BLOD

GWELEDIGAETH AR GYFER Y FLWYDDYN NESAF

Wrth edrych ymlaen, rydym yn gobeithio ehangu ein gwaith mewn meysydd allweddol gan gynnwys:

- Chwilio am nawdd er mwyn datblygu rhagor o raglenni er budd cymunedau Cymraeg, siaradwyr Cymraeg rhugl, a'r rheini sy'n dysgu.
- Trwy gydweithio gyda mwy o bartneriaid, ehangu ein gwasanaethau, er mwyn bodloni'r galw am gyngor a chefnogaeth.
- Ymgysylltu â mwy o bartneriaid lleol i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach.

DATBLYGU A CHRYFHAU'R FENTER

SAFON ELUSEN DDIBYNADWY LEFEL 1 NCVO

Mae'r Fenter yn ymfalchïo yn y farc ansawdd Elusen Ddibynadwy a ddyfarnwyd i ni eto am 3 mlynedd ym mis Medi 2023.

O ganlyniad i rai o'r blaenoriaethau a benderfynwyd arnynt yn ystod y broses dyfarnu, aethom ati i ymgeisio am nawdd trwy'r Cyngor Gwirfoddol i alluogi i wella capasiti yn ystod 2024. Cafwyd llwyddiant gyda'r cais ar ddiwedd 2023, a ganiataodd i ni foderneiddio ein system taliadau trwy ddefnydd o ddarllenydd taliadau, a chychwyn ar waith PR i amlygu pwysigrwydd a manteision gwirfoddoli.

DIOLCH

Diolch i holl rieni, plant a phobl ifanc am droi atom yn y Fenter Iaith drwy gydol y flwyddyn i chwilio am gefnogaeth, gweithgareddau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.



Rydym yn falch o fod wedi parhau i wasanaethu trigolion Sir Ddinbych, drwy gynnig cymorth o ran eu hanghenion ieithyddol, ac yn falch o fod wedi dwyn perswâd ar eraill o ran rhoi cynnig ar ddefnyddio'r Gymraeg, boed fel siaradwyr Cymraeg mamiaith, ail-iaith neu ddysgwyr, grwpiau cymunedol neu fusnesau.

Diolchwn hefyd i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser yn ystod y cyfnod hwn, i helpu llywio gwaith y Fenter, neu i'n cefnogi wrth gynnal gweithgareddau neu rannu negeseuon.

Diolchwn i'w noddwyr a'n partneriaid am eu cefnogaeth a chydweithrediad yn ystod 2023-2024

Cysylltwch â ni

I gael mwy o wybodaeth am ein gwaith neu os hoffech ymuno â ni fel gwirfoddolwr, cysylltwch â ni:

Menter Iaith Sir Ddinbych
6 Heigad
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3LE

✆ 01745 812822

E-bost: menter@MISirDdinbych.cymru

Gwefan: www.misirddinbych.cymru

 Menter Iaith Sir Ddinbych  @MIDinbych  @cymraeg_sirddinbych

Hoffai Menter Iaith Sir Ddinbych ddiolch i'w noddwyr am eu cymorth yn ystod 2023-2024

Diolch hefyd i swyddogion a phwyllgor Mentrau Iaith Cymru ac i rwydwaith y Mentrau Iaith am eu cefnogaeth a chydweithrediad gwerthfawr gydol y flwyddyn

Rhif cofrestredig y cwmni: 6204415
Rhif yr elusen: 1120223

Menter Iaith Sir Ddinbych

Cwmni cyfyngedig drwy warant
heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Datganiadau Ariannol
Am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2024
Sydd Wedi'u Paratoi Heb Archwiliad Ariannol.

Hoffai Menter Iaith Sir Ddinbych ddiolch i'w noddwyr am eu cymorth yn ystod 2023-2024

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ariannwyd gan Gwynt y Môr
Funded by Gwynt y Môr

DVSC CGGSDd
Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Creu Cymunedau Cryf drwy Weithredu Gwirfoddol
Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through voluntary action

Partneriaeth Gymundedol De Sir Ddinbych
South Denbighshire Community Partnership

Cyngor Tref Prestatyn

Prestatyn Town Council

Cyngor Tref Rhuddlan Town Council

CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Cyngor Tref Dinbych Denbigh Town Council

Gŵyl Ganol Haf Dinbych Denbigh Midsummer Festival

Noson Allan Night Out

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Summer of Fun Haf o Hwyl

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

Popeth Cymraeg

Urdd

Mentrau Iaith Cymru

Diolch hefyd i swyddogion a phwyllgor Mentrau Iaith Cymru am eu cefnogaeth a chydweithrediad gwerthfawr gydol y flwyddyn.

MENTRAU IAITH

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Cynnwys

	Tudalen
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1 - 5
Adroddiad yr archiliwr annibynnol	6
Datganiad o weithgareddau ariannol	7
Mantolen	8
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	9 – 18

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

CYFEIRNOD A MANYLION GWEINYDDOL.

Enw'r elusen gofrestredig	Menter Iaith Sir Ddinbych
Rhif cofrestru'r elusen:	1120223
Rhif cofrestredig y cwmni	6204415 (Cymru a Lloegr)
Swyddfa gofrestredig	6 Heigad DINBYCH Sir Ddinbych LL16 3LE

Cyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr
Y cyfarwyddyr ac ymddiriedolwyr a fu'n gwasanaethu'r elusen yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024 oedd:

Cadeirydd	Bethan Cartwright
Trysorydd	Owain Gwyn Morris
Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr eraill	Anna Lloyd Edwards Lowri Haf Ellis Catrin Eynon Alaw Griffith (ymddeol 18/10/2023) Dyfan Mael Phillips (ethol 18/10/2023) Menna Eluned Jones Gwenan Prysor Arwel Roberts Emrys Wynne
Ysgrifennydd	Anna Lloyd Edwards
Bancwyr	HSBC 17 Stryd y Dyffryn DINBYCH Sir Ddinbych LL16 3AG
Cyfrifwyr	Hill & Roberts Cyfrifwyr Siartredig 1 Tan y Castell RHUTHUN Sir Ddinbych LL15 1DQ

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Strwythur a rheolaeth

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn elusen gofrestredig, rhif 1120223, wedi ei sefydlu fel cwmni cyfyngedig, rhif 6204415. Mae cyfansoddiad y cwmni yn unol â chyfansoddiad elusennol a chwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol. Cofrestrwyd Menter Iaith Sir Ddinbych fel elusen gofrestredig, ac fel cwmni cyfyngedig, ar 5 Ebrill 2007.

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych (yr 'Elusen') yn cael ei gweinyddu a'i rheoli yn ôl y memorandwm ac erthyglau cymdeithasol y cwmni, a gan aelodau bwrdd y cyfarwyddwyr.

Mae aelodaeth yr Elusen yn agored i unigolion dros 18 oed ac unrhyw gymdeithas, gorfforedig neu anghorfforedig, sydd yn cytuno ag amcanion a gwaith yr Elusen, heb wahaniaethu rhwng pobl o safbwynt eu cyfoeth, gwleidyddiaeth, hil, crefydd, rhyw neu anabledd. Bydd i bob aelod-fudiad benodi unigolyn i'w gynrychioli ac i bleidleisio.

Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn unfrydol ac am reswm da, roi terfyn ar aelodaeth unrhyw unigolyn neu aelod-fudiad: cyhyd a bod gan yr unigolyn dan sylw neu gynrychiolydd penodedig yr aelod-fudiad dan sylw'r hawl i wrandawiad gan y Bwrdd y Cyfarwyddwyr, yng nghwmni ffrind, cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Bwrdd y cyfarwyddwyr

Rheolir busnes yr Elusen gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a fydd yn atebol i'r aelodau. Ni fydd gan unrhyw berson hawl i weithredu fel Cyfarwyddwr, boed hynny am, y tro cyntaf neu dro dilynol, hyd nes y bydd wedi llofnodi datganiad derbyn parodrwydd i weithredu er budd yr Elusen yn llyfr cofnodion Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

Bydd Bwrdd y cyfarwyddwyr yn cynnwys dim llai na 5 o gyfarwyddwyr a dim mwy na 14 o gyfarwyddwyr.

Gall y Cyfarwyddwyr ar unrhyw adeg gyfethol unrhyw berson i Fwrdd y Cyfarwyddwyr cyn belled na fydd mwy nag un rhan o dair o Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn gyfetholedig a chyn belled na ragorir ar yr uchafswm a benodir yn erthygl 39, ac na wneir rhagor na thri chyfetholiad o'r fath rhwng un Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r nesaf. Rhaid i bob person a gyfetholir fel hyn ymddiswyddo yn y Cyfarfod Blynyddol yn dilyn eu cyfetholiad, ond byddent yn gymwys i'w hailbenodi wedi hynny.

Ceir talu holl gostau teithio, gwesty a threuliau eraill rhesymol cyfarwyddwyr mewn perthynas â'u presenoldeb mewn cyfarfod Cyfarwyddwyr, pwyllgorau neu gyfarfod cyffredinol neu mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau, ond fel arall ni fyddant yn derbyn tal.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Nodau'r elusen

1. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn Sir Ddinbych.

2. Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-gymraeg ddysgu'r iaith

3. Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.

4. Dylanwadu ar yr ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog neu Gymraeg.

Amcanion yr elusen

i) Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

ii) Annog y di-gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

iii) Cynnal digwyddiadau newydd naill a'i yn annibynnol neu trwy gydweithio mewn partneriaeth ag eraill
- i bontio rhwng ysgol a chymdeithas.
- i ategu at waith y ddarpariaeth Cymraeg i oedolion.
- i gyfoethogi a bywiocáu bywyd Cymraeg yn gyffredinol.

iv) Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes yn Gymraeg.

v) Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

vi) Hyrwyddo trosglwyddiad o'r Gymraeg o fewn y teulu.

Darparu budd i'r cyhoedd

Wrth gynllunio ein gwaith am y flwyddyn, mae aelodau'r pwyllgor sy'n gyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau a'r budd i'r cyhoedd. Yn benodol, ceisiwn gynorthwyo a chefnogi'r gymuned yn ei chyfanrwydd o ran hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg gan bob oedran. Rydym yn gweithio ar draws y sir gyfan a darparwn gyfleoedd i bobl wella proffil y Gymraeg a dwyieithrwydd, drwy ddarparu cyngor, cymorth, prosiectau a gweithgareddau penodol. Ein corff ni yw'r unig un â'r brîff penodol i normaleiddio'r Gymraeg/dwyieithrwydd mewn bywyd teuluol a bywyd cyhoeddus ar draws sbectrwm oedran y sir. Gweithiwn ar y cyd gyda phartneriaid allweddol megis yr Urdd a Mudiad Meithrin a darparwyr statudol megis ysgolion a'r Cyngor Sir. Rydym yn gweithio gyda chyrff eraill sy'n ymwneud â darparu gwersi Cymraeg i oedolion hefyd gan gynorthwyo i ymestyn y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae ein deunyddiau cynnig cyngor a marchnata ar gael bob amser, ac mae'r Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr yn cytuno ar dargedau ar gyfer gwaith cymunedol yn flynyddol.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Adolygiad ariannol

Mae'r prif weithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhai i blant a phobl ifanc, mewn partneriaeth gyda grwpiau lleol eraill. Defnyddir yr holl incwm a dderbynnir i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, p'un ai ar y ffôn, drwy gyfrwng e-bost neu wyneb yn wyneb. Ceisiwn sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol, gan dargedu'r cyhoedd drwy gynnig cyngor am ddim a gweithgareddau neu weithdai celfyddydol, llenyddol, digidol a rhai sy'n addas i siaradwyr Cymraeg rhugl neu siaradwyr Cymraeg newydd.

Campau a gyflawnwyd

Am ddarlun mwy manwl o weithgareddau'r flwyddyn sy'n cyflawni nodau ac amcanion yr elusen ac yn rhoi budd i'r cyhoedd gweler Adroddiad Blynyddol yr elusen.

Perfformiad Ariannol yr Elusen

Mae cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 wedi codi o £123,456 i £124,902, sef cynydd o £1,446 (1.1%) ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r cyfradd llog wedi codi ac erbyn diwedd y flwyddyn derbyniwyd £380 o incwm buddsoddiad am y flwyddyn (2023 - £103). Mae cyfanswm yr adnoddau a dreuliwyd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 wedi gostwng o £120,350 i £114,225 sef gostyngiad o £6,125 (5.0%) ar y flwyddyn flaenorol. Cafwyd gwarged o £10,677 am y flwyddyn i gymharu â gwarged o £3,106 am y flwyddyn flaenorol. Mae mwy o fanylder i'w weld yn Adroddiad Blynyddol yr Elusen.

Polisi Cronfeydd

Mae'n rhan o bolisi'r Elusen i gadw cronfeydd anghyfyngedig sef y cronfeydd rhyddion, ar lefel sy'n hafal i tua 3 mis o dreuliau anghyfyngedig. Mae hyn yn caniatáu cronfa ddigonol i dalu costau rheoli, gweinyddu a chynnal yr Elusen.

Polisi Buddsoddiad

Yr amcan buddsoddiad yw diogelu'r buddsoddiadau cyfredol yn erbyn chwyddiant ac i gael incwm rhesymol yn ôl. Mae perfformiad y buddsoddiadau yn cael eu hadolygu ar sail gyson trwy eu cymharu gyda maincfesuriad addas.

Rheolaeth Risg

Gwnaed arolwg gan y Cyfarwyddwyr ym meysydd busnes a gweithredu'r Elusen a gallant gadarnhau y byddai'r Elusen mewn sefyllfa i liniaru unrhyw risg.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae'r Elusen yn parhau i weithio yn agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a phartneriaid eraill i hybu'r iaith Gymraeg drwy Sir Ddinbych gyfan. Mae'r Elusen hefyd yn parhau i ddatblygu presenoldeb ar y we a chyfryngau cymdeithasol drwy'r wefan a rhwydweithiau cymdeithasol, a hyn wedi dod yn bwysicach dros y blynyddoedd ddiwethaf wrth i batrymau cyfathrebu a chymdeithasu newid. Mae'r Elusen bellach wedi'i ddyfarnu'n Elusen Ddibynadwy gan yr NCVO am yr ail dro ym mis Medi 2023. Golyga hyn bod prosesau yn eu lle i roi sicrwydd i bartneriaid ac arianwyr a photensial i ddenu mwy o fuddsoddiad a gwaith mewn partneriaeth.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar Fenter Iaith Sir Ddinbych at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y DU (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn gofyn bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi safbwynt cywir a theg ar faterion y cwmni elusennol fel y mae pethau ac o'r ffynonellau sy'n dod i mewn a defnydd y ffynonellau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol dros y cyfnod hwnnw. Fel rhan o waith paratoi'r datganiadau ariannol, bydd gofyn i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson
- Dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen
- Beirniadu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn bwyllog
- Paratoi'r datganiadau ariannol yn seiliedig ar fusnes sydd ar fynd oni bai ei bod yn anaddas cymryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion ariannol digonol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, beth ydy sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac yn eu galluogi nhw i sicrhau fod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Cwmnïau 2006. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly hefyd dros gymryd camau rhesymol er mwyn rhwystro a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cafodd adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ei fabwysiadu ar 23 Hydref 2024 a'i arwyddo ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gan:

Llofnod *Bethan Cartwright*

Enw llawn **Bethan Cartwright**

Safle **Cadeirydd**

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CWMNI ELUSENNOL MENTER IAITH SIR DDINBYCH ('y Cwmni')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd
Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (a hefyd ei gyfarwyddwyr at ddibenion y gyfraith cwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archiliwad ariannol o gyfrifon y Cwmni o dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon eich elusen fel y cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol
Cwblheais fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu:

- bod cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer y Cwmni fel sy'n ofynnol gan adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; neu
- nid yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwy ar gyfer cyfrifon ac adroddiadau gan elusennau yn gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd: *R A Roberts* Dyddiad: 23 Hydref 2024

R A Roberts, BSc, FCA
Hill & Roberts Cyfrifwyr Siartredig
1 Tan y Castell
RHUTHUN
Sir Ddinbych
LL15 1DQ

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Datganiad o weithgareddau ariannol (yn cynnwys crynodeb o gyfrif incwm a gwariant) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

	Nodyn	2024 Cronfeydd Anghyfyngedig	2024 Cronfeydd Cyfygedig	2024 Cyfanswm Cronfeydd	2023 Cyfanswm Cronfeydd
		£	£	£	£
Incwm					
Incwm a gwaddoliadau					
Rhoddion a chymynroddion	3	96,376	-	96,376	100,127
Gweithgareddau elusennol	4	13,060	-	13,060	14,510
Gweithgareddau masnachu arall	5	10,086	-	10,086	3,716
Incwm arall	6	5,000	-	5,000	5,000
Buddsoddiant	7	380	-	380	103
Cyfanswm incwm		124,902	-	124,902	123,456
Gwariant					
Gwariant ar weithgareddau elusennol	8	114,225	-	114,225	120,350
Cyfanswm gwariant		114,225	-	114,225	120,350
Incwm / gwariant net	11	**10,677**	**-**	**10,677**	**3,106**
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd				**-**	**-**
Symudiad net yn y cronfeydd		**10,677**	**-**	**10,677**	**3,106**
Cyfanswm cronfeydd 01 Ebrill 2023		43,139	-	43,139	40,033
Cyfanswm cronfeydd 31 Mawrth 2024		**53,816**	**-**	**53,816**	**43,139**

Mae holl weithgareddau'r cwmni yn cael eu hystyried yn rhai parhaol.

Nid oedd gan y cwmni enillion na cholledion heblaw am y gwarged am y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 18 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol yma.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2024

	Nodyn	2024		2023	
		£	£	£	£
Asedau sefydlog					
Asedau cyffyrddadwy	16		2,793		2,484
Asedau cyfredol					
Dyledwyr	17	943		1,589	
Arian yn y banc		52,047		41,170	
Arian mewn llaw		-		63	
		52,990		42,822	
Credydwyr -yn daladwy o fewn blwyddyn	18	1,967		2,167	
Asedau cyfredol net			51,023		40,655
Asedau net			**£53,816**		**£43,139**
			£		£
Cronfeydd wrth gefn					
Cronfeydd anghyfyngedig	19		53,816		43,139
Cronfeydd cyfyngedig	19		-		-
Cyfanswm cronfeydd			**£53,816**		**£43,139**

Roedd gan y cwmni hawl i eithrio rhag archwilio'r datganiadau ariannol yn rhinwedd adran 477 o'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn berthnasol i gwmnïau bychan.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni gael archwiliad o'r datganiadau ariannol am y flwyddyn berthnasol yn unol ag adran 476;

Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu dyletswyddau i gydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf ynglŷn â chadw cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau ariannol.

Y mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi mewn cytundeb â'r ddarpariaeth arbennig adran XV o ddeddf Cwmnïau 2006 sydd yn berthnasol i gwmnïau bach ac yn unol â FRS 102 SORP.

Mabwysiadwyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd yr Cyfarwyddwyr ar 23 Hydref 2024 ac arwyddwyd ar eu rhan gan:

Llofnod: *Owain Gwyn Morris*

Owain Gwyn Morris
Trysorydd - Cyfarwyddwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 18 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol yma

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

1 Gwybodaeth Statudol

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn gwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gorffori yng Nghymru, yn y DU. Y swyddfa gofrestredig ydy 6 Heigad, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3LE.

Caiff y datganiadau ariannol eu cyflwyno mewn punnoedd sterling (£), arian gweithredu'r cwmni, a'i dalgrynnu at y bunt agosaf.

Mae'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol sydd wedi'u defnyddio wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn wedi'u gosod isod. Mae'r polisïau wedi'u defnyddio yn gyson gyda phob blwyddyn gaiff ei chyflwyno, oni bai y nodir yn wahanol.

2 Polisïau Cyfrifyddu

Sail paratoi'r datganiadau ariannol
Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sy'n endid budd cyhoeddus o dan FRS102, wedi'u paratoi yn unol â Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen (FRS102) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion Argymelledig sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adrodd Ariannol perthnasol y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (mewn grym 1 Ionawr 2019)', Safon Adrodd Ariannol 102 'Safon Adrodd Ariannol perthnasol y DU a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r confensiwn costau hanesyddol.

Incwm
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith bydd gan yr elusen hawl dros yr arian.

Incwm o weithgareddau elusennol
Mae incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm wedi'i dderbyn trwy gytundeb neu lle mae hawl dros arian grant yn dibynnu ar amodau perfformio penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod wrth i'r gwasanaethau cysylltiedig gael eu darparu ac wrth gaffael yr hawl, bydd modd mesur tebygrwydd faint gaiff ei dderbyn a'r swm ei hun gyda digon o ddibynadwyedd. Caiff incwm ei ohirio pan gaiff swm ei dderbyn cyn perfformio'r gwasanaeth neu ddigwyddiad y mae'n gysylltiedig ag o.

Incwm o fuddsoddiad
Caiff incwm o fuddsoddiad ei gydnabod pan gaiff ei derbyn.

Gwariant
Caiff dyledion eu cydnabod fel gwariant unwaith y bydd gorfodaeth ymarferol neu gyfreithiol sy'n ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, mae'n debyg y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd wrth ei dalu a bydd modd mesur swm yr orfodaeth yn ddibynadwy. Caiff gwariant ei ystyried ar sail croniadau ac mae wedi'i ddosbarthu o dan benawdau sy'n crynhoi'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw DAW nad oes modd ei hawlio yn ôl.

Mae ‘gwariant elusennol’ yn cynnwys y costau hynny mae'r elusen wedi'i wario wrth ddarparu ei gweithgareddau a'i gwasanaethau ar gyfer ei buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y mae modd eu dyrannu yn uniongyrchol tuag at weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

2 Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Gwariant (parhad)
'Costau cefnogi' ydy'r costau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gweithgaredd ond er hynny, tydyn nhw ddim yn cynhyrchu neu yn creu allbwn gweithgaredd yr elusen. Mae hyn yn cynnwys costau llywodraethol sef y costau hynny sy'n gysylltiedig gyda chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys y ffioedd a chostau cyfrifyddu sy'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen yn ogystal â rhan o'r cyflogau sy'n seiliedig ar fras amcan o'r amser a dreuliwyd ar yr adran hon.

Asedau sefydlog cyffyrddadwy
Mae asedau sefydlog wedi'u cofnodi trwy gostau i ddechrau.

Dibrisiad
Caiff dibrisiad ei gyfrifo er mwyn dileu cost ased, llai o'i werth sy'n weddill dros fywyd economaidd defnyddiol yr ased fel a ganlyn:

Offer swyddfa	- lleihau'r cyfanswm o 25%

Treth

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

Cyfrifyddu cronfeydd
Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'r elusen eu defnyddio, fel y gwêl yr ymddiriedolwyr yn ddoeth, at unrhyw ddiben sy'n ymwneud ag amcanion yr elusen.

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi'u derbyn yn amodol gan y rhoddwyr at y diben sydd wedi'i bwriadu ar eu cyfer.

Offerynnau ariannol
Does gan yr elusen ddim ond asedau ariannol a dyledion ariannol o natur sy'n cymhwyso fel offerynnau ariannol syml. Caiff offerynnau ariannol syml eu hadnabod yn gyntaf drwy werth trosglwyddo ac yna eu mesur trwy eu gwerth talu.

Dyledwyr
Caiff dyledwyr masnachu a dyledwyr eraill eu cydnabod trwy'r swm talu sy'n ddyledus ar ôl cynnig unrhyw ostyngiad masnachu.
Caiff taliadau o flaen llaw eu prisio ar y swm net a dalwyd o flaen llaw ar unrhyw ostyngiad dyledus.

Credydwyr
Caiff credydwyr eu cydnabod lle bo gan yr elusen orfodaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol fydd mwy na thebyg yn arwain at drosglwyddo cronfeydd at drydydd parti a bydd modd mesur neu amcangyfrif y swm sy'n ddyledus er mwyn talu'r orfodaeth yn ddibynadwy. Caiff credydwyr gan amlaf eu cydnabod trwy eu swm talu ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau masnachu sy'n ddyledus.

Costau pensiwn
Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun cyfraniad pensiwn diffiniedig. Caiff costau cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun pensiwn y cwmni elusennol eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y cyfnod perthnasol.

2 Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Costau pensiwn (parhad)
Mae'r cwmni elusennol yn gwneud cyfraniadau i gynlluniau pensiwn personol ar ran ei gyflogai. Caiff costau eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y cyfnod perthnasol.

3 Rhoddion a chymynrhoddion

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£	£	£	£
Grant Llywodraeth Cymru	81,583	-	81,583	85,603
Grant Cyngor Sir Ddinbych	14,763	-	14,763	14,524
Rhodd Cymdeithas Cymraeg Dinbych	30	-	30	-
	96,376	-	96,376	100,127

4 Gweithgareddau elusennol

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd 2024	Cyfanswm 2023
	£	£	£	£
Grant Grwp Cynefin	960	-	960	-
Grant DVSC	10,000	-	10,000	-
Grant Mentrau Iaith Cymru Haf o Hwyl	-	-	-	9,780
Grant Cyngor Sir Dinbych Haf o Hwyl	-	-	-	3,380
Grant Mentrau Iaith Cymru Dysgwyr	-	-	-	1,000
Grant Cyngor Tref Rhuddlan	1,650	-	1,650	-
Grant Cyngor Tref Prestatyn	250	-	250	350
Grant Cadwyn Clwyd	200	-	200	-
	13,060	-	13,060	14,510

5 Gweithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£	£	£	£
Gweithgareddau a phrosiectau	8,808	-	8,808	3,029
Incwm Arall	128	-	128	437
Prosiect y Glannau rhentu desg	750	-	750	250
Er cof am Richard Cowell	400	-	400	-
	10,086	-	10,086	3,716

6 Incwm Arall

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2024 £	Cyfanswm 2023 £
Lwfans Nawdd Cymdeithasol	5,000	-	5,000	5,000
	5,000	-	5,000	5,000

7 Incwm o fuddsoddiant

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2024 £	Cyfanswm 2023 £
Llog derbyniwyd	380	-	380	103
	380	-	380	103

8 Gwariant ar weithgareddau elusennol

	Cronfeydd Anghyfynedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2024 £	Cyfanswm 2023 £
Costau gweithgareddau elusennol cyffredin				
Cyflogau staff	66,785	-	66,785	65,532
Yswiriant gwladol	6,048	-	6,048	6,117
Costau pensiwn staff	5,129	-	5,129	4,530
Hyfforddiant	283	-	283	61
Costau gwasanaethau llawrydd	600	-	600	3,980
Rhent a hurio ystafelloedd	875	-	875	1,750
Prydlesi gweithredol – offer swyddfa	1,402	-	1,402	1,185
Teithio a Lluniaeth	2,295	-	2,295	1,848
Teleffon	399	-	399	399
Trydan	-	-	-	85
Argraffu, papur a phost	425	-	425	535
Costau Cyfrifiadur	662	-	662	754
Marchnata a hysbysebu	459	-	459	692
Costau banc	151	-	151	124
Tanysgrifiadau	957	-	957	1,095
Dibrisiant	816	-	816	725
Prosiectau a gweithgareddau - Cymuned	2,063	-	2,063	2,665
Prosiectau a gweithgareddau – Teulu	311	-	311	164
Prosiectau a gweithgareddau – Plant & Phobl Ifanc	2,703	-	2,703	1,753
Prosiectau a gweithgareddau – Swyddog gwynt y mor	2,039	-	2,039	-
Prosiectau a gweithgareddau – Bocs Trysor	-	-	-	1,014
Prosiectau a gweithgareddau – Dysgwyr	520	-	520	3
Prosiectau a gweithgareddau – DCC Haf o Hwyl	-	-	-	853
Prosiectau a gweithgareddau – MIC Haf o Hwyl	-	-	-	7,754
Gwaith PR ar gyfer prosiect gwirfoddolwyr	800	-	800	-
	95,722	-	95,722	103,618

8 Gwariant ar weithgareddau elusennol (parhad)

	Cronfeydd Anghyfynedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2024 £	Cyfanswm 2023 £
Costau cefnogi				
Cyflogau	10,038	-	10,038	9,818
Yswiriant gwladol	758	-	758	764
Costau pensiwn staff	399	-	399	687
Rhent	125	-	125	345
Yswiriant	763	-	763	715
Prydlesi gweithredol – offer swyddfa	200	-	200	169
Trydan	-	-	-	12
Glanhau	486	-	486	455
Cynnal a chadw	82	-	82	137
Argraffu, post a phapur	161	-	161	73
Marchnata a hysbysebu	66	-	66	99
Teleffon	57	-	57	57
Costau cyfrifiadur	105	-	105	108
Costau cyfieithu	106	-	106	319
Costau proffesiynol	2,024	-	2,024	-
Teithio a lluniaeth	202	-	202	114
Costau cyfrifo	2,228	-	2,228	2,112
Costau banc	21	-	21	18
Mân gostau	341	-	341	466
Tanysgrifiadau	137	-	137	156
Dibrisiant asedau cyffyrddadwy	116	-	116	104
(Elw)/Colled ar waredu	88	-	88	-
Llog ar dreth	-	-	-	4
	18,503	-	18,503	16,732
Cyfanswm gwariant ar weithgareddau elusennol	114,225	-	114,225	120,350

9 Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl math y gronfa

	Cronfeydd Anghyfyng-edig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2024 £	Cronfeydd Anghyfyng-edig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £
Gwariant elusennol	95,722	-	95,722	101,329	2,289	103,618
Costau cefnogi	18,503	-	18,503	16,732	-	16,732
	114,225	-	114,225	118,061	2,289	120,350

10 Gwariant elusennol yn ôl gweithgareddau

	Gweithgareddau Uniongyrchol	Costau Cefnogi	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£	£	£	£
Gweithgareddau elusennol cyffredin	95,722	13,370	109,092	115,698
Gweithgareddau elusennol penodol	-	-	-	2,289
Costau llywodraethol	-	5,133	5,133	2,363
	95,722	18,503	114,225	120,350

11 Dadansoddiad o gostau cefnogi

	Costau Gweithgareddau Hybu'r iaith Gymraeg	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£	£	£
Costau staff	11,195	11,195	11,269
Costau eiddo	286	286	241
Costau swyddfa gyffredinol	1,889	1,889	2,859
Costau llywodraethu	5,133	5,133	2,363
	18,503	18,503	16,732

12 Gwariant / Incwm Net

Mae Gwariant net wedi ei ddatgan ar ôl codi:	£
Dibrisiant	932

13 Taliadau a Budd-daliadau'r Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiant eraill i'r ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 (2023 - £ Dim). Mae'r elusen yn ystyried mai ei phersonél rheoli allweddol ydy'r ymddiriedolwyr a'r prif swyddog. Cyfanswm buddiant cyflogaeth y personél rheoli allweddol, yn cynnwys cyfraniadau pensiwn, oedd £35,473 (2023 - £34,544).

Treuliau'r ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 (2023 - £ Dim).

14 Costau staff

	2024	2023
	£	£
Cyflogau	76,823	75,350
Yswiriant gwladol	6,806	6,881
Cyfraniadau pensiwn	5,528	5,217
Lwfans cyflogwr	(5,000)	(5,000)
	£84,157	£82,448

Mae'r elusen yn cyflogi 2 aelod o staff llawn amser ac 2 aelod o staff rhan-amser (2023 - 2 amser llawn ac 1 rhan amser). Ni enillodd unrhyw aelod o staff fwy na £60,000 y flwyddyn (2023: Dim). Mae'r elusen yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig mewn perthynas â'r staff. Mae rheolwyr annibynnol yn dal y cynllun a'i asedau. Mae'r tâl pensiwn yn cynrychioli cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cwmni a'u cyfanswm yw £5,528 (2023 - £5,217). Cyfraniadau pensiwn sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn oedd £ dim (2023: £183). Bydd gordaliad cyfraniad pensiwn yn ystod y flwyddyn blaenorol, nid oes swm yn ddyledus yn ôl i'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn (2023: £264).

15 Tâl yr Arolygwyr Annibynnol

Roedd tâl yr arholwr annibynnol yn gyfystyr â ffi cyfrifo ac arholi o £1,800 (2023 - £1,766) a gwaith cyflogres o £428 (2023 - £346).

16 Asedau cyffyrddadwy sefydlog

	Dodrefn	Offer Swyddfa	Cyfanswm
Cost	£	£	£
Ar 1 Ebrill 2023	673	8,431	9,104
Ychwanegiadau	-	1,329	1,329
Gwaredu	-	(2,113)	(2,113)
Ar 31 Mawrth 2024	673	7,647	8,320
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2023	663	5,957	6,620
Dibrisiant am y cyfnod	2	930	932
Dileu wrth waredu	-	(2,025)	(2,025)
Ar 31 Mawrth 2024	665	4,862	5,527
Gwerth llyfr net			
Ar 31 Mawrth 2024	£8	£2,785	£2,793
Ar 31 Mawrth 2023	£10	£2,474	£2,484

17 Dyledwyr – yn ddyledus o fewn y flwyddyn

	2024	2023
	£	£
Dyledwr eraill	943	1,589
	943	1,589

18 Credydwyr - yn ddyledus o fewn y flwyddyn

	2024	2023
	£	£
Credydwyr masnachol	-	-
Trethi a nawdd cymdeithasol	-	-
Credydwyr eraill	1,967	2,167
	1,967	2,167

19 Dadansoddiad o gronfeydd elusennol

	Ar 31 Mawrth 2023	Incwm	Gwariant	Trosglwy-ddiadau	Ar 31 Mawrth 2023
	£	£	£	£	£
Cronfeydd cyfyngedig	-	-	-	-	-
Cronfeydd anghyfyngedig	43,139	124,902	(114,225)	-	53,816
Cyfanswm cronfeydd	**£43,139**	**£124,902**	**£(114,225)**	**£-**	**£53,816**

20 Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

	Asedau sefydlog cyffyrddadwy	Asedau Cyfredol net	Rhwymedig-aethau tymor hir	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cronfeydd cyfyngedig	-	-	-	-
Cronfeydd anghyfyngedig	2,793	51,023	-	53,816
	£2,793	**£51,023**	**£ -**	**£53,816**

21 Partïon perthynol

Ni fu unrhyw drafodion gyda phartïon perthynol yn ystod y flwyddyn.

22 Ymrwymiadau ariannol arall

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y cwmni ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol ni chaiff eu diddymu, dros weddill tymor y prydlesi yma o £dim (2023 - £113).

MENTER IAITH SIR DDINBYCH

England & Wales - Charity number 1120223

Accounts

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2022 - 2023

Menter Iaith Sir Ddinbych









Elusen Gofrestredig: 1120223

Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant: 6204415

MARC ELUSEN DDIBYNADWY
TRUSTED CHARITY MARK
LEFEL LEVEL 1
NCVO Dyfarnwyd: Awst 2020 Awarded: August 2020

CYNNWYS:

Adroddiad y Cadeirydd	3
Beth yw Menter Iaith?	4
Menter Iaith Sir Ddinbych	5
Cyfarwyddwyr 2022-2023	6
Staff y Fenter 2022-2023	6
Yr ardal a wasanaethir	7
Nodau ac Amcanion Menter Iaith Sir Ddinbych	8
Blas ar waith y Fenter 2022-2023	9 – 15
Datblygu a Chryfhau'r Fenter Diolchiadau	16

Menter Iaith Sir Ddinbych
6 Heigad
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3LE

✆ 01745 812822

E-bost: menter@MISirDdinbych.cymru

Gwefan: www.misirddinbych.cymru

Menter Iaith Sir Ddinbych @MIDinbych @cymraeg_sirddinbych

ADRODDIAD Y CADEIRYDD



Mae blwyddyn yn amser hir pan fyddwch yn ifanc ond byr iawn pan fyddwch yn heneiddio. Mae wedi bod yn bleser mawr i fod yn Gadeirydd ar y Fenter y flwyddyn hon.

Megis ddoe roeddem yn dathlu Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd Sir Ddinbych ac yn ymfalchïo yn ein treftadaeth a'r fenter yn ei chanol hi. Gweithgareddau wedi eu trefnu yn ddyheug gan ein staff ac roedd yn bleser ymuno pan oeddwn ar y pryd yn dechrau ar fy nghyfnod fel Cadeirydd Sir Ddinbych.

Cofier bod effaith yr haint yn dal yn llechu ar hyd y flwyddyn a dyna oedd a fydd y diolch pennaf sydd gan y pwyllgor tuag at ein staff dan arweinyddiaeth drylwyr Ruth ein bod wedi goresgyn effaith y Cofid . Mae'r haint wedi newid cymdeithas ac oherwydd wedi newid dulliau o weithredu'r Fenter.

Serch hynny mae'r un penderfyniad o weithio yn ddiflino gan Ruth, Iorwen a Gwion. Rhaid diolch iddynt o waelod calon. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau'r pwyllgor, y gwirfoddolwyr cydwybodol, diolch am eich cefnogaeth i'r staff .

Mae'r swyddfa yn un o'r mwyaf trefnus ac mae'r trefniadau o chwilio am gyllid ychwanegol yn wych. O Gorwen i Brestatyn does yr un lle wedi bod yn angof. Gwthio a chefnogi yn ddiflino fydd yn fy nghof am y flwyddyn.

Mae fy nghyfnod fel Cadeirydd yn dirwyn i ben, ond mae’r ddwy flynedd yn y gadair wedi bod yn rhai dymunol iawn. Braf yn ddiweddar oedd bod yn rhan o'r asesiad ar gyfer farc safon Elusen Ddibynadwy a cymaint oedd fy malchder fod y safonau wedi ei gwireddu a'i gwella.

Pob dymuniad da i'r Fenter yn y dyfodol.

Arwel Roberts
Cadeirydd
Hydref 2023

Beth yw Menter Iaith?

What's a Menter Iaith?



Mae 22 Menter yn gweithio yn ein cymunedau dros Gymru

There are 22 Welsh language enterprises working in Wales



yn cefnogi dros 160,000 o bobl o bob oed

supporting over 160,000 people of all ages



i gynyddu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau.

to increase and strengthen the use of Welsh in our communities.



Yn trefnu gwyliau, clybiau gofal, sesiynau iaith a mwy -

Organising festivals, childcare, language sessions and more -



mae'r fenter yn siop-un-stop ar gyfer yr iaith,

Menter Iaith is a one-stop-shop for the language,



yn ein helpu i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.

helping us live, learn and enjoy in Welsh



Mae'r Mentrau Iaith i bawb.

Mentrau Iaith is for everyone.



I ddarganfod mwy ewch i **mentrauiaith.cymru**

To find out more go to **mentrauiaith.cymru**


CYMRAEG

MENTER IAITH SIR DDINBYCH

Sefydlwyd Menter Iaith Sir Ddinbych ym mis Hydref 2003 pan esblygodd o'r hen Fenter Iaith Dinbych-Conwy a oedd wedi bodoli ers 1998.

Mae'r Fenter yn elusen gofrestredig ers 11eg Tachwedd 2004 ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant ers 5ed Ebrill 2007. Mae gan y Fenter fwrdd o gyfarwyddwyr profiadol, gweithgar a chefnogol iawn.

Strwythur Menter Iaith Sir Ddinbych 2022-2023



CYFARWYDDWYR / YMDDIRIEDOLWYR 2022-2023

	Enw:	Cynrychioli	Etholwyd
Cadeirydd	Arwel Roberts	Unigolyn	24/04/2014
Is–Gadeirydd	Bethan Cartwright	Unigolyn	11/10/2017
Trysorydd	Owain Gwyn Morris	Unigolyn	20/10/2011
Ysgrifennydd	Anna Lloyd Edwards	Unigolyn	16/10/2019
	Emrys Wynne	Unigolyn	03/10/2012
	Gwenan Prysor	Unigolyn	21/10/2015
	Alaw Griffith	Unigolyn	19/10/2016
	Menna Jones	Unigolyn	16/01/2019
	Catrin Eynon	Unigolyn	21/10/2021
	Lowri Ellis	Unigolyn	21/10/2021
	Alice Jones	Unigolyn	21/10/2015

Hyd at Ionawr 2023

STAFF



Prif Swyddog: Ruth Williams
Mae Ruth wedi gweithio i'r Fenter ers Medi 2013. Yn llawn amser, mae hi'n rheoli'r Fenter o ddydd i ddydd, yn gyfrifol am faterion strategol, marchnata a chyfathrebu. Mae hi hefyd yn gyfrifol am ambell i weithgaredd cymunedol.

Swyddog Cyllid a Busnes: Iorwen Jones
Mae Iorwen wedi gweithio i'r Fenter ers Ebrill 2004. Yn gweithio 4 diwrnod yr wythnos, mae hi'n gyfrifol am weinyddiaeth a chyllid y Fenter ac yn cefnogi peth o waith cymunedol y Fenter.


Swyddog Datblygu Cymunedol:
Gwion Tomos-Jones
Mae Gwion wedi gweithio i'r Fenter, yn llawn amser, ers Hydref 2013. Mae prif feysydd gwaith Gwion yn ymwneud â chyfleoedd i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Melys Edwards
Swyddog Prosiect y Glannau (rhan amser)
Cafwyd llwyddiant gyda chais i gronfa Gwynt y Môr yn yr Hydref 2022, a oedd yn golygu bod cefnogaeth swyddog rhan amser 11.5 awr yr wythnos i ardal y glannau wedi'i rhannu rhyngom ni a Menter Iaith Conwy.

YR ARDAL A WASANAETHIR GAN Y FENTER

Mae ychydig dros 93,000 o bobl dros 3 oed yn byw yn Sir Ddinbych, ac mae 22.5% o'r rheini yn gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021. Mae hyn yn cymharu â 24.6% yng Nghyfrifiad 2011. Mae hyn o ganlyniad i ostyngiad o 1,300 yn niferoedd y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg, a chynnydd yng nghyfanswm y boblogaeth gyffredinol dros yr un cyfnod.

Drwy'r sir i gyd, cafodd 58% o'r boblogaeth eu geni yng Nghymru, ac o Loegr mae'r mwyafrif llethol o'r gweddill yn hanu. O'r rhai a aned yng Nghymru, mae ychydig dros eu traean (33.8%) yn gallu siarad Cymraeg.



Mae hanner poblogaeth y sir yn byw yn nhrefi Prestatyn a'r Rhyl, a dyma ran fwyaf Seisnig y sir, gyda'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yn 13.6% ar gyfartaledd rhyngddynt. Ychydig dros hanner y boblogaeth (53.3%) a aned yng Nghymru, ac mae'n llai na hanner mewn sawl ward.

Mae ychydig dros 11,000 o bobl yn byw yn y pentrefi, trefi a'r maestrefi cyfagos – Rhuddlan, Bodelwyddan, Dyserth a dinas Llanelwy. Mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg ychydig yn uwch yma – 18.5%.

Yn gyffredinol mae'r canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi wrth symud i fyny Dyffryn Clwyd, gyda rhwng tua chwarter a thraean yn gallu siarad Cymraeg yn mhentrefi dwyreiniol a gwaelod y dyffryn. Y ddwy brif dref yw Dinbych, lle mae 33% yn siarad Cymraeg, a Rhuthun gyda chanran o 37.8%

Rhan Gymreiciaf y sir yw de-orllewin Dyffryn Clwyd a Edeirnion, lle mae dros 40% yn gallu siarad Cymraeg ar gyfartaledd, gan godi i dros 50% mewn pum cymuned. Cynwyd yw'r gymuned fwyaf Cymraeg gyda 58.4% o'r boblogaeth yn gallu siarad yr iaith, a'r unig gymunedau eraill sydd â mymryn dros hanner yn gallu siarad Cymraeg yw Gwyddelwern, Betws Gwerfyl Goch a Llandrillo yng nghyffiniau Corwen, a Llanrhaeadr yn Nyffryn Clwyd.

Mae llawer o'r ardaloedd hyn yn ffinio at ardaloedd cyfagos yn siroedd Conwy a Gwynedd, lle mae dros ddau draean o'r boblogaeth yn gallu sairad Cymraeg.

Yn olaf, mae'r canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg yn isel – tua 20 y cant ar gyfartaledd – yn nwyrain y sir, sef Llangollen a chymunedau cyfagos Llantysilio, Llandegla a Llanarmon yn Iâl.

Uchod: Map yn dangos cymunedau sir Ddinbych lle mae 20% a mwy yn gallu siarad Cymraeg

NODAU AC AMCANION

Prif nodau hir dymor y Fenter yw:

1. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn Sir Ddinbych.

2. Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-Gymraeg ddysgu'r iaith

3. Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.

4. Dylanwadu ar yr ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog neu Gymraeg.

Amcanion

i) Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

ii) Annog y di-Gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

iii) Cynnal digwyddiadau newydd naill a'i yn annibynnol neu trwy gydweithio mewn partneriaeth ag eraill
- i bontio rhwng ysgol a chymdeithas.
- i ategu at waith y ddarpariaeth Cymraeg i oedolion.
- i gyfoethogi a bywiocáu bywyd Cymraeg yn gyffredinol.

iv) Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes yn Gymraeg.

v) Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

vi) Hyrwyddo trosglwyddiad o'r Gymraeg o fewn y teulu.

Safbwyntiau am y Gymraeg, y gymuned a'r economi leol

Gosodwyd safbwyntiau'r rhwydwaith o Fentrau Iaith am y Gymraeg, y gymuned a'r economi leol mewn maniffesto ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2021. Darllenwch y maniffesto ar wefan Mentrau Iaith Cymru.

BLAS AR WAITH Y FENTER YN 2022-2023

Braf oedd gweld bod effaith pandemig Covid-19 ar addysg a chymdeithasu wedi lleihau erbyn dechrau 2022. Bu i'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod Covid am iechyd a diogelwch barhau yn ein meddyliau wrth gynllunio a chynnal gweithgareddau ond roedd egni newydd ar waith wrth weld grwpiau gwirfoddol cymunedol yn ail-gydiad mewn digwyddiadau cymdeithasol.

Wedi hir ymaros, a dwy flynedd o ohirio fe ddaeth Eisteddfod yr Urdd i Sir Ddinbych a chafwyd wythnos lwyddiannus iawn rhwng 30 Mai – 3 Mehefin.
Buom fel Menter yn cefnogi pwyllgorau'r Eisteddfod yn ystod y blynyddoedd cynllunio, ac yn cefnogi'r Urdd wrth hyrwyddo'r Eisteddfod yn lleol. Ond hefyd, roedd maes yr Eisteddfod yn lleoliad pwysig i ni fel Menter gael rhannu a dathlu ein gwaith, a braf oedd medru croesawu Gweinidog y Gymraeg atom i'r babell er mwyn iddo gael blas ar weithgareddau Lego a Minecraft.

Yn unol ag amodau'r grant craidd gan Lywodraeth Cymru, roedd ein targedau diwygiedig yn dal i ganolbwyntio ar dri phrif faes a rheini'n deillio o Thema 2 (***Defnydd*** o'r Gymraeg) rhaglen waith Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg

1. **Plant a Phobl Ifanc**
2. **Teuluoedd**
3. **Y Gymuned**

O dan y penawdau hynny buom yn gweithio tuag at:

- Mwy o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol a hyderus tu allan i oriau addysg

- Codi'r lefel o ymwybyddiaeth am y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg/Cymreig a chynyddu'r nifer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

I ddilyn, mae detholiad o'r math o waith roedd y Fenter yn ei wneud rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Blas yn unig sydd yma. Ceir darlun mwy manwl a'r cyfle i weld lluniau ac ambell glip fideo o'r gweithgareddau ar ein gwefan ac ar ein tudalennau Facebook , X (Twitter) ac Instagram.

Roedd y gwaith yn cynnwys :

i. Gweithgareddau i blant a phobl ifanc a theuluoedd
ii. Gweithgareddau cymunedol
iii. Cefnogi grwpiau cymunedol / gwirfoddol
iv. Cefnogi ymgyrchoedd y Llywodraeth
v. Fforwm Iaith – parhau i gydweithio a chynllunio gyda phartneriaid
vi. Cefnogi a chydweithio gyda phartneriaid Cymraeg mewn addysg
vii. Cyfathrebu â'r cyhoedd
viii. Cefnogi busnesau

i. Gweithgareddau i blant, pobl ifanc a theuluoedd

Trefnwyd 96 **o weithgareddau i blant a phobl ifanc**, gyda 3073 o blant 1-10 oed yn cymryd rhan a 308 o bobl ifanc 11-25 oed yn cymryd rhan ynddynt.

Diolch i nawdd gan y Loteri Genedlaethol a chynllun Haf o Hwyl, cafwyd cyfleoedd lu o gyfleoedd i gynnal gweithgareddau yn defnyddio Lego a Minecraft ar thema hanes lleol.

Rydym wedi datblygu cyfres Bocs Trysor Sir Ddinbych sy'n cynnwys sesiynau Lego a Minecraft yn ogystal â theithiau tywysedig lleol i blant.

Mae'r adnodd Minecraft sy'n parhau i dyfu bellach yn cynnwys sawl tref ac ardal yn Nyffryn Clwyd o fewn ein 'byd' ar 'server' arbennig i ni. Mae plant yn dysgu am eu hanes lleol (gydag ogwydd Gymreig) wrth fwynhau chwarae a chymdeithasu gyda'r offer ac mae'r Minecraft hefyd wedi cael ei gyflwyno i blant ar draws y gogledd wrth i ni gydweithio gyda Mentrau Iaith eraill i gynnal Clybiau Gemau Fideo rhithiol.

Rydym yn gweld galw cynyddol am ein sesiynau Lego a Minecraft gan ysgolion cynradd ac wrthi'n cynllunio i ddatblygu ein cynnig i ysgolion fel bod modd i'r pecyn fod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Rhoddwyd sylw i Lego a Minecraft ar ddydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener yn Eisteddfod yr Urdd, lle cafwyd canmoliaeth gan Weinidog y Gymraeg wrth iddo ymweld â phabell y Mentrau Iaith.

Cafwyd llwyddiant gyda'r prosiect Bocs Trysor Sir Ddinbych yn ennill categori Plant a Phobl Ifanc yng ngwobrau cenedlaethol Y Mentrau Iaith ddiwedd mis Ionawr. Rhoddodd hyn hwb i ni o ran cyfleoedd PR ac edrychwn ymlaen at barhau gyda rhaglen cyffrous o weithdai Lego a Minecraft gydol y flwyddyn nesaf.

Yn ystod gwyliau'r haf, eto, diolch i nawdd cronfa Haf o Hwyl Llywodraeth Cymru bu posib i ni gynnal gweithdai drama, gweithdai sgwennu creadigol a gweithdai sgwennu cân.

Fel rhan o'n cefnogaeth i bwyllgorau gwirfoddol Penwythnosau Drysau Agored Rhuthun a Dinbych (digwyddiadau treftadaeth flynyddol), cynhaliwyd gweithdai celf yn y ddwy dref gyda 32 o blant yn cymryd rhan dros ddau ddiwrnod llawn. Nodwyd pob un o'r rhieni pa mor wych oedd cael gweithgareddau Cymraeg ar benwythnosau. Gweithdy Celf Rhuthun Gweithdy Celf Dinbych

Wrth weld galw cynyddol gan rieni ym Mhrestatyn am weithgareddau Cymraeg tu allan i oriau ysgol, aethpwyd ati i drefnu gweithdai ukulele i ddau grŵp o blant 7- 11 oed, gyda 27 o blant yn cael cyfle i ddatblygu sgil newydd a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd 280 o blant gyfle i fynd allan o'u hysgolion ganol fis Medi i wylio sioe Y Mabinogi yn Nghastell Rhuddlan a Chastell Dinbych, a gan fod y sioe yn un ddwyieithog, roedd hyn wedi creu cyfle i ni ailgysylltu hefo ambell ysgol cyfrwng Saesneg hefyd er mwyn cyflwyno adnodd gwych i gefnogi eu rhaglenni Cymraeg Campus.

Gyda chyfleoedd lu yn ystod Chwarter 3 a ddaeth ar gefn Cymru'n chwarae peldroed yng **Nghwpan y Byd**, aethom ati i gynnal sawl gweithgaredd i blant a phobl ifanc. Esiamplau o hyn oedd:

Twrnamaint Fifa yn yr hen Lŷs dros ddau ddiwrnod mewn sesiynau ar ôl ysgol

Cystadleuaeth Het Bwced

Pob ysgol yn Sir Ddinbych wedi derbyn pecynnau, a falch oeddem i weld disgybl o Sir Ddinbych yn dod yn drydydd yn genedlaethol!

Murlun Corwen

Wedi trefnu i un o furluniau'r rhwydwaith cenedlaethol gael ei greu yng Nghorwen. https://www.misirddinbych.cymru/y-mentrau-iaith-yn-peintio-cymrun-goch-gyda-murluniau-pel-droed/

Clwb Gemau Fideo rhithiol Parhawyd gyda'r cydweithio â Mentrau Iaith eraill ar draws y gogledd i gynnal Clwb Gemau Fideo rhithiol yn ystod misoedd y gaeaf.

Cwis Dim Clem

Yn rhan o weithgaredd cenedlaethol rhwydwaith y Mentrau Iaith, bu i 6 ysgol Gymraeg yn Sir Ddinbych gymryd rhan yn yr hydref. Yn y flwyddyn newydd cafwyd rownd ranbarthol i ogledd Cymru, ac yna'r rownd genedlaethol ym mis Mawrth.

Trefnwyd **20 gweithgaredd** i deuluoedd gydol y flwyddyn gyda 1000 o blant a 429 **o rieni/oedolion** yn cymryd rhan a llawer mwy yn derbyn gwybodaeth am fanteision y Gymraeg i'w plant trwy dulliau eraill yn cynnwys ein gwaith i dargedu rheini ar y rhwydweithiau cymdeithasol**.**

Wrth i'r Gwanwyn gyrraedd, a chyfyngiadau Covid-19 leihau, bu posib mynd yn ôl ati i gynnal gweithgareddau i deuluoedd wyneb yn wyneb. Bu croeso mawr i'r gweithgareddau hyn ond roedd mynd yn ôl ati i gynnal digwyddiadau yn ddiogel gan gadw at asesiadau risg ychwanegol yn golygu mwy o waith cynllunio a chyfathrebu. Esiamplau o'r gweithgareddau hyn oedd Helfa Wyau Pasg a drefnwyd ar y cyd â phwyllgor Neuadd bentref Groes, ger Dinbych, sesiynau Camau Cerdd yn Nantglyn a sioe Professor Llusern yng Nghyffylliog.

Gyda'r Eisteddfod yr Urdd yn cael ei gynnal yn Ninbych ym mis Mai, roedd hyn yn gyfle euraidd i ni o ran manteisio ar gynulleidfa o deuluoedd ar y maes. Ond yn bwysicach i ni oedd medru targedu teuluoedd lleol o flaen llaw i'w hannog i ddod i'r Eisteddfod gan fod mynediad am ddim iddynt eleni, diolch i Lywodraeth Cymru.

Bu wythnos Eisteddfod yr Urdd yn ffocws mawr i ni yn ystod Chwarter 1 eleni, gan fod angen cynllunio digon o weithgareddau i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar gyfer 6 diwrnod llawn ar y maes.

O ran gwaith i dargedu teuluoedd yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd, buom yn rhagweithiol yn datblygu ein perthynas gyda theuluoedd o fewnfudwyr o Syria. Roeddem wedi dod i nabod y teuluoedd hyn sydd bellach wedi ymgartrefu yn y Rhyl, Llanelwy a Llangollen mewn gwaith a wnaed yn ystod 2021. Daeth 18 o deuluoedd Syria /Sir Ddinbych (34 o oedolion / 46 o blant) ar y daith i'r Eisteddfod a braf iawn oedd, medru estyn y croeso arbennig iddyn nhw, tra bod cyfle wedi'i greu trwy

gydweithio â swyddogion MIFfaW i adeiladu ar y berthynas gyda theuluoedd eraill ar draws y gogledd ddwyrain.

Yn ystod gwyliau'r haf, diolch i gyllid ychwanegol Haf o Hwyl, cafwyd cyfle i roi profiad o sioe theatr yn yr awyr agored am ddim i 20 o deuluoedd (40 oedolion/60 o blant 5-12 oed yn bennaf). Daeth o leiaf 25 o deuluoedd eraill i weld y sioe a oeddem wedi bod yn hyrwyddo'n lleol ar ran y cwmni theatr.

Esiampl arall o weithgaredd llwyddiannus yn ystod gwyliau'r haf oedd sesiwn i rieni di-Gymraeg a'u plant bach. Cynhaliwyd sesiwn chwarae i'r plant er mwyn dod â rhieni atom am baned ac i gael cyngor a chefnogaeth ar sut i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y cartref. Er nad oedd niferoedd yn uchel iawn, roedd yn sesiwn hynod ddefnyddiol i'r rhieni `meddai pob un ohonynt, gan ei fod yn gyfle i sgwrsio'n ddwys am eu hanghenion.



Wrth i'r Hydref gyrraedd, roedd cyfyngiadau Covid wedi hen ddiflannu a phleser oedd cael cynnal rhaglen lawn o ddigwyddiadau i deuluoedd. Esiamplau o'r gweithgareddau hyn oedd:

- Hwyl **Calan Gaeaf** a gynhaliwyd ar y cyd â phwyllgor Neuadd bentref Groes, a sioe Calan Gaeaf gyda Professor Llusern yn Nhrefnant a Rhuthun.

- 4 dangosiad o ffilm newydd **Deian a Loli** trwy gydweithio â gwirfoddolwyr Theatr Twm o'r Nant, gyda bron i **280 o blant** a **70 o rieni** yn mwynhau.

- Ar 25 Tachwedd, cafodd **70 o deuluoedd** y fraint o gyfarfod **Sion Corn yn Neuadd y Dref, Dinbych**, a dechreuwyd **pob** sgwrs ganddo yn Gymraeg. Roedd 3-4 ym mhob grŵp teulu ac fe ddosbarthwyd **240** o anrhegion i **blant**. Cafwyd sawl sylw a chanmoliaeth gan rieni am y fantais o gael Sion Corn Cymraeg, ac na fyddent wedi dod pe na ba'i wedi gallu'r Gymraeg.

- **Taith Magi Ann** ym mis Rhagfyr i bartïon Nadolig Miri Meithrin (ger Rhuthun), Twm o'r Nant a Snuggles (Dinbych), Tŷ Traeth (y Rhyl) a Puddleducks (Trefnant).

- **Sioe Hud a Lledrith Hanner Tymor** – cynhaliwyd dwy sioe yn ystod hanner tymor Chwefror, un ym Mhrestatyn a'r ail yng Nghorwen

ii. Gweithgareddau cymunedol

Cynhaliwyd **24 o weithgareddau cymunedol** yn ystod y flwyddyn. Rydym yn amcangyfrif fod dros 1,453 o oedolion wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, a 350 o blant. (Hyn heb gyfri'r niferoedd lu a oedd wedi mynychu gweithgareddau eraill a drefnwyd gan grwpiau a gefnogwyd gennym ee Gŵyl Rhuthun)

Rydym wedi parhau i gefnogi grwpiau gwirfoddol megis Grŵp Amgueddfa Dinbych, Theatr Twm o'r Nant, Sgyrsiau Cwmulus, Prosiect y Farchnad Fenyn, Gŵyl Rhuthun, Partneriaeth De Sir Ddinbych, Cymdeithas Lenyddol y Glannau, Cymdeithas Gymraeg Dinbych, Menter Gymraeg Rhuddlan, Yr Hen Lŷs Rhuthun, Gŵyl Rhuthun, Pwyllgor Dathlu Dydd Owain Glyndŵr a Gŵyl Ganol Haf Dinbych a sawl grŵp / elusen arall wedi cael cefnogaeth gennym o ran cyfieithu a pholisïau iaith. Llawer iawn o'r grwpiau hyn yn cysylltu i ofyn i ni helpu hyrwyddo cyfarfodydd neu weithgareddau hefyd ar ein rhwydweithiau cymdeithasol – weithiau gan nad oes modd ganddynt gyrraedd cynulleidfaoedd yn ddigidol eu hunain.

Un esiampl o fantais ein cefnogaeth ydy'r bartneriaeth rhwng Amgueddfa Gwefr gwirfoddol yn Ninbych a chriw o wirfoddolwyr Cwmulus sydd wedi bod yn cynnal sgyrsiau ar lein ers dechrau'r Cyfnodau Clo yn 2020. Buom yn dylanwadu ac yn cefnogi'r grŵp gydol 2020-21, ac maent bellach yn parhau i raglennu sgyrsiau Cymraeg ar lein diolch i'r gefnogaeth ac anogaeth maent wedi'i dderbyn gennym fel Menter, ac wedi nodi llwyddiant y ddarpariaeth Gymraeg yn gyhoeddus.

Cynhaliwyd sesiynau canu gyda dysgwyr, yn defnyddio'r llyfryn Mae'n Wlad i Mi (cyfnod Cwpan y Byd) yn Ysgol Pen Barras, Gŵyl Tŷ Gwyrdd , y Llew Coch, Cyffylliog a pnawn i ddysgwyr yn Ninbych ar ddydd Santes Dwynwen >>> Calon Lân

Cefnogwyd pwyllgor gwirfoddol Theatr Twm o'r Nant i gynnal 6 digwyddiad Cymraeg yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf a chefnogwyd Menter Gymraeg Rhuddlan i gynnal dwy gig – un ohonynt ar gyfnod Dydd Miwsig Cymru.

Cefnogi Dysgwyr Cymraeg

Trwy gydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg a Mentrau Iaith Cymru buom yn cynllunio a darparu teithiau tywysedig Cymraeg i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg o bob lefel. Cafwyd taith lwyddiannus gyda Iolo Williams dechrau mis Mai, a roddodd gyfle i ni lansio cyfres o deithiau eraill lleol dros yr haf.

iii.Cefnogi grwpiau cymunedol / gwirfoddol

Cefnogwyd sawl grŵp gwirfoddol yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys pwyllgor Gŵyl Ganol Haf Dinbych, pwyllgorau Drysau Agored Rhuthun a Dinbych, Papurau Bro, pwyllgor Dydd Owain Glyndŵr a phwyllgor Gŵyl Rhuthun. Nodwyd fod heriau yn parhau i wynebu grwpiau gwirfoddol, ac yn arbennig rheini sydd mewn ardaloedd gwledig a Chymraeg, gyda llai o bobl yn fodlon bod ar bwyllgorau trefnu.

iv. Cefnogi ymgyrchoedd y Llywodraeth

Parhawyd i rannu ac ail-drydar ymgyrchoedd ac ymgynhoriadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru ar dudalennau Facebook a Twitter Menter Iaith Sir Ddinbych.

v. Fforwm Iaith Sirol (Partner Iaith Sir Ddinbych) a
vi. Cefnogi a chydweithio gyda phartneriaid Cymraeg mewn addysg

Cydlynwyd ein fforwm iaith sirol ar 22 Medi 2022 a 23 Ionawr 2023 gyda cynrychiolaeth yn mynychu o'r Cyngor Sir, Merched y Wawr, CFfI Clwyd, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Popeth Cymraeg a Choleg Cambria, yn ogystal a ninnau. Mwy na dim, fforwm i rannu profiadau, blaenoriaethau ac adrodd ar heriau a chyfleoedd oeddynt, ond hefyd yn gyfle i drafod syniadau o ran cydweithio ar ambell beth, er engraifft presenoldeb yng Ngharnifal Dinbych i hyrwyddo'r Gymraeg.

Mynychwyd cyfarfodydd y Grŵp Strategol Cymraeg Mewn Addysg ar 19 Hydref 2022 a 24 Ionawr 2023, yn ogystal â sawl is-bwyllgor newydd a sefydlwyd yn ystod y cyfnod hwn ar gyfer gweithredu deilliannau 1, 2 5 a 7.

vii. Cyfathrebu â'r Cyhoedd
Rhannu negeseuon a chynyddu cynulleidfaoedd

Rhwydweithiau cymdeithasol
Gwelsom gynnydd da yn y nifer yn ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn hon, yn adlewyrchu ein cynnydd yn y defnydd o ddulliau digidol i gyrraedd pobl o bob oed a diddordeb.

Cyhoeddwyd o leiaf 1000 eitem ar y gwahanol gyfrifon digidol dros y flwyddyn (hynny ddim yn cynnwys ail-drydariadau a rhannu gan sefydliadau eraill, er bod hi'n werth nodi bod hynny'n digwydd o leiaf 20 gwaith yr wythnos hefyd). Mae dadansoddiad o'r cyfnod ar facebook yn dangos bod y postiadau mwyaf poblogaidd wedi cyrraedd o dros 4,000 o linellau amser.

Yn ogystal â chyhoeddi negeseuon ar y gwahanol llwyfannau digidol, byddwn yn gyrru eitemau i'r papurau bro, i'r papurau wythnosol lleol, Radio Cymru, Heno (S4C), Golwg, Daily Post – pan fydd yr eitemau'n berthnasol i'w cynulleidfaoedd.

Bydd posteri hefyd yn cael eu creu ar gyfer ein gweithgareddau, a rheini'n cael eu dosbarthu i llyfrgelloedd, siopau Cymraeg, busnesau a chanolfannau lleol i'r digwyddiad dan sylw.

viii. Busnesau

Mae busnesau bach y sir yn parhau i gysylltu hefo ni am gefnogaeth – fel arfer angen cyfieithu ond weithiau syniadau am sut i gyrraedd mwy o farchnad Gymraeg a Chymreig. Amcangyfrifwn i ni fod wedi delio â 140+ o fusnesau bach yn ystod y flwyddyn hon, yn arbennig trwy weithio mewn ffeiri megis Gŵyl Eirin Dinbych, Ffair Nadolig Dinbych a thrwy gynnal cystadleuaeth Ffenestri Dydd Gŵyl Dewi ym Mhrestatyn, Rhuddlan, Dinbych a Rhuthun.

DATBLYGU A CHRYFHAU'R FENTER

Mae'r Fenter yn ymfalchïo yn y farc ansawdd Elusen Ddibynadwy a ddyfarnwyd am 3 mlynedd yn 2020 ac wedi parhau i gynnal y safonau llywodraethu a phrosesau gydol 2022-23.
(N.B. bellach wedi derbyn marc safon am yr eilwaith ym mis Medi 2023)



DIOLCH

Diolch i holl rieni, plant a phobl ifanc am droi atom yn y Fenter Iaith i chwilio am gefnogaeth neu weithgareddau gydol y flwyddyn.

Rydym yn falch o fod wedi parhau i wasanaethu trigolion Sir Ddinbych, drwy gynnig rhywfaint o gymorth o ran eu hanghenion ieithyddol, ac yn falch o fod wedi dwyn perswâd ar eraill o ran rhoi cynnig ar ddefnyddio'r Gymraeg a manteisio o'i defnyddio, boed fel dysgwyr, grwpiau cymunedol neu fusnesau.

Diolchwn hefyd i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser yn ystod y cyfnod hwn, i helpu llywio gwaith y Fenter, neu i'n cefnogi wrth gynnal gweithgareddau neu rannu negeseuon.

Ruth Williams
Prif Swyddog
Hydref 2023

Hoffai Menter Iaith Sir Ddinbych ddiolch i'w noddwyr a'n partneriaid am eu cymorth yn ystod 2022-2023

Diolch hefyd i swyddogion a phwyllgor Mentrau Iaith Cymru am eu cefnogaeth a chydweithrediad gwerthfawr gydol y flwyddyn.

Rhif cofrestredig y cwmni: 6204415
Rhif yr elusen: 1120223

Menter Iaith Sir Ddinbych

Cwmni cyfyngedig drwy warant
heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Datganiadau Ariannol
Am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2023
Sydd Wedi'u Paratoi Heb Archwiliad Ariannol.

Hoffai Menter Iaith Sir Ddinbych ddiolch i'w noddwyr am eu cymorth yn ystod 2022-2023

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Ariannwyd gan Gwynt y Môr
Funded by Gwynt y Môr

Partneriaeth Gymundedol De Sir Ddinbych
South Denbighshire Community Partnership

Summer of Fun Haf o Hwyl

Cyngor Tref Prestatyn

Prestatyn Town Council

Cyngor Tref Dinbych Denbigh Town Council

Cyngor Tref Rhuddlan Town Council

Gŵyl Ganol Haf Dinbych Denbigh Midsummer Festival

DVSC CGGSDd
Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Creu Cymunedau Cryf drwy Weithredu Gwirfoddol
Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through voluntary action

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Yr Hen Lys Rhuthun
The Old Courthouse

Mentrau Iaith Cymru

Diolch hefyd i swyddogion a phwyllgor Mentrau Iaith Cymru am eu cefnogaeth a chydweithrediad gwerthfawr gydol y flwyddyn.

MENTRAU IAITH

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Cynnwys

	Tudalen
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1 - 5
Adroddiad yr archiliwr annibynnol	6
Datganiad o weithgareddau ariannol	7
Mantolen	8
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	9 – 18

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

CYFEIRNOD A MANYLION GWEINYDDOL.

Enw'r elusen gofrestredig	Menter Iaith Sir Ddinbych
Rhif cofrestru'r elusen:	1120223
Rhif cofrestredig y cwmni	6204415 (Cymru a Lloegr)
Swyddfa gofrestredig	6 Heigad DINBYCH Sir Ddinbych LL16 3LE

Cyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr
Y cyfarwyddyr ac ymddiriedolwyr a fu'n gwasanaethu'r elusen yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2023 oedd:

Cadeirydd	Arwel Roberts
Is-gadeirydd	Bethan Cartwright
Trysorydd	Owain Gwyn Morris
Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr eraill	Anna Lloyd Edwards Lowri Haf Ellis Catrin Eynon Alaw Griffith Alice Jones (hyd at 06/01/2023) Menna Eluned Jones Gwenan Prysor Emrys Wynne
Ysgrifennydd	Anna Lloyd Edwards
Bancwyr	HSBC 17 Stryd y Dyffryn DINBYCH Sir Ddinbych LL16 3AG
Cyfrifwyr	Hill & Roberts Cyfrifwyr Siartredig 1 Tan y Castell RHUTHUN Sir Ddinbych LL15 1DQ

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Strwythur a rheolaeth

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn elusen gofrestredig, rhif 1120223, wedi ei sefydlu fel cwmni cyfyngedig, rhif 6204415. Mae cyfansoddiad y cwmni yn unol â chyfansoddiad elusennol a chwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol. Cofrestrwyd Menter Iaith Sir Ddinbych fel elusen gofrestredig, ac fel cwmni cyfyngedig, ar 5 Ebrill 2007.

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych (yr 'Elusen') yn cael ei gweinyddu a'i rheoli yn ôl y memorandwm ac erthyglau cymdeithasol y cwmni, a gan aelodau bwrdd y cyfarwyddwyr.

Mae aelodaeth yr Elusen yn agored i unigolion dros 18 oed ac unrhyw gymdeithas, gorfforedig neu anghorfforedig, sydd yn cytuno ag amcanion a gwaith yr Elusen, heb wahaniaethu rhwng pobl o safbwynt eu cyfoeth, gwleidyddiaeth, hil, crefydd, rhyw neu anabledd. Bydd i bob aelod-fudiad benodi unigolyn i'w gynrychioli ac i bleidleisio.

Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn unfrydol ac am reswm da, roi terfyn ar aelodaeth unrhyw unigolyn neu aelod-fudiad: cyhyd a bod gan yr unigolyn dan sylw neu gynrychiolydd penodedig yr aelod-fudiad dan sylw'r hawl i wrandawiad gan y Bwrdd y Cyfarwyddwyr, yng nghwmni ffrind, cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Bwrdd y cyfarwyddwyr

Rheolir busnes yr Elusen gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a fydd yn atebol i'r aelodau. Ni fydd gan unrhyw berson hawl i weithredu fel Cyfarwyddwr, boed hynny am, y tro cyntaf neu dro dilynol, hyd nes y bydd wedi llofnodi datganiad derbyn parodrwydd i weithredu er budd yr Elusen yn llyfr cofnodion Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

Bydd Bwrdd y cyfarwyddwyr yn cynnwys dim llai na 5 o gyfarwyddwyr a dim mwy na 14 o gyfarwyddwyr.

Gall y Cyfarwyddwyr ar unrhyw adeg gyfethol unrhyw berson i Fwrdd y Cyfarwyddwyr cyn belled na fydd mwy nag un rhan o dair o Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn gyfetholedig a chyn belled na ragorir ar yr uchafswm a benodir yn erthygl 39, ac na wneir rhagor na thri chyfetholiad o'r fath rhwng un Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r nesaf. Rhaid i bob person a gyfetholir fel hyn ymddiswyddo yn y Cyfarfod Blynyddol yn dilyn eu cyfetholiad, ond byddent yn gymwys i'w hailbenodi wedi hynny.

Ceir talu holl gostau teithio, gwesty a threuliau eraill rhesymol cyfarwyddwyr mewn perthynas â'u presenoldeb mewn cyfarfod Cyfarwyddwyr, pwyllgorau neu gyfarfod cyffredinol neu mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau, ond fel arall ni fyddant yn derbyn tal.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Nodau'r elusen

1. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn Sir Ddinbych.

2. Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-gymraeg ddysgu'r iaith

3. Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.

4. Dylanwadu ar yr ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog neu Gymraeg.

Amcanion yr elusen

i) Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

ii) Annog y di-gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

iii) Cynnal digwyddiadau newydd naill a'i yn annibynnol neu trwy gydweithio mewn partneriaeth ag eraill
- i bontio rhwng ysgol a chymdeithas.
- i ategu at waith y ddarpariaeth Cymraeg i oedolion.
- i gyfoethogi a bywiocáu bywyd Cymraeg yn gyffredinol.

iv) Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes yn Gymraeg.

v) Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

vi) Hyrwyddo trosglwyddiad o'r Gymraeg o fewn y teulu.

Darparu budd i'r cyhoedd

Wrth gynllunio ein gwaith am y flwyddyn, mae aelodau'r pwyllgor sy'n gyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau a'r budd i'r cyhoedd. Yn benodol, ceisiwn gynorthwyo a chefnogi'r gymuned yn ei chyfanrwydd o ran hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg gan bob oedran. Rydym yn gweithio ar draws y sir gyfan a darparwn gyfleoedd i bobl wella proffil y Gymraeg a dwyieithrwydd, drwy ddarparu cyngor, cymorth, prosiectau a gweithgareddau penodol. Ein corff ni yw'r unig un â'r brîff penodol i normaleiddio'r Gymraeg/dwyieithrwydd mewn bywyd teuluol a bywyd cyhoeddus ar draws sbectrwm oedran y sir. Gweithiwn ar y cyd gyda phartneriaid allweddol megis yr Urdd a Mudiad Meithrin a darparwyr statudol megis ysgolion a'r Cyngor Sir. Rydym yn gweithio gyda chyrff eraill sy'n ymwneud â darparu gwersi Cymraeg i oedolion hefyd gan gynorthwyo i ymestyn y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae ein deunyddiau cynnig cyngor a marchnata ar gael bob amser, ac mae'r Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr yn cytuno ar dargedau ar gyfer gwaith cymunedol yn flynyddol.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Adolygiad ariannol

Mae'r prif weithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhai i blant a phobl ifanc, mewn partneriaeth gyda grwpiau lleol eraill. Defnyddir yr holl incwm a dderbynnir i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, p'un ai ar y ffôn, drwy gyfrwng e-bost neu wyneb yn wyneb. Ceisiwn sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol, gan dargedu'r cyhoedd drwy gynnig cyngor am ddim a gweithgareddau neu weithdai celfyddydol, llenyddol, digidol a rhai sy'n addas i siaradwyr Cymraeg rhugl neu siaradwyr Cymraeg newydd.

Campau a gyflawnwyd

Am ddarlun mwy manwl o weithgareddau'r flwyddyn sy'n cyflawni nodau ac amcanion yr elusen ac yn rhoi budd i'r cyhoedd gweler Adroddiad Blynyddol yr elusen.

Perfformiad Ariannol yr Elusen

Mae cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023 wedi codi o £115,449 i £123,456, sef cynydd o £8,007 (6.9%) ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r gyfradd llog yn parhau i fod yn isel ond wedi codi erbyn diwedd y flwyddyn a derbyniwyd £103 o incwm buddsoddiad yn unig am y flwyddyn (2022 - £3). Mae cyfanswm yr adnoddau a dreuliwyd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023 wedi cynyddu o £111,154 i £120,350 sef tyfiant o £9,196 (8.3%) ar y flwyddyn flaenorol. Cafwyd gwarged felly o £3,106 am y flwyddyn i gymharu â gwarged o £4,295 am y flwyddyn flaenorol. Mae mwy o fanylder i'w weld yn Adroddiad Blynyddol yr elusen.

Polisi Cronfeydd

Mae'n rhan o bolisi'r Elusen i gadw cronfeydd anghyfyngedig sef y cronfeydd rhyddion, ar lefel sy'n hafal i tua 3 mis o dreuliau anghyfyngedig. Mae hyn yn caniatáu cronfa ddigonol i dalu costau rheoli, gweinyddu a chynnal yr Elusen.

Polisi Buddsoddiad

Yr amcan buddsoddiad yw diogelu'r buddsoddiadau cyfredol yn erbyn chwyddiant ac i gael incwm rhesymol yn ôl. Mae perfformiad y buddsoddiadau yn cael eu hadolygu ar sail gyson trwy eu cymharu gyda maincfesuriad addas.

Rheolaeth Risg

Gwnaed arolwg gan y Cyfarwyddwyr ym meysydd busnes a gweithredu'r Elusen a gallant gadarnhau y byddai'r Elusen mewn sefyllfa i liniaru unrhyw risg.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae'r Elusen yn parhau i weithio yn agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a phartneriaid eraill i hybu'r iaith Gymraeg drwy Sir Ddinbych gyfan. Mae'r Elusen hefyd yn parhau i ddatblygu presenoldeb ar y we a chyfryngau cymdeithasol drwy'r wefan a rhwydweithiau cymdeithasol, a hyn wedi dod yn bwysicach dros y blynyddoedd ddiwethaf wrth i batrymau cyfathrebu a chymdeithasu newid. Mae'r Elusen bellach wedi'i ddyfarnu'n Elusen Ddibynadwy gan yr NCVO. Golyga hyn bod prosesau yn eu lle i roi sicrwydd i bartneriaid ac arianwyr a photensial i ddenu mwy o fuddsoddiad a gwaith mewn partneriaeth.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar Fenter Iaith Sir Ddinbych at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y DU (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn gofyn bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi safbwynt cywir a theg ar faterion y cwmni elusennol fel y mae pethau ac o'r ffynonellau sy'n dod i mewn a defnydd y ffynonellau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol dros y cyfnod hwnnw. Fel rhan o waith paratoi'r datganiadau ariannol, bydd gofyn i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson
- Dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen
- Beirniadu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn bwyllog
- Paratoi'r datganiadau ariannol yn seiliedig ar fusnes sydd ar fynd oni bai ei bod yn anaddas cymryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion ariannol digonol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, beth ydy sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac yn eu galluogi nhw i sicrhau fod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Cwmnïau 2006. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly hefyd dros gymryd camau rhesymol er mwyn rhwystro a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cafodd adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ei fabwysiadu ar 18 Hydref 2023 a'i arwyddo ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gan:

Llofnod *A Edwards*

Enw llawn **Anna Lloyd Edwards**

Safle **Ysgrifennydd**

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CWMNI ELUSENNOL MENTER IAITH SIR DDINBYCH ('y Cwmni')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd
Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (a hefyd ei gyfarwyddwyr at ddibenion y gyfraith cwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archiliwad ariannol o gyfrifon y Cwmni o dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon eich elusen fel y cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol
Cwblheais fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu:

- bod cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer y Cwmni fel sy'n ofynnol gan adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; neu
- nid yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwy ar gyfer cyfrifon ac adroddiadau gan elusennau yn gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd: *R A Roberts* Dyddiad: 18 Hydref 2023

R A Roberts, BSc, FCA
Hill & Roberts Cyfrifwyr Siartredig
1 Tan y Castell
RHUTHUN
Sir Ddinbych
LL15 1DQ

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Datganiad o weithgareddau ariannol (yn cynnwys crynodeb o gyfrif incwm a gwariant) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023

	Nodyn	2023 Cronfeydd Anghyfyngedig	2023 Cronfeydd Cyfygedig	2023 Cyfanswm Cronfeydd	2022 Cyfanswm Cronfeydd
		£	£	£	£
Incwm					
Incwm a gwaddoliadau					
Rhoddion a chymynroddion	3	100,127	-	100,127	95,174
Gweithgareddau elusennol	4	14,510	-	14,510	5,845
Gweithgareddau masnachu arall	5	3,716	-	3,716	5,686
Incwm arall	6	5,000	-	5,000	8,741
Buddsoddiant	7	103	-	103	3
Cyfanswm incwm		123,456	-	123,456	115,449
Gwariant					
Gwariant ar weithgareddau elusennol	8	118,061	2,289	120,350	111,154
Cyfanswm gwariant		118,061	2,289	120,350	111,154
Incwm / gwariant net	11	**5,395**	**(2,289)**	**3,106**	**4,295**
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd		**3,237**	**(3,237)**	**-**	**-**
Symudiad net yn y cronfeydd		**8,632**	**(5,526)**	**3,106**	**4,295**
Cyfanswm cronfeydd 01 Ebrill 2022		34,507	5,526	40,033	35,738
Cyfanswm cronfeydd 31 Mawrth 2023		**43,139**	**-**	**43,139**	**40,033**

Mae holl weithgareddau'r cwmni yn cael eu hystyried yn rhai parhaol.

Nid oedd gan y cwmni enillion na cholledion heblaw am y gwarged am y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 18 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol yma.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2023

	Nodyn	2023		2022	
		£	£	£	£
Asedau sefydlog					
Asedau cyffyrddadwy	16		2,484		3,313
Asedau cyfredol					
Dyledwyr	17	1,589		1,602	
Arian yn y banc		41,170		37,609	
Arian mewn llaw		63		5	
		42,822		39,216	
Credydwyr -yn daladwy o fewn blwyddyn	18	2,167		2,496	
Asedau cyfredol net			40,655		36,720
Asedau net			**£43,139**		**£40,033**

	Nodyn	2023	2022
		£	£
Cronfeydd wrth gefn			
Cronfeydd anghyfyngedig	19	43,139	34,507
Cronfeydd cyfyngedig	19	-	5,526
Cyfanswm cronfeydd		**£43,139**	**£40,033**

Roedd gan y cwmni hawl i eithrio rhag archwilio'r datganiadau ariannol yn rhinwedd adran 477 o'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn berthnasol i gwmnïau bychan.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni gael archwiliad o'r datganiadau ariannol am y flwyddyn berthnasol yn unol ag adran 476;

Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu dyletswyddau i gydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf ynglŷn â chadw cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau ariannol.

Y mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi mewn cytundeb â'r ddarpariaeth arbennig adran XV o ddeddf Cwmnïau 2006 sydd yn berthnasol i gwmnïau bach ac yn unol â FRS 102 SORP.

Mabwysiadwyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd yr Cyfarwyddwyr ar 18 Hydref 2023 ac arwyddwyd ar eu rhan gan:

Llofnod: *Owain Morris*

Owain Gwyn Morris
Trysorydd - Cyfarwyddwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 18 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol yma

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

1 Gwybodaeth Statudol

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn gwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gorffori yng Nghymru, yn y DU. Y swyddfa gofrestredig ydy 6 Heigad, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3LE.

Caiff y datganiadau ariannol eu cyflwyno mewn punnoedd sterling (£), arian gweithredu'r cwmni, a'i dalgrynnu at y bunt agosaf.

Mae'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol sydd wedi'u defnyddio wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn wedi'u gosod isod. Mae'r polisïau wedi'u defnyddio yn gyson gyda phob blwyddyn gaiff ei chyflwyno, oni bai y nodir yn wahanol.

2 Polisïau Cyfrifyddu

Sail paratoi'r datganiadau ariannol
Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sy'n endid budd cyhoeddus o dan FRS102, wedi'u paratoi yn unol â Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen (FRS102) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion Argymelledig sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adrodd Ariannol perthnasol y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (mewn grym 1 Ionawr 2019)', Safon Adrodd Ariannol 102 'Safon Adrodd Ariannol perthnasol y DU a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r confensiwn costau hanesyddol.

Incwm
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith bydd gan yr elusen hawl dros yr arian.

Incwm o weithgareddau elusennol
Mae incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm wedi'i dderbyn trwy gytundeb neu lle mae hawl dros arian grant yn dibynnu ar amodau perfformio penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod wrth i'r gwasanaethau cysylltiedig gael eu darparu ac wrth gaffael yr hawl, bydd modd mesur tebygrwydd faint gaiff ei dderbyn a'r swm ei hun gyda digon o ddibynadwyedd. Caiff incwm ei ohirio pan gaiff swm ei dderbyn cyn perfformio'r gwasanaeth neu ddigwyddiad y mae'n gysylltiedig ag o.

Incwm o fuddsoddiad
Caiff incwm o fuddsoddiad ei gydnabod pan gaiff ei derbyn.

Gwariant
Caiff dyledion eu cydnabod fel gwariant unwaith y bydd gorfodaeth ymarferol neu gyfreithiol sy'n ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, mae'n debyg y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd wrth ei dalu a bydd modd mesur swm yr orfodaeth yn ddibynadwy. Caiff gwariant ei ystyried ar sail croniadau ac mae wedi'i ddosbarthu o dan benawdau sy'n crynhoi'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw DAW nad oes modd ei hawlio yn ôl.

Mae ‘gwariant elusennol’ yn cynnwys y costau hynny mae'r elusen wedi'i wario wrth ddarparu ei gweithgareddau a'i gwasanaethau ar gyfer ei buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y mae modd eu dyrannu yn uniongyrchol tuag at weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

2 Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Gwariant (parhad)
'Costau cefnogi' ydy'r costau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gweithgaredd ond er hynny, tydyn nhw ddim yn cynhyrchu neu yn creu allbwn gweithgaredd yr elusen. Mae hyn yn cynnwys costau llywodraethol sef y costau hynny sy'n gysylltiedig gyda chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys y ffioedd a chostau cyfrifyddu sy'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen yn ogystal â rhan o'r cyflogau sy'n seiliedig ar fras amcan o'r amser a dreuliwyd ar yr adran hon.

Asedau sefydlog cyffyrddadwy
Mae asedau sefydlog wedi'u cofnodi trwy gostau i ddechrau.

Dibrisiad
Caiff dibrisiad ei gyfrifo er mwyn dileu cost ased, llai o'i werth sy'n weddill dros fywyd economaidd defnyddiol yr ased fel a ganlyn:

Offer swyddfa	- lleihau'r cyfanswm o 25%

Treth

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

Cyfrifyddu cronfeydd
Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'r elusen eu defnyddio, fel y gwêl yr ymddiriedolwyr yn ddoeth, at unrhyw ddiben sy'n ymwneud ag amcanion yr elusen.

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi'u derbyn yn amodol gan y rhoddwyr at y diben sydd wedi'i bwriadu ar eu cyfer.

Offerynnau ariannol
Does gan yr elusen ddim ond asedau ariannol a dyledion ariannol o natur sy'n cymhwyso fel offerynnau ariannol syml. Caiff offerynnau ariannol syml eu hadnabod yn gyntaf drwy werth trosglwyddo ac yna eu mesur trwy eu gwerth talu.

Dyledwyr
Caiff dyledwyr masnachu a dyledwyr eraill eu cydnabod trwy'r swm talu sy'n ddyledus ar ôl cynnig unrhyw ostyngiad masnachu.
Caiff taliadau o flaen llaw eu prisio ar y swm net a dalwyd o flaen llaw ar unrhyw ostyngiad dyledus.

Credydwyr
Caiff credydwyr eu cydnabod lle bo gan yr elusen orfodaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol fydd mwy na thebyg yn arwain at drosglwyddo cronfeydd at drydydd parti a bydd modd mesur neu amcangyfrif y swm sy'n ddyledus er mwyn talu'r orfodaeth yn ddibynadwy. Caiff credydwyr gan amlaf eu cydnabod trwy eu swm talu ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau masnachu sy'n ddyledus.

Costau pensiwn
Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun cyfraniad pensiwn diffiniedig. Caiff costau cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun pensiwn y cwmni elusennol eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y cyfnod perthnasol.

2 Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Costau pensiwn (parhad)
Mae'r cwmni elusennol yn gwneud cyfraniadau i gynlluniau pensiwn personol ar ran ei gyflogai. Caiff costau eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y cyfnod perthnasol.

3 Rhoddion a chymynrhoddion

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2023	Cyfanswm 2022
	£	£	£	£
Grant Llywodraeth Cymru	85,603	-	85,603	79,984
Grant Cyngor Sir Ddinbych	14,524	-	14,524	14,190
Grant Arnold Clarke Community Fund	-	-	-	1,000
	100,127	-	100,127	95,174

4 Gweithgareddau elusennol

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd 2023	Cyfanswm 2022
	£	£	£	£
Grant Cyngor Tref Dinbych	-	-	-	1,650
Grant Mentrau Iaith Cymru	-	-	-	3,750
Grant Mentrau Iaith Cymru Haf o Hwyl	9,780	-	9,780	-
Grant Cyngor Sir Dinbych Haf o Hwyl	3,380	-	3,380	-
Grant Mentrau Iaith Cymru Dysgwyr	1,000	-	1,000	-
Grant Cyngor Tref Rhuddlan	-	-	-	350
Grant Cyngor Tref Prestatyn	350	-	350	95
	14,510	-	14,510	5,845

5 Gweithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2023	Cyfanswm 2022
	£	£	£	£
Gweithgareddau a phrosiectau	3,029	-	3,029	5,286
Incwm Arall	437	-	437	-
Prosiect y Glannau rhentu desg	250	-	250	400
	3,716	-	3,716	5,686

6 Incwm Arall

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Cyngor Sir Ddinbych – Covid 19	-	-	-	2,000
Moondance Foundation – Covid 19	-	-	-	741
DVSC – Covid 19	-	-	-	2,000
Lwfans Nawdd Cymdeithasol	5,000	-	5,000	4,000
	5,000	-	5,000	8,741

7 Incwm o fuddsoddiant

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Llog derbyniwyd	103	-	103	3
	103	-	103	3

8 Gwariant ar weithgareddau elusennol

	Cronfeydd Anghyfynedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Costau gweithgareddau elusennol cyffredin				
Cyflogau staff	64,257	1,275	65,532	61,637
Yswiriant gwladol	6,117	-	6,117	5,664
Costau pensiwn staff	4,530	-	4,530	4,315
Hyfforddiant	61	-	61	-
Costau gwasanaethau llawrydd	3,980	-	3,980	5,829
Rhent a hurio ystafelloedd	1,750	-	1,750	1,313
Prydlesi gweithredol – offer swyddfa	1,185	-	1,185	1,185
Teithio a Lluniaeth	1,848	-	1,848	504
Teleffon	399	-	399	1,096
Trydan	85	-	85	-
Argraffu, papur a phost	535	-	535	484
Costau Cyfrifiadur	754	-	754	745
Marchnata a hysbysebu	692	-	692	631
Costau banc	124	-	124	97
Tanysgrifiadau	1,095	-	1,095	910
Dibrisiant	725	-	725	968
Prosiectau a gweithgareddau - Cymuned	2,665	-	2,665	2,069
Prosiectau a gweithgareddau – Teulu	164	-	164	760
Prosiectau a gweithgareddau – Plant & Phobl Ifanc	1,753	-	1,753	4,242
Prosiectau a gweithgareddau – Nerth dy Ben	-	-	-	2,400
Prosiectau a gweithgareddau – Bocs Trysor	-	1,014	1,014	3,428
Prosiectau a gweithgareddau – Dysgwyr	3	-	3	-
Prosiectau a gweithgareddau – DCC Haf o Hwyl	853	-	853	-
Prosiectau a gweithgareddau – MIC Haf o Hwyl	7,754	-	7,754	-
	101,329	2,289	103,618	98,277

8 Gwariant ar weithgareddau elusennol (parhad)

	Cronfeydd Anghyfynedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Costau cefnogi				
Cyflogau	9,818	-	9,818	7,604
Yswiriant gwladol	764	-	764	481
Costau pensiwn staff	687	-	687	532
Rhent	345	-	345	188
Yswiriant	715	-	715	557
Prydlesi gweithredol – offer swyddfa	169	-	169	169
Trydan	12	-	12	-
Glanhau	455	-	455	383
Cynnal a chadw	137	-	137	111
Argraffu, post a phapur	73	-	73	69
Marchnata a hysbysebu	99	-	99	90
Teleffon	57	-	57	157
Costau cyfrifiadur	108	-	108	106
Costau cyfieithu	319	-	319	-
Teithio a lluniaeth	114	-	114	29
Costau cyfrifo	2,112	-	2,112	2,028
Costau banc	18	-	18	14
Mân gostau	466	-	466	91
Tanysgrifiadau	156	-	156	130
Dibrisiant asedau cyffyrddadwy	104	-	104	138
Llog ar dreth	4	-	4	-
	16,732	-	16,732	12,877
Cyfanswm gwariant ar weithgareddau elusennol	118,061	2,289	120,350	111,154

9 Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl math y gronfa

	Cronfeydd Anghyfyng-edig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cronfeydd Anghyfyng-edig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £
Gwariant elusennol	101,329	2,289	103,618	92,449	5,828	98,277
Costau cefnogi	16,732	-	16,732	12,877	-	12,877
	118,061	2,289	120,350	105,326	5,828	111,154

10 Gwariant elusennol yn ôl gweithgareddau

	Gweithgareddau Uniongyrchol	Costau Cefnogi	Cyfanswm 2023	Cyfanswm 2022
	£	£	£	£
Gweithgareddau elusennol cyffredin	101,329	14,369	115,698	109,350
Gweithgareddau elusennol penodol	2,289	-	2,289	-
Costau llywodraethol	-	2,363	2,363	1,804
	103,618	16,732	120,350	111,154

11 Dadansoddiad o gostau cefnogi

	Costau Gweithgareddau Hybu'r iaith Gymraeg	Cyfanswm 2023	Cyfanswm 2022
	£	£	£
Costau staff	11,269	11,269	8,617
Costau eiddo	241	241	249
Costau swyddfa gyffredinol	2,859	2,859	2,207
Costau llywodraethu	2,363	2,363	1,804
	16,732	16,732	12,877

12 Gwariant / Incwm Net

Mae Gwariant net wedi ei ddatgan ar ôl codi:	£
Dibrisiant	829

13 Taliadau a Budd-daliadau'r Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiant eraill i'r ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023 (2022 - £ Dim). Mae'r elusen yn ystyried mai ei phersonél rheoli allweddol ydy'r ymddiriedolwyr a'r prif swyddog. Cyfanswm buddiant cyflogaeth y personél rheoli allweddol, yn cynnwys cyfraniadau pensiwn, oedd £34,544 (2022 - £34,083).

Treuliau'r ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023. Talwyd £62 o dreuliau teithio i un ymddiriedolwyr yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022.

14 Costau staff

	2023	2022
	£	£
Cyflogau	75,350	69,241
Yswiriant gwladol	6,881	6,145
Cyfraniadau pensiwn	5,217	4,847
Lwfans cyflogwr	(5,000)	(4,000)
	82,448	76,233

Mae'r elusen yn cyflogi 2 aelod o staff llawn amser ac 1 aelod o staff rhan-amser (2022 - 2 amser llawn ac 1 rhan amser). Ni enillodd unrhyw aelod o staff fwy na £60,000 y flwyddyn (2022: Dim). Mae'r elusen yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig mewn perthynas â'r staff. Mae rheolwyr annibynnol yn dal y cynllun a'i asedau. Mae'r tâl pensiwn yn cynrychioli cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cwmni a'u cyfanswm yw £5,217 (2022 - £4,847). Cyfraniadau pensiwn sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn oedd £183 (2022: £80). Bydd gordaliad cyfraniad pensiwn yn ystod y flwyddyn blaenorol, felly mae cyfanswm o £264 (2022: £287) yn ddyledus yn ôl i'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn sydd wedi eu hadlewyrchu yn y costau uchod.

15 Tâl yr Arolygwyr Annibynnol

Roedd tâl yr arholwr annibynnol yn gyfystyr â ffi cyfrifo ac arholi o £1,766 (2022 - £1,632) a gwaith cyflogres o £346 (2022 - £396).

16 Asedau cyffyrddadwy sefydlog

	Dodrefn	Offer Swyddfa	Cyfanswm
Cost	£	£	£
Ar 1 Ebrill 2022	673	8,431	9,104
Ychwanegiadau	-	-	-
Gwaredu	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2023	673	8,431	9,104
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2022	661	5,130	5,791
Dibrisiant am y cyfnod	2	827	829
Dileu wrth waredu	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2023	663	5,957	6,620
Gwerth llyfr net			
Ar 31 Mawrth 2023	£10	£2,474	£2,484
Ar 31 Mawrth 2022	£12	£3,301	£3,313

16 Dyledwyr – yn ddyledus o fewn y flwyddyn

	2023	2022
	£	£
Dyledwr eraill	1,589	1,602
	1,589	1,602

17 Credydwyr - yn ddyledus o fewn y flwyddyn

	2023	2022
	£	£
Credydwyr masnachol	-	69
Trethi a nawdd cymdeithasol	-	156
Credydwyr eraill	2,167	2,271
	2,167	2,496

18 Dadansoddiad o gronfeydd elusennol

	Ar 31 Mawrth 2022	Incwm	Gwariant	Trosglwy-ddiadau	Ar 31 Mawrth 2023
	£	£	£	£	£
Cronfeydd cyfyngedig	5,526	-	(2,289)	(3,237)	-
Cronfeydd anghyfyngedig	34,507	123,456	(118,061)	3,237	43,139
Cyfanswm cronfeydd	**£40,033**	**£123,456**	**£(120,350)**	**£-**	**£43,139**

19 Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

	Asedau sefydlog cyffyrddadwy	Asedau Cyfredol net	Rhwymedig-aethau tymor hir	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cronfeydd cyfyngedig	-	-	-	-
Cronfeydd anghyfyngedig	2,484	40,655	-	43,139
	£2,484	**£40,655**	**£ -**	**£43,139**

20 Partïon perthynol

Ni fu unrhyw drafodion gyda phartïon perthynol yn ystod y flwyddyn.

21 Ymrwymiadau ariannol arall

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y cwmni ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol ni chaiff eu diddymu, dros weddill tymor y prydlesi yma o £113 (2022 - £1,467).

MENTER IAITH SIR DDINBYCH

England & Wales - Charity number 1120223

Accounts

Rhif cofrestredig y cwmni: 6204415
Rhif yr elusen: 1120223

Menter Iaith Sir Ddinbych

Cwmni cyfyngedig drwy warant
heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Datganiadau Ariannol
Am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2022
Sydd Wedi'u Paratoi Heb Archwiliad Ariannol.

Hoffai Menter Iaith Sir Ddinbych ddiolch i'w noddwyr am eu cymorth yn ystod 2021-2022

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Arnold Clark COMMUNITY FUND

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Cyngor Tref Dinbych Denbigh Town Council

Cyngor Tref Rhuddlan Town Council

Cyngor Tref Prestatyn
Prestatyn Town Council

The Moondance Foundation

DVSC CGGSDd
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Creu Cymunedau Cryf trwy Weithredu Gwirfoddol
Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through voluntary action

Diolch hefyd i swyddogion a phwyllgor Mentrau Iaith Cymru am eu cefnogaeth a chydweithrediad gwerthfawr gydol y flwyddyn.

MENTRAU IAITH

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Cynnwys

	Tudalen
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1 - 5
Adroddiad yr archiliwr annibynnol	6
Datganiad o weithgareddau ariannol	7
Mantolen	8
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	9 – 18

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

CYFEIRNOD A MANYLION GWEINYDDOL.

Enw'r elusen gofrestredig	Menter Iaith Sir Ddinbych
Rhif cofrestru'r elusen:	1120223
Rhif cofrestredig y cwmni	6204415 (Cymru a Lloegr)
Swyddfa gofrestredig	6 Heigad DINBYCH Sir Ddinbych LL16 3LE

Cyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr
Y cyfarwyddyr ac ymddiriedolwyr a fu'n gwasanaethu'r elusen yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd at 31 Mawrth 2022 oedd:

Cadeirydd	Alice Jones (hyd at 20/10/21) Arwel Roberts (o 20/10/21)
Is-gadeirydd	Arwel Roberts (hyd at 20/10/21) Bethan Cartwright (o 20/10/21)
Trysorydd	Owain Gwyn Morris
Cyfarwyddyr ac Ymddiriedolwyr eraill	Bethan Cartwright Alaw Griffith Emrys Wynne Gwenan Prysor Menna Eluned Jones Lowri Haf Ellis (apwyntiwyd 20 Hydref 2021) Catrin Eynon (apwyntiwyd 20 Hydref 2021)
Ysgrifennydd	Anna Lloyd Edwards
Bancwyr	HSBC 17 Stryd y Dyffryn DINBYCH Sir Ddinbych LL16 3AG
Cyfrifwyr	Hill & Roberts Cyfrifwyr Siartredig 1 Tan y Castell RHUTHUN Sir Ddinbych LL15 1DQ

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Strwythur a rheolaeth

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn elusen gofrestredig, rhif 1120223, wedi ei sefydlu fel cwmni cyfyngedig, rhif 6204415. Mae cyfansoddiad y cwmni yn unol â chyfansoddiad elusennol a chwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol. Cofrestrwyd Menter Iaith Sir Ddinbych fel elusen gofrestredig, ac fel cwmni cyfyngedig, ar 5 Ebrill 2007.

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych (yr 'Elusen') yn cael ei gweinyddu a'i rheoli yn ôl y memorandwm ac erthyglau cymdeithasol y cwmni, a gan aelodau bwrdd y cyfarwyddwyr.

Mae aelodaeth yr Elusen yn agored i unigolion dros 18 oed ac unrhyw gymdeithas, gorfforedig neu anghorfforedig, sydd yn cytuno ag amcanion a gwaith yr Elusen, heb wahaniaethu rhwng pobl o safbwynt eu cyfoeth, gwleidyddiaeth, hil, crefydd, rhyw neu anabledd. Bydd i bob aelod-fudiad benodi unigolyn i'w gynrychioli ac i bleidleisio.

Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn unfrydol ac am reswm da, roi terfyn ar aelodaeth unrhyw unigolyn neu aelod-fudiad: cyhyd a bod gan yr unigolyn dan sylw neu gynrychiolydd penodedig yr aelod-fudiad dan sylw'r hawl i wrandawiad gan y Bwrdd y Cyfarwyddwyr, yng nghwmni ffrind, cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Bwrdd y cyfarwyddwyr

Rheolir busnes yr Elusen gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a fydd yn atebol i'r aelodau. Ni fydd gan unrhyw berson hawl i weithredu fel Cyfarwyddwr, boed hynny am, y tro cyntaf neu dro dilynol, hyd nes y bydd wedi llofnodi datganiad derbyn parodrwydd i weithredu er budd yr Elusen yn llyfr cofnodion Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

Bydd Bwrdd y cyfarwyddwyr yn cynnwys dim llai na 5 o gyfarwyddwyr a dim mwy na 12 o gyfarwyddwyr.

Gall y Cyfarwyddwyr ar unrhyw adeg gyfethol unrhyw berson i Fwrdd y Cyfarwyddwyr cyn belled na fydd mwy nag un rhan o dair o Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn gyfetholedig a chyn belled na ragorir ar yr uchafswm a benodir yn erthygl 39, ac na wneir rhagor na thri chyfetholiad o'r fath rhwng un Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r nesaf. Rhaid i bob person a gyfetholir fel hyn ymddiswyddo yn y Cyfarfod Blynyddol yn dilyn eu cyfetholiad, ond byddent yn gymwys i'w hailbenodi wedi hynny.

Ceir talu holl gostau teithio, gwesty a threuliau eraill rhesymol cyfarwyddwyr mewn perthynas â'u presenoldeb mewn cyfarfod Cyfarwyddwyr, pwyllgorau neu gyfarfod cyffredinol neu mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau, ond fel arall ni fyddant yn derbyn tal.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Nodau'r elusen

1. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn Sir Ddinbych.

2. Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-gymraeg ddysgu'r iaith

3. Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.

4. Dylanwadu ar yr ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog neu Gymraeg.

Amcanion yr elusen

i) Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

ii) Annog y di-gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

iii) Cynnal digwyddiadau newydd naill a'i yn annibynnol neu trwy gydweithio mewn partneriaeth ag eraill
- i bontio rhwng ysgol a chymdeithas.
- i ategu at waith y ddarpariaeth Cymraeg i oedolion.
- i gyfoethogi a bywiocáu bywyd Cymraeg yn gyffredinol.

iv) Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes yn Gymraeg.

v) Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

vi) Hyrwyddo trosglwyddiad o'r Gymraeg o fewn y teulu.

Darparu budd i'r cyhoedd

Wrth gynllunio ein gwaith am y flwyddyn, mae aelodau'r pwyllgor sy'n gyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau a'r budd i'r cyhoedd. Yn benodol, ceisiwn gynorthwyo a chefnogi'r gymuned yn ei chyfanrwydd o ran hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg gan bob oedran. Rydym yn gweithio ar draws y sir gyfan a darparwn gyfleoedd i bobl wella proffil y Gymraeg a dwyieithrwydd, drwy ddarparu cyngor, cymorth, prosiectau a gweithgareddau penodol. Ein corff ni yw'r unig un â'r brîff penodol i normaleiddio'r Gymraeg/dwyieithrwydd mewn bywyd teuluol a bywyd cyhoeddus ar draws sbectrwm oedran y sir. Gweithiwn ar y cyd gyda phartneriaid allweddol megis yr Urdd a Mudiad Meithrin a darparwyr statudol megis ysgolion a'r Cyngor Sir. Rydym yn gweithio gyda chyrff eraill sy'n ymwneud â darparu gwersi Cymraeg i oedolion hefyd gan gynorthwyo i ymestyn y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae ein deunyddiau cynnig cyngor a marchnata ar gael bob amser, ac mae'r Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr yn cytuno ar dargedau ar gyfer gwaith cymunedol yn flynyddol.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Adolygiad ariannol

Mae'r prif weithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhai i blant a phobl ifanc, mewn partneriaeth gyda grwpiau lleol eraill. Er bod cyfnod Covid-19 wedi llacio rhyw gymaint, fe barhaodd heriau i'n hwynebu, ac mae'r Fenter wedi parhau i gyflawni peth o'i waith trwy ddulliau digidol. Defnyddir yr holl incwm a dderbynnir i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, p'un ai ar y ffôn, drwy gyfrwng e-bost neu wyneb yn wyneb. Ceisiwn sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol, gan dargedu'r cyhoedd drwy gynnig cyngor am ddim a gweithgareddau neu weithdai celfyddydol, llenyddol, digidol a rhai sy'n addas i siaradwyr Cymraeg rhugl neu siaradwyr Cymraeg newydd.

Campau a gyflawnwyd

Am ddarlun mwy manwl o weithgareddau'r flwyddyn sy'n cyflawni nodau ac amcanion yr elusen ac yn rhoi budd i'r cyhoedd gweler Adroddiad Blynyddol yr elusen.

Perfformiad Ariannol yr Elusen

Mae cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 wedi gostwng o £133,814 i £115,449, sef gostyniad o £18,365 (13.7%) ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r gyfradd llog yn parhau i fod yn isel iawn a derbyniwyd £3 o incwm buddsoddiad yn unig am y flwyddyn (2021 - £4). Mae cyfanswm yr adnoddau a dreuliwyd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 wedi cynyddu o £110,046 i £111,154 sef tyfiant o £1,108 (1.0%) ar y flwyddyn flaenorol. Cafwyd gwarged felly o £4,295 am y flwyddyn i gymharu â gwarged o £23,768 am y flwyddyn flaenorol. Mae mwy o fanylder i'w weld yn Adroddiad Blynyddol yr elusen.

Polisi Cronfeydd

Mae'n rhan o bolisi'r Elusen i gadw cronfeydd anghyfyngedig sef y cronfeydd rhyddion, ar lefel sy'n hafal i tua 3 mis o dreuliau anghyfyngedig. Mae hyn yn caniatáu cronfa ddigonol i dalu costau rheoli, gweinyddu a chynnal yr Elusen.

Polisi Buddsoddiad

Yr amcan buddsoddiad yw diogelu'r buddsoddiadau cyfredol yn erbyn chwyddiant ac i gael incwm rhesymol yn ôl. Mae perfformiad y buddsoddiadau yn cael eu hadolygu ar sail gyson trwy eu cymharu gyda maincfesuriad addas.

Rheolaeth Risg

Gwnaed arolwg gan y Cyfarwyddwyr ym meysydd busnes a gweithredu'r Elusen a gallant gadarnhau y byddai'r Elusen mewn sefyllfa i liniaru unrhyw risg.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae'r Elusen yn parhau i weithio yn agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a phartneriaid eraill i hybu'r iaith Gymraeg drwy Sir Ddinbych gyfan. Mae'r Elusen hefyd yn parhau i ddatblygu presenoldeb ar y we a chyfryngau cymdeithasol drwy'r wefan a rhwydweithiau cymdeithasol, a hyn wedi dod yn bwysicach fyth ers i gyfyngiadau Covid-19 newid patrymau cymdeithasu, dysgu a hamddena. Mae'r Elusen bellach wedi'i ddyfarnu'n Elusen Ddibynadwy gan yr NCVO (marc ansawdd PQASSO gynt). Golyga hyn bod prosesau yn eu lle i roi sicrwydd i bartneriaid ac arianwyr a photensial i ddenu mwy o fuddsoddiad.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar Fenter Iaith Sir Ddinbych at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y DU (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn gofyn bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi safbwynt cywir a theg ar faterion y cwmni elusennol fel y mae pethau ac o'r ffynonellau sy'n dod i mewn a defnydd y ffynonellau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol dros y cyfnod hwnnw. Fel rhan o waith paratoi'r datganiadau ariannol, bydd gofyn i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson
- Dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen
- Beirniadu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn bwyllog
- Paratoi'r datganiadau ariannol yn seiliedig ar fusnes sydd ar fynd oni bai ei bod yn anaddas cymryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion ariannol digonol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, beth ydy sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac yn eu galluogi nhw i sicrhau fod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Cwmnïau 2006. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly hefyd dros gymryd camau rhesymol er mwyn rhwystro a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cafodd adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ei fabwysiadu ar 26 Hydref 2022 a'i arwyddo ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gan:

Llofnod

Enw llawn **Anna Lloyd Edwards**

Safle **Ysgrifennydd**

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CWMNI ELUSENNOL MENTER IAITH SIR DDINBYCH ('y Cwmni')

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd
Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (a hefyd ei gyfarwyddwyr at ddibenion y gyfraith cwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archiliwad ariannol o gyfrifon y Cwmni o dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon eich elusen fel y cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol
Cwblheais fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu:

- bod cofnodion cyfrifyddu heb eu cadw ar gyfer y Cwmni fel sy'n ofynnol gan adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; neu
- nid yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arferion Cymeradwy ar gyfer cyfrifon ac adroddiadau gan elusennau yn gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd: Dyddiad: 26 Hydref 2022

R A Roberts, BSc, FCA
Hill & Roberts Cyfrifwyr Siartredig
1 Tan y Castell
RHUTHUN
Sir Ddinbych
LL15 1DQ

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

Datganiad o weithgareddau ariannol (yn cynnwys crynodeb o gyfrif incwm a gwariant) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2022 Cronfeydd Anghyfyngedig	2022 Cronfeydd Cyfygedig	2022 Cyfanswm Cronfeydd	2021 Cyfanswm Cronfeydd
		£	£	£	£
Incwm					
Incwm a gwaddoliadau					
Rhoddion a chymynroddion	3	95,174	-	95,174	94,454
Gweithgareddau elusennol	4	5,845	-	5,845	22,409
Gweithgareddau masnachu arall	5	5,686	-	5,686	1,881
Incwm arall	6	8,741	-	8,741	15,066
Buddsoddiant	7	3	-	3	4
Cyfanswm incwm		115,449	-	115,449	133,814
Gwariant					
Gwariant ar weithgareddau elusennol	8	105,326	5,828	111,154	110,046
Cyfanswm gwariant		105,326	5,828	111,154	110,046
Incwm / gwariant net	11	**10,123**	**(5,828)**	**4,295**	**23,768**
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd		**-**	**-**	**-**	**-**
Symudiad net yn y cronfeydd		**10,123**	**(5,828)**	**4,295**	**23,768**
Cyfanswm cronfeydd 01 Ebrill 2021		24,384	11,354	35,738	11,970
Cyfanswm cronfeydd 31 Mawrth 2022		**34,507**	**5,526**	**40,033**	**35,738**

Mae holl weithgareddau'r cwmni yn cael eu hystyried yn rhai parhaol.

Nid oedd gan y cwmni enillion na cholledion heblaw am y gwarged am y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 18 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol yma.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2022

	Nodyn	2022		2021	
		£	£	£	£
Asedau sefydlog					
Asedau cyffyrddadwy	16		3,313		271
Asedau cyfredol					
Dyledwyr	17	1,602		981	
Arian yn y banc		37,609		38,228	
Arian mewn llaw		5		11	
		39,216		39,220	
Credydwyr -yn daladwy o fewn blwyddyn	18	2,496		3,753	
Asedau cyfredol net			36,720		35,467
Asedau net			**£40,033**		**£35,738**
			£		£
Cronfeydd wrth gefn					
Cronfeydd anghyfyngedig	19		34,507		24,384
Cronfeydd cyfyngedig	19		5,526		11,354
Cyfanswm cronfeydd			**£40,033**		**£35,738**

Roedd gan y cwmni hawl i eithrio rhag archwilio'r datganiadau ariannol yn rhinwedd adran 477 o'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn berthnasol i gwmnïau bychan.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni gael archwiliad o'r datganiadau ariannol am y flwyddyn berthnasol yn unol ag adran 476;

Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu dyletswyddau i gydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf ynglŷn â chadw cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau ariannol.

Y mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi mewn cytundeb â'r ddarpariaeth arbennig adran XV o ddeddf Cwmnïau 2006 sydd yn berthnasol i gwmnïau bach ac yn unol â FRS 102 SORP.

Mabwysiadwyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd yr Cyfarwyddwyr ar 26 Hydref 2022 ac arwyddwyd ar eu rhan gan:

Llofnod:

Owain Gwyn Morris
Trysorydd - Cyfarwyddwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 18 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol yma

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac elusen gofrestredig

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

1 Gwybodaeth Statudol

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn gwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gorffori yng Nghymru, yn y DU. Y swyddfa gofrestredig ydy 6 Heigad, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3LE.

Caiff y datganiadau ariannol eu cyflwyno mewn punnoedd sterling (£), arian gweithredu'r cwmni, a'i dalgrynnu at y bunt agosaf.

Mae'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol sydd wedi'u defnyddio wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn wedi'u gosod isod. Mae'r polisïau wedi'u defnyddio yn gyson gyda phob blwyddyn gaiff ei chyflwyno, oni bai y nodir yn wahanol.

2 Polisïau Cyfrifyddu

Sail paratoi'r datganiadau ariannol
Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sy'n endid budd cyhoeddus o dan FRS102, wedi'u paratoi yn unol â Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen (FRS102) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion Argymelledig sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adrodd Ariannol perthnasol y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (mewn grym 1 Ionawr 2015)', Safon Adrodd Ariannol 102 'Safon Adrodd Ariannol perthnasol y DU a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Cwmnïau 2016. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r confensiwn costau hanesyddol.

Busnes hyfyw

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Er gwaethaf sefyllfa Covid-19 yn parhau i gael effaith mae'r elusen wedi parhau i weithredu yn y cyfnod cyfrifyddu cyfredol. Mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus bydd yr elusen yn parhau i weithredu. Mae'r elusen wedi llwyddo i ddal gafael ar brif grantiau, nodi ffynonellau grantiau newydd, a chychwyn ar y broses o ymgeisio am sawl un. Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan yr ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan yr elusen adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â dyfodol yr elusen, sydd o leiaf, ond heb ei gyfyngu i, ddeuddeg mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol yma.

Incwm
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith bydd gan yr elusen hawl dros yr arian.

Incwm o weithgareddau elusennol
Mae incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm wedi'i dderbyn trwy gytundeb neu lle mae hawl dros arian grant yn dibynnu ar amodau perfformio penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod wrth i'r gwasanaethau cysylltiedig gael eu darparu ac wrth gaffael yr hawl, bydd modd mesur tebygrwydd faint gaiff ei dderbyn a'r swm ei hun gyda digon o ddibynadwyedd. Caiff incwm ei ohirio pan gaiff swm ei dderbyn cyn perfformio'r gwasanaeth neu ddigwyddiad y mae'n gysylltiedig ag o.

2 Polisïau Cyfrifyddu - parhad

Incwm o fuddsoddiad
Caiff incwm o fuddsoddiad ei gydnabod pan gaiff ei derbyn.

Gwariant
Caiff dyledion eu cydnabod fel gwariant unwaith y bydd gorfodaeth ymarferol neu gyfreithiol sy'n ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, mae'n debyg y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd wrth ei dalu a bydd modd mesur swm yr orfodaeth yn ddibynadwy. Caiff gwariant ei ystyried ar sail croniadau ac mae wedi'i ddosbarthu o dan benawdau sy'n crynhoi'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw DAW nad oes modd ei hawlio yn ôl.

Mae 'gwariant elusennol' yn cynnwys y costau hynny mae'r elusen wedi'i wario wrth ddarparu ei gweithgareddau a'i gwasanaethau ar gyfer ei buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y mae modd eu dyrannu yn uniongyrchol tuag at weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

'Costau cefnogi' ydy'r costau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gweithgaredd ond er hynny, tydyn nhw ddim yn cynhyrchu neu yn creu allbwn gweithgaredd yr elusen. Mae hyn yn cynnwys costau llywodraethol sef y costau hynny sy'n gysylltiedig gyda chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys y ffioedd a chostau cyfrifyddu sy'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen yn ogystal â rhan o'r cyflogau sy'n seiliedig ar fras amcan o'r amser a dreuliwyd ar yr adran hon.

Asedau sefydlog cyffyrddadwy
Mae asedau sefydlog wedi'u cofnodi trwy gostau i ddechrau.

Dibrisiad
Caiff dibrisiad ei gyfrifo er mwyn dileu cost ased, llai o'i werth sy'n weddill dros fywyd economaidd defnyddiol yr ased fel a ganlyn:

Offer swyddfa	- lleihau'r cyfanswm o 25%

Treth

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

Cyfrifyddu cronfeydd
Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'r elusen eu defnyddio, fel y gwêl yr ymddiriedolwyr yn ddoeth, at unrhyw ddiben sy'n ymwneud ag amcanion yr elusen.

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi'u derbyn yn amodol gan y rhoddwyr at y diben sydd wedi'i bwriadu ar eu cyfer.

Offerynnau ariannol
Does gan yr elusen ddim ond asedau ariannol a dyledion ariannol o natur sy'n cymhwyso fel offerynnau ariannol syml. Caiff offerynnau ariannol syml eu hadnabod yn gyntaf drwy werth trosglwyddo ac yna eu mesur trwy eu gwerth talu.

2 Polisïau Cyfrifyddu - parhad

Dyledwyr
Caiff dyledwyr masnachu a dyledwyr eraill eu cydnabod trwy'r swm talu sy'n ddyledus ar ôl cynnig unrhyw ostyngiad masnachu.
Caiff taliadau o flaen llaw eu prisio ar y swm net a dalwyd o flaen llaw ar unrhyw ostyngiad dyledus.

Credydwyr
Caiff credydwyr eu cydnabod lle bo gan yr elusen orfodaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol fydd mwy na thebyg yn arwain at drosglwyddo cronfeydd at drydydd parti a bydd modd mesur neu amcangyfrif y swm sy'n ddyledus er mwyn talu'r orfodaeth yn ddibynadwy. Caiff credydwyr gan amlaf eu cydnabod trwy eu swm talu ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau masnachu sy'n ddyledus.

Costau pensiwn
Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun cyfraniad pensiwn diffiniedig. Caiff costau cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun pensiwn y cwmni elusennol eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y cyfnod perthnasol.

Mae'r cwmni elusennol yn gwneud cyfraniadau i gynlluniau pensiwn personol ar ran ei gyflogai. Caiff costau eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y cyfnod perthnasol.

3 Rhoddion a chymynrhoddion

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£
Grant Llywodraeth Cymru	79,984	-	79,984	80,442
Grant Cyngor Sir Ddinbych	14,190	-	14,190	13,912
Grant Arnold Clarke Community Fund	1,000	-	1,000	-
Rhodd Cymdeithas Cymraeg Dinbych	-	-	-	100
	95,174	-	95,174	94,454

4 Gweithgareddau elusennol

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£
Grant Cyngor Tref Dinbych	1,650	-	1,650	1,650
Grant Cyngor Tref Rhuthun	-	-	-	900
Grant Loteri Cymunedol	-	-	-	9,600
Grant Mentrau Iaith Cymru	3,750	-	3,750	-
Grant Grŵp Cynefin	-	-	-	200
Grant Cadwyn Clwyd Nerth dy Ben	-	-	-	8,459
Grant Cyngor Sir Dinbych Gweithdai Cerdd	-	-	-	1,100
Grant Cyngor Sir Dinbych Celf	-	-	-	500
Grant Cyngor Tref Rhuddlan	350	-	350	-
Grant Cyngor Tref Prestatyn	95	-	95	-
	5,845	-	5,845	22,409

5 Gweithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£
Gweithgareddau a phrosiectau	5,286	-	5,286	900
Incwm Arall	-	-	-	481
Menter Iaith Conwy/Helo Blod desg poeth	400	-	400	400
Maer Rhuddlan cystadleuaeth ffenestri	-	-	-	100
	5,686	-	5,686	1,881

6 Incwm Arall

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£
Cyngor Sir Ddinbych – Covid 19	2,000	-	2,000	10,000
Moondance Foundation – Covid 19	741	-	741	3,550
DVSC – Covid 19	2,000	-	2,000	1,516
Lwfans Nawdd Cymdeithasol	4,000	-	4,000	-
	8,741	-	8,741	15,066

7 Incwm o fuddsoddiant

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
Llog derbyniwyd	3	-	3	4
	3	-	3	4

8 Gwariant ar weithgareddau elusennol

	Cronfeydd Anghyfynedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
Costau gweithgareddau elusennol cyffredin				
Cyflogau staff	61,637	-	61,637	69,227
Nawdd cymdeithasol	5,664	-	5,664	2,527
Costau pensiwn staff	4,315	-	4,315	4,485
Costau gwasanaethau llawrydd	5,829	-	5,829	-
Rhent	1,313	-	1,313	875
Prydlesi gweithredol – offer swyddfa	1,185	-	1,185	1,185
Teithio a Lluniaeth	504	-	504	145
Teleffon	1,096	-	1,096	1,543
Argraffu, papur a phost	484	-	484	345
Costau Cyfrifiadur	745	-	745	572
Marchnata a hysbysebu	631	-	631	479
Costau banc	97	-	97	108
Aelodaeth	910	-	910	910
Dibrisiant	968	-	968	82
Prosiectau a gweithgareddau - Cymuned	2,069	-	2,069	1,089
Prosiectau a gweithgareddau – Teulu	760	-	760	360
Prosiectau a gweithgareddau – Plant & Phobl Ifanc	4,242	-	4,242	2,675
Prosiectau a gweithgareddau – Nerth dy Ben	-	2,400	2,400	6,661
Prosiectau a gweithgareddau – Bocs Trysor	-	3,428	3,428	94
Anoddau eraill – Cadwyn Clwyd	-	-	-	1,012
	92,449	5,828	98,277	94,374

8 Gwariant ar weithgareddau elusennol (parhad)

	Cronfeydd Anghyfynedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
Costau cefnogi				
Cyflogau	7,604	-	7,604	9,607
Nawdd cymdeithasol	481	-	481	295
Costau pensiwn staff	532	-	532	713
Hyfforddiant	-	-	-	143
Rhent	188	-	188	125
Yswiriant	557	-	557	781
Prydlesi gweithredol – offer swyddfa	169	-	169	169
Golau a gwres	-	-	-	-
Cynnal a chadw	111	-	111	171
Argraffu, post a phapur	69	-	69	49
Marchnata a hysbysebu	90	-	90	68
Teleffon	157	-	157	220
Costau Cyfrifiadur	106	-	126	61
Costau cyfieithu	-	-	-	166
Teithio a Lluniaeth	29	-	29	14
Costau Cyfrifo	2,028	-	2,028	1,947
Costau banc	14	-	14	11
Mân gostau	474	-	474	990
Aelodaeth	130	-	130	130
Dibrisiant asedau cyffyrddadwy	138	-	138	12
	12,877	-	12,877	15,672
Cyfanswm gwariant ar weithgareddau elusennol	105,326	5,828	111,154	110,046

9 Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl math y gronfa

	Cronfeydd Anghyfyng-edig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £	Cronfeydd Anghyfyng-edig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £
Gwariant elusennol	92,449	5,828	98,277	87,619	6,755	94,374
Costau cefnogi	12,877	-	12,877	15,672	-	15,672
	105,326	5,828	111,154	103,291	6,755	110,046

10 Gwariant elusennol yn ôl gweithgareddau

	Gweithgareddau Uniongyrchol	Costau Cefnogi	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£
Gweithgareddau elusennol cyffredin	98,277	11,073	109,350	108,180
Gweithgareddau elusennol penodol	-	-	-	-
Costau llywodraethol	-	1,804	1,804	1,866
	98,277	12,877	111,154	110,046

11 Dadansoddiad o gostau cefnogi

	Costau Gweithgareddau Hybu'r iaith Gymraeg	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£
Costau staff	8,617	8,617	10,758
Costau eiddo	249	249	183
Costau swyddfa gyffredinol	2,207	2,207	2,865
Costau llywodraethu	1,804	1,804	1,866
	12,877	12,877	15,672

12 Gwariant / Incwm Net

Mae Gwariant net wedi ei ddatgan ar ôl codi:	£
Dibrisiant	1,106

13 Taliadau a Budd-daliadau'r Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiant eraill i'r ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 (2021 - £ Dim). Mae'r elusen yn ystyried mai ei phersonél rheoli allweddol ydy'r ymddiriedolwyr a'r prif swyddog. Cyfanswm buddiant cyflogaeth y personél rheoli allweddol, yn cynnwys cyfraniadau pensiwn, oedd £34,083 (2021 - £33,668).

Treuliau'r ymddiriedolwyr

Talwyd £62 o dreuliau teithio i un ymddiriedolwyr yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022. Ni thalwyd unrhyw dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021.

14 Costau staff

	2022	2021
	£	£
Cyflogau	69,241	78,834
Nawdd cymdeithasol	2,145	2,822
Cyfraniadau pensiwn	4,847	5,198
	76,233	86,854

Mae'r elusen yn cyflogi 2 aelod o staff llawn amser ac 1 aelod o staff rhan-amser (2021 - 2 amser llawn ac 1 rhan amser). Ni enillodd unrhyw aelod o staff fwy na £60,000 y flwyddyn (2021: Dim). Mae'r elusen yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig mewn perthynas â'r staff. Mae rheolwyr annibynnol yn dal y cynllun a'i asedau. Mae'r tâl pensiwn yn cynrychioli cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cwmni a'u cyfanswm yw £4,847 (2021 - £5,198). Cyfraniadau sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn oedd £80 (2021: £dim). Bydd gordaliad yn ystod y flwyddyn, felly mae cyfanswm o £287 (2021: £204) yn ddyledus yn ôl i'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn sydd wedi eu hadlewyrchu yn y costau uchod.

15 Tâl yr Arolygwyr Annibynnol

Roedd tâl yr arholwr annibynnol yn gyfystyr â ffi cyfrifo ac arholi o £1,632 (2021 - £1,545) a gwaith cyflogres o £396 (2021 - £402).

16 Asedau cyffyrddadwy sefydlog

	Dodrefn	Offer Swyddfa	Cyfanswm
Cost	£	£	£
Ar 1 Ebrill 2021	673	4,283	4,956
Ychwanegiadau	-	4,148	4,148
Gwaredu	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2022	673	8,431	9,104
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2021	657	4,028	4,685
Dibrisiant am y cyfnod	4	1,102	1,106
Dileu wrth waredu	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2022	661	5,130	5,791
Gwerth llyfr net			
Ar 31 Mawrth 2022	£12	£3,301	£3,313
Ar 31 Mawrth 2021	£16	£255	£271

16 Dyledwyr – yn ddyledus o fewn y flwyddyn

	2022	2021
	£	£
Dyledwyr masnachol	-	220
Dyledwr arall	1,602	761
	1,602	981

17 Credydwyr - yn ddyledus o fewn y flwyddyn

	2022	2021
	£	£
Credydwyr masnachol	69	857
Trethi a nawdd cymdeithasol	156	156
Credydwyr eraill	2,271	2,740
	2,496	3,753

18 Dadansoddiad o gronfeydd elusennol

	Ar 31 Mawrth 2021	Incwm	Gwariant	Trosglwy-ddiadau	Ar 31 Mawrth 2022
	£	£	£	£	£
Cronfeydd cyfyngedig	11,354	-	(5,828)	-	5,526
Cronfeydd anghyfyngedig	24,384	115,449	(105,326)	-	34,507
Cyfanswm cronfeydd	**£35,738**	**£115,449**	**£(111,154)**	**£-**	**£40,033**

19 Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

	Asedau sefydlog cyffyrddadwy	Asedau Cyfredol net	Rhwymedig-aethau tymor hir	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cronfeydd cyfyngedig	-	5,526	-	5,526
Cronfeydd anghyfyngedig	3,313	31,194	-	34,507
	£3,313	**£36,720**	**£ -**	**£40,033**

20 Partïon perthynol

Ni fu unrhyw drafodion gyda phartïon perthynol yn ystod y flwyddyn.

21 Ymrwymiadau ariannol arall

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan y cwmni ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol ni chaiff eu diddymu, dros weddill tymor y prydlesi yma o £1,467 (2021 - £2,821).

MENTER IAITH SIR DDINBYCH

England & Wales - Charity number 1120223

Accounts

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2020 - 2021

Menter Iaith Sir Ddinbych







Elusen Gofrestredig: 1120223
Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant: 6204415

MARC ELUSEN DDIBYNADWY
TRUSTED CHARITY MARK
LEFEL LEVEL 1
NCVO Dyfarnwyd: Awst 2020 Awarded: August 2020

ADRODDIAD Y CADEIRYDD



Anodd yw credu fod poblogaeth ein gwlad fach wedi gallu ymdopi cystal ag ydym wedi gwneud a thrawiad mawr Covid-19 ers bron ddwy flynedd hollol annisgwyl yn ein bywydau. Yn annealladwy, mae wedi achosi cryn bryder oherwydd ansefydlogrwydd a newidiadau anferthol i sylfaen ein bywydau dyddiol fel busnesau, ynni, gweithfeydd a chyflogau, cymorth daliadau, gwasanaeth iechyd ac addysg plant ein cenhedlaeth nesaf a llawer mwy a phob un yn bwysig. Ond mae Menter Iaith Sir Ddinbych wedi dygymod yn dda iawn wrth i Covid-19 ein taro ar gychwyn y flwyddyn ariannol Hon 1af Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021. Mae wedi golygu addasu mawr i'r staff ond da adrodd yn ôl fod y trefniadau newydd ar raglen waith yn foddhaol trwy gydweithio yn drefnus a chadarn. Wrth gwrs budd llawer o newidiadau eto i ddod ond rwy'n hyderus fydd Bwrdd Rheoli y Fenter a'r staff yn barod i'r heriau a ddaw. Hawdd iawn syrthio i'r twll mawr ond llawer anoddach ydi dringo allan.

Ynghanol popeth mae fy mhrif neges ar ran y Fenter yn un da ac yn achos i ymfalchïo ond amhosib i ddathlu gyda pharti! Fel elusen gofrestredig derbyniodd ddyfarniad Marc Elusen Ddibynadwy (PQASSO gynt) ym mis Awst 2020 ac nid heb waith caled enillir hwn. Adolygwyd a diweddarwyd ein ffordd o weithio, gweithredu a gweinyddu dros y ddwy flynedd yn arwain at yr asesiad o safon uchel. Llongyfarchiadau a diolch am ymroddiad y staff ac aelodau Bwrdd Rheoli'r Fenter am eu hymroddiad, mi fydd heb os yn fod yn werth ei wneud .

Mae yn dda cadw golwg ar y dyfodol ac yng nghyswllt hyn mae ein Prif Swyddog, Ruth Williams gyda chymorth staff sef Iorwen Jones a Gwion Jones wedi arwain y ffordd o ran cydweithio'n ddigidol gyda Mentrau Iaith eraill a grwpiau gwirfoddol lleol i ddangos fod ffyrdd arloesol yn galluogi hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd wrth wynebu heriau'r pandemig.

Rwyf yn hynod falch fod y Fenter yn parhau i gyd-gynllunio hefo partneriaid eraill o'r trydydd sector i edrych ar ail leoli swyddfa'r Fenter yng nghanol tref Dinbych. Credaf yn gryf fod eisiau moderneiddio ein delwedd i siwtio ein byd newydd, yng ngolwg y cyhoedd mewn lleoliad mwy cyfleus a hwylus. Bydd y lleoliad newydd yn siwr o'i wneud yn haws i unrhyw un sydd eisiau cyfarfod yn ein swyddfa, gyda mynediad hwylus i bawb, yn cynnwys rhieni a phlant bach neu rywun gyda chyfyngiadau symud. Fedraf ddim gweld fy nymuniad yn cael ei wireddu yn ddigon buan.

Un dymuniad olaf ydi cael y byd yn ôl ar ei echel mor fuan ag sydd posib!
Mae fy nhymor fel Cadeirydd y Bwrdd Rheoli yn dirwyn i ben a bu'n bleser ac yn anrhydedd i fod yn rhan o fudiad a gweithle mor llwyddiannus â Menter Iaith Sir Ddinbych .

Dymuniadau da a pob llwyddiant i'm dilynwyr a'r Fenter yn y dyfodol.

Alice Jones
Cadeirydd
Hydref 20fed 2021

CYNNWYS:

Adroddiad y Cadeirydd	2
Beth yw Menter Iaith?	4
Menter Iaith Sir Ddinbych	5
Cyfarwyddwyr 2020-2021	6
Staff y Fenter 2020-2021	6
Yr ardal a wasanaethir	7
Nodau ac Amcanion Menter Iaith Sir Ddinbych	8
Blas ar waith y Fenter 2020-2021	9 – 16
Datblygu a Chryfhau a Diolchiadau	17-18

Menter Iaith Sir Ddinbych
6 Heigad
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3LE

✆ 01745 812822

E-bost: menter@MISirDdinbych.cymru

Gwefan: www.misirddinbych.cymru

Menter Iaith Sir Ddinbych @MIDinbych @cymraeg_sirddinbych

Beth yw Menter Iaith?

What's a Menter Iaith?



Mae 22 Menter yn gweithio yn ein cymunedau dros Gymru

There are 22 Welsh language enterprises working in Wales



yn cefnogi dros 160,000 o bobl o bob oed

supporting over 160,000 people of all ages



i gynyddu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau.

to increase and strengthen the use of Welsh in our communities.



Yn trefnu gwyliau, clybiau gofal, sesiynau iaith a mwy -

Organising festivals, childcare, language sessions and more -



mae'r fenter yn siop-un-stop ar gyfer yr iaith,

Menter Iaith is a one-stop-shop for the language,



yn ein helpu i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.

helping us live, learn and enjoy in Welsh



Mae'r Mentrau Iaith i bawb.

Mentrau Iaith is for everyone.

MENTRAU IAITH
MENTRAUIAITH.CYMRU

I ddarganfod mwy ewch i **mentrauiaith.cymru**

To find out more go to **mentrauiaith.cymru**


CYMRAEG

MENTER IAITH SIR DDINBYCH

Sefydlwyd Menter Iaith Sir Ddinbych ym mis Hydref 2003 pan esblygodd o'r hen Fenter Iaith Dinbych-Conwy a oedd wedi bodoli ers 1998.

Mae'r Fenter yn elusen gofrestredig ers 11eg Tachwedd 2004 ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant ers 5ed Ebrill 2007. Mae gan y Fenter fwrdd o gyfarwyddwyr profiadol, gweithgar a chefnogol iawn.

Strwythur Menter Iaith Sir Ddinbych 2020-2021



CYFARWYDDWYR / YMDDIRIEDOLWYR 2020-2021

	Enw:	Cynrychioli	Etholwyd:
Cadeirydd	Alice Jones	Unigolyn	21/10/2015
Is–Gadeirydd	Arwel Roberts	Unigolyn	24/04/2014
Trysorydd	Owain Gwyn Morris	Unigolyn	20/10/2011
Ysgrifennydd	Anna Lloyd Edwards	Unigolyn	16/10/2019
	Emrys Wynne	Unigolyn	03/10/2012
	Gwenan Prysor	Unigolyn	21/10/2015
	Alaw Jones	Unigolyn	19/10/2016
	Bethan Cartwright	Unigolyn	11/10/2017
	Menna Jones	Unigolyn	16/01/2019
Cyfetholwyd	Cyng. Meirick Lloyd Davies	Cyngor Sir Ddinbych	
Cyfetholwyd	Catrin Eynon	Unigolyn	20/01/2021

STAFF 2020-2021



Prif Swyddog: Ruth Williams
Mae Ruth wedi gweithio i'r Fenter ers Medi 2013. Yn llawn amser, mae hi'n rheoli'r Fenter o ddydd i ddydd, yn gyfrifol am faterion strategol, marchnata a chyfathrebu. Mae hi hefyd yn gyfrifol am ambell i weithgaredd cymunedol.



Swyddog Cyllid a Busnes: Iorwen Jones
Mae Iorwen wedi gweithio i'r Fenter ers Ebrill 2004. Yn gweithio 4 diwrnod yr wythnos, mae hi'n gyfrifol am weinyddiaeth a chyllid y Fenter ac yn cefnogi peth o'n gwaith cymunedol.



Swyddog Datblygu Cymunedol: Gwion Tomos-Jones

Mae Gwion wedi gweithio i'r Fenter, yn llawn amser, ers Hydref 2013. Mae prif feysydd gwaith Gwion yn ymwneud â chyfleoedd i blant, pobl ifanc a theuluoedd.



Swyddog Helo Blod Lleol: Nia Morris
Nodir hefyd bod Nia Morris, swyddog prosiect Helo Blod, wedi'i chyflogi dan gynllun Mentrau Iaith Cymru trwy Menter Iaith Conwy, a'l bod yn cefnogi busnesau bach yn Sir Ddinbych a Chonwy. Mae Nia'n gweithio'n rhannol allan o swyddfa Menter Iaith sir Ddinbych.

Swyddog Prosiect: Buddug Davies Cyflogwyd Buddug am 30 awr yr wythnos tan ddiwedd Gorffennaf 2020, fel swyddog cefnogi gweithgareddau cymunedol.

YR ARDAL A WASANAEITHIR GAN Y FENTER

Mae 93,734 o bobl yn byw yn Sir Ddinbych ac mae 24.6% o'r rheini yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011.


Ar hyd yr arfordir a ffin ddwyreiniol y sir ceir cymunedau megis Prestatyn, Y Rhyl, a Llanbedr D.C. ble mae canran y boblogaeth a aned yng Nghymru cyn ised neu yn is na 50%.

Mae'r patrwm o newid demograffig a achosodd hyn (ac sy'n dal i ddigwydd) wedi cael effaith sylweddol ar ganrannau siaradwyr Cymraeg y Glannau sydd yn is, ar gyfartaledd na 20% erbyn hyn.

Yn ardal Llangollen gwelir, yn ôl cyfrifiad 2011, mai isel iawn yw canran y siaradwyr Cymraeg, er bod y pentrefi gwledig cyfagos megis Bryneglwys a Llandegla a chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg.

I'r De o'r A55 ceir cymunedau gwledig gyda chanran y boblogaeth a aned yng Nghymru gryn dipyn yn uwch a chanran uwch o lawer yn siaradwyr Cymraeg.

Mae hyn yn wir am yr ardal wledig sy'n ymestyn o'r A525 i lawr i Ddyffryn Clwyd draw at ffiniau Gorllewin Sir Conwy, er bod hyn erbyn hyn yn dechrau newid. Roedd canran siaradwyr Cymraeg yr ardal hon yn ôl cyfrifiad 1991 rhwng 60% a 80%, ond erbyn cyfrifiad 2011 mae'r ffigwr rhwng 40% a 60%.



Dylid nodi fod canrannau o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd cyfagos ym Mro Aled ac Uwchaled yn cynyddu i dros 70% a bod y rhain yn bwysig i ni gan fod gymaint o'r boblogaeth hynny yn gweithio, cael eu haddysg, hamddena ac yn siopa yn Sir Ddinbych

Proffil Iaith Sir Ddinbych
Yn ystod 2020-21, yn dilyn arolwg o effaith Covid-19 ar y Gymraeg yn gymunedol, fe ddiweddarwyd proffil iaith y sir gan y Fenter.

NODAU AC AMCANION

Prif nodau hir dymor y Fenter yw:

1. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn Sir Ddinbych.

2. Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-Gymraeg ddysgu'r iaith

3. Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.

4. Dylanwadu ar yr ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog neu Gymraeg.

Amcanion

i) Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

ii) Annog y di-Gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

iii) Cynnal digwyddiadau newydd naill a'i yn annibynnol neu trwy gydweithio mewn partneriaeth ag eraill
- i bontio rhwng ysgol a chymdeithas.
- i ategu at waith y ddarpariaeth Cymraeg i oedolion.
- i gyfoethogi a bywiocáu bywyd Cymraeg yn gyffredinol.

iv) Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes yn Gymraeg.

v) Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

vi) Hyrwyddo trosglwyddiad o'r Gymraeg o fewn y teulu.

Safbwyntiau am y Gymraeg, y gymuned a'r economi leol

Gosodwyd safbwyntiau'r rhwydwaith o Fentrau Iaith am y Gymraeg, y gymuned a'r economi leol mewn maniffesto ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2021. Darllenwch y maniffesto ar wefan Mentrau Iaith Cymru.

BLAS AR WAITH Y FENTER YN 2020-2021

Fel oedd y flwyddyn ariannol hon ar fin cychwyn, roedd pandemig Covid-19 wedi bachu Cymru fach, a'i grafangau ynom ym mhob agwedd o fywyd ers canol mis Mawrth. Gyda rhaglen waith orlawn a chyffrous o'n blaenau, fe wrth-drowyd ein cynlluniau, wrth i faterion staffio, iechyd a diogelwch a chyfathrebu cymryd blaenoriaeth, ac fel llawer o sefydliadau eraill, gorfod ymateb i'r heriau newydd wrth redeg y cwmni a ffyrdd newydd o weithio fel elusen. Mewn sefyllfa ddigynsail, roedd pawb yn dysgu ac yn addasu o ddydd i ddydd.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y D.U, trefnwyd i staff y Fenter weithio o adre am fisoedd cyntaf y pandemig, a bu rhaglen hyfforddiant a sesiynau lles yn flaenoriaeth i ni yn ystod y misoedd hynny, yn ogystal â chryn dipyn o waith addasu ar ein rhaglen waith. Bu rhaid cyflwyno a chytuno targedau newydd i'n prif arianwyr, Llywodraeth Cymru, a diolch i rwydwaith y Mentrau Iaith, cafwyd sawl cyfle i gydweithio ar raglen hyfforddiant staff a rhaglen o weithgareddau digidol.

Yn unol ag amodau'r grant craidd gan Lywodraeth Cymru, roedd ein targedau diwygiedig yn dal i ganolbwyntiwyd ar dri phrif faes yn deillio o raglen waith Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg sef ***Defnydd*** o'r Gymraeg ymhlith:

1. **Plant a Phobl Ifanc**
2. **Teuluoedd**
3. **Y Gymuned**

O dan y penawdau hynny buom yn gweithio tuag at:

- Mwy o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol a hyderus tu allan i oriau addysg

- Codi'r lefel o ymwybyddiaeth am y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg/Cymreig a chynyddu'r nifer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

Tra bod y newyddion dyddiol a chyfyngiadau Covid-19 yn pwysleisio'r hyn NAD oedd bellach yn bosib i'w wneud o ddydd i ddydd, addaswyd ein rhaglen waith er mwyn manteisio ar yr hyn OEDD yn bosib i'w wneud, a hynny yng nghyd-destun defnydd o'r Gymraeg. Fel oedd y flwyddyn yn mynd yn ei blaen a'r canllawiau yn newid yn rheolaidd, roedd ein rhaglen o weithgareddau hefyd yn addasu.

Yn dilyn, mae detholiad o'r math o waith roedd y Fenter yn ei wneud rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Blas yn unig sydd yma. Ceir darlun mwy manwl a'r cyfle i weld lluniau ac ambell glip fideo o'r gweithgareddau ar ein gwefan ac ar ein tudalennau Facebook , Twitter ac Instagram.

Roedd y gwaith yn cynnwys :

i. Gweithgareddau i blant a phobl ifanc a theuluoedd
ii. Gweithgareddau cymunedol
iii. Cefnogi grwpiau cymunedol / gwirfoddol
iv. Cefnogi ymgyrchoedd y Llywodraeth
v. Fforwm Iaith – parhau i gydweithio a chynllunio gyda phartneriaid
vi. Cefnogi a chydweithio gyda phartneriaid Cymraeg mewn addysg
vii. Cyfathrebu â'r cyhoedd
viii. Cefnogi busnesau

i.Gweithgareddau i blant a phobl ifanc a theuluoedd

Trefnwyd **11 gweithgaredd** i deuluoedd gydol y flwyddyn, 8 ohonynt ar lein a 3 yn y cnawd gyda **1370 o rieni** yn cymryd rhan ar-lein a **105 yn cymryd rhan** mewn gweithgareddau nad oeddynt ar lein a llawer mwy yn derbyn gwybodaeth am fanteision y Gymraeg i'w plant trwy dulliau eraill**.**



Cystadleuaeth llyfrau a DVDs Guto Gwningen



Cydweithio gydag elusen Baby Basics i gynnwys llyfrynnau hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg mewn basgedi i rieni newydd



Llwybrau Blychau Post – Rhuthun a Dinbych
Tra bod cyfyngiadau cymdeithasu wedi tynhau eto yn yr Hydref, aethpwyd ati i gynnal llwybrau blychau post i deuluoedd yn Ninbych a Rhuthun. Gyda 18 o flychau post yn y naill dref, roedd hyn yn gyfle i annog teuluoedd i fynd am dro gyda'i gilydd yn eu cymunedau, a dysgu ychydig am enwau a geiriau Cymraeg wrth iddynt orfod chwilio am y blychau post.



Taith Magi Ann i feithrinfeydd er mwyn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac adnoddau Cymraeg i blant
Gan nad oedd posib i staff y Fenter greu gweithgareddau wyneb yn wyneb er mwyn siarad â rhieni, penderfynwyd rhoi Magi Ann ar waith, ac aeth am daith ledled y sir gydol yr hydref a'r gaeaf 2020 (gan gadw at ganllawiau Covid ac asesiad risg llym!). Bu'n ymweld â 6 meithrinfa, lle cafodd 168 o blant bach ei chyfarfod, cafodd o leiaf 20 o staff meithrinfeydd ddod i'w hadnabod hi a'i apiau, a derbyniodd 168 o rieni becyn hyrwyddo mateision addysg cyfrwng Cymraeg.






Pawen lawen i blant bach y Rhyl, a chanu a dawnsio yn yr awyr agored ym Mhwllglas ger Rhuthun.

Trefnwyd **65 o weithgareddau i blant a phobl ifanc**, 59 ohonynt ar-lein a 6 ohonynt yn rai yn y cnawd. Cofrestrodd **278 o blant ar gyfer gweithgareddau ar-lein** gyda ni, a fel oedd cyfyngiadau yn llacio, cafodd **303 o blant gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau nad oedd ar-lein.**



Gweithgareddau tymhorol, yn cynnwys crefftio, storïau ar-lein, a chystadleuthau. Gemau peldroed, cloddio gyda Minecraft a llawer mwy





Groto Sion Corn rhithiol 71 o blant wedi cael sgwrs hefo'r 'dyn ei hun' mewn Groto ar lein



Gweithdai ukulele ar-lein
yfres o weithdai gyda 16 o blant yn derbyn ukulele yn y post, cyfarwyddiadau ar sut i'w diwnio a 5 gwers yn ystod mis Rhagfyr a mis Ionawr.





CLWB THEATR CYMRU NADOLIG

Clwb Theatr Cymru Fel rhan o weithgaredd cenedlaethol trwy rwydwaith y Mentrau Iaith, cynhaliwyd Clwb Theatr ar-lein ar y cyd hefo Theatr Genedlaethol Cymru ym mis Awst ac eto ym mis Rhagfyr. Cofrestrwyd 17 o blant o Sir Ddinbych ar gyfer y ddwy gyfres o weithdai.



Gweithdy cyfansoddi cân gyda Mared Williams
Cafodd 24 o blant gyfle heb ei ail i gymryd rhan mewn 4 gweithdy y un.

ii.Gweithgareddau cymunedol

Cynhaliwyd **7 o weithgareddau cymunedol** yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhai ar-lein a rhai wyneb yn wyneb. Rydym yn amcangyfrif fod dros 1,200 o oedolion wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, ond nid oedd yn hawdd casglu enwau a niferoedd gan fod gymaint ar-lein ac am ddim.





Un esiampl oedd ***Tafarn y Clo***.
Trwy gydweithrediad â Menter Iaith Conwy cynhaliwyd digwyddiad rhithiol mewn grŵp facebook gan Mentrau Iaith Cymru. Roedd pob aelod o staff y ddwy Fenter yn cymryd rhan yn y trefniadau a chynnal y digwyddiad am ddwy awr ar nos Fercher tuag at ddiwedd y cyfnod clo. Cafwyd gwis, ryseitiau, fideos, lluniau a set cerddoriaeth byw gan Mared Williams a Morgan Elwy. Yn ystod yr wythnos a oedden ni'n gweinyddu'r grwp facebook, gwelwyd cynnydd yn yr aelodau o **163**, ac yn ystod y ddwy awr a gynhaliwyd y digwyddiad rhithiol, daeth **972 o bobl** i fewn i'r 'dafarn' (rhannu gyda MI Conwy). Erbyn hyn gwelwyd y set gerddoriaeth byw a gynhaliwyd ar y noson **9.2k o weithiau**



Cynhaliwyd cystadleuaeth ffenestri Dydd Gŵyl Dewi flynyddol er mwyn ceisio tynnu sylw at y busnesau a oedd ar agor yn ystod mis Chwefror, a thra bod niferoedd yn cymryd rhan yn llawer is na'r arfer, wrth reswm, roedd yr adborth a gawsom gan y busnesau yn wych gyda phawb yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth.

iii.Cefnogi grwpiau cymunedol / gwirfoddol

Cefnogwyd sawl grŵp gwirfoddol yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys pwyllgor Gŵyl Ganol Haf Dinbych, pwyllgorau Drysau Agored Rhuthun a Dinbych, Papurau Bro, pwyllgor Dydd Owain Glyndŵr. Daeth hi'n amlwg iawn fel aeth y flwyddyn yn ei blaen, bod heriau mawr yn wynebu grwpiau gwirfoddol, ac yn arbennig rheini sydd mewn ardaloedd gwledig a Chymraeg.

Cytunwyd y byddai Mentrau Iaith yn mynd ati ar ran Llywodraeth Cymru, i wneud gwaith ymchwil i fesur effaith y pandemig ar grwpiau cymunedol Cymraeg. Yn yr hydref 2020, fuon ni mewn cyswllt â 296 o grwpiau yn Sir Ddinbych wedi i ni wneud cryn dipyn o waith ymchwil i ddod o hyd iddynt. Cafwyd ymatebion gan 109 o'r grwpiau, sy'n cynrychioli canran dda o'i gymharu â siroedd eraill. Dadansoddwyd ymatebion i'r holiaduron gan adran ymchwil Llywodraeth Cymru. Aethpwyd ati wedyn i ddefnyddio darganfyddiadau'r adroddiad wrth ddiweddaru ein Proffil Iaith i'r sir, gwaith strategol pwysig wrth i ni gynllunio ar gyfer ein rhaglenni gwaith nesaf.

Wythnosau cyn y Clo Mawr, roedd trafodaethau ar y gweill i gydweithio gyda grŵp o wirfoddolwyr i gynnal gŵyl gerddorol yn Nyffryn Clwyd, gŵyl penwythnos a oedd am greu ymwybyddiaeth am wydnwch ac iechyd meddwl i bobl sy'n byw mewn ardaloedd wledig. Bu rhaid addasu cynlluniau yn gyflym wrth i'r pandemig gydiad, a daeth 'plan B' i'r golwg, a oedd yn cynnwys cais i Gronfa'r Brenig am nawdd er mwyn creu gwefan a podlediadau newydd sbon. Ewch i gael golwg ar wefan **Nerth Dy Ben.**

iv. Cefnogi ymgyrchoedd y Llywodraeth

Parhawyd i rannu ac ail-drydar ymgyrchoedd perthnasol gan Lywodraeth Cymru ar dudalennau Facebook a Twitter Menter Iaith Sir Ddinbych, ac yn unol â dymuniadau'r Llywodraeth, roedd gofyn i ni rannu negeseuon am gyfyngiadau a chanllawiau Covid-19 yn rheolaidd.

v. Fforwm Iaith Sirol (Partner Iaith Sir Ddinbych)

Cydlynwyd ein fforwm iaith sirol trwy zoom ar **9 Gorffennaf, 17 o Fedi a 12 Tachwedd** gyda cynrychiolaeth yn mynychu o'r Cyngor Sir, Merched y Wawr, CFfI Clwyd, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Popeth Cymraeg a Choleg Cambria, yn ogystal a ninnau. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i drafod effaith Covid-19 ar waith y partneriaid, yn ogystal â'r angen i fesur effaith y cyfyngiadau ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y sir. Yn ystod y flwyddyn mae'r partneriaid wedi bod yn mapio cyfrifoldebau o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir, yn barod ar gyfer strategaeth iaith newydd a fydd yn cael ei baratoi ar gyfer 2022 ymlaen a chafwyd cyflwyniadau gan swyddogion Comisiynydd y Gymraeg hefyd.

vi. Cefnogi a chydweithio gyda phartneriaid Cymraeg mewn addysg

Parhawyd gyda'n cyswllt â'r Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg gydol y flwyddyn. Rhoddwyd sylw trwy ein rhwydweithiau i ymgynghoriadau perthnasol i'r Gymraeg mewn addysg yn ystod y flwyddyn. Cefnogwyd cwrs sabothol athrawon cynradd, trwy gydweithio â'r tiwtor o Ganolfan Bedwyr gyda chyflwyniad i'r grŵp, yn rhithiol y tro hwn.
Parhawyd hefyd i rannu negeseuon a gwybodaeth yn rheolaidd i rieni am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a sut i gefnogi plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Gwnaed hyn yn bennaf eleni trwy grwpiau rhieni ysgolion ar facebook a thrwy 'tagio' cyfrifon Twitter yr ysgolion

vii. Cyfathrebu â'r Cyhoedd

Rhannu negeseuon a chynyddu cynulleidfaoedd

Rhwydweithiau cymdeithasol
Gwelsom gynnydd da yn y nifer yn ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn hon, yn adlewyrchu ein cynnydd yn y defnydd o ddulliau digidol i gyrraedd pobl o bob oed a diddordeb.
Cyhoeddwyd 536 eitem (post) ar y gwahanol gyfrifon dros y flwyddyn (hynny ddim yn cynnwys ail-drydariadau a rhannu gan sefydliadau eraill, er bod hi'n werth nodi bod hynny'n digwydd o leiaf 20 gwaith yr wythnos hefyd)
Erbyn diwedd Mawrth 2021 roedd gennym 1895 o ddilynwyr ar Facebook, 2584 o ddilynwyr ar Twitter, nifer o ddilynwyr ar Instagram yn 617, a 110 yn ein dilyn ar You Tube.

Tudalen Gymraeg y Denbighshire Free Press
Golwygwyd a chyhoeddwyd **219 o eitemau** yn ystod y flwyddyn, ac hefyd wedi eu defnyddio ar ein rhwydweithiau cymdeithasol er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd bellach draw. Wrth olygu'r dudalen byddwn yn chwilio am, ac yn blaenoriaethu eitemau gan bartneriaid y Fenter, a gweithgareddau neu negeseuon sy'n sy'n hyrwyddo darllen, gwylio a gwrando yn Gymraeg.


gyda'ngilydd
newyddion a sylwadau yn gymraeg
Cais i pobol cadw pellter
Ydi hi rwan yn amser i ni 'Cau'r Bwlch'?
Sut mae Covid-19 wedi cael effaith ar ein iaith?
Strategaeth adnewyddu
mudiad meithrin


gyda'ngilydd
newyddion a sylwadau yn gymraeg
Sicrhau Cyfran Decach o Cig Coch
Y swigen siarad oren yn troi'n 15 oed!
Newid hinsawdd a newid ecolegol yn Sir Ddinbych
Dathlu crefft unigryw cerdd dant

viii. Busnesau

Yn ogystal â'r gystadleuaeth ffenestri Dydd Gŵyl Dewi i fusnesau, parhawyd i gydweithio gyda phrosiect Helo Blod (Cymraeg Byd Busnes gynt) dan adain Mentrau Iaith Cymru, yn ystod y flwyddyn hon. Bu swyddog y prosiect yn gweithio'n rhan amser allan o swyddfa'r Fenter yn Ninbych, a chafwyd gyfle i gydweithio ar ambell i weithgaredd yn cynnwys Gwefarchnad, ffair rithiol yn gasgliad o fusnesau bach y gogledd ddwyrain, ar lwyfan Facebook.

DATBLYGU A CHRYFHAU'R FENTER

Un o brif flaenoriaethau'r Fenter yn 2020-21 oedd camau terfynol y broses asesu fel sefydliad elusennol wrth weithio tuag at farc ansawdd Elusen Dibynadwy (PQASSO gynt), cynllun cenedlaethol ar gyfer sefydliadau elusennol. Diolch i waith caled y staff a'r ymddiriedolwyr, dyfarnwyd y marc safon ym mis Awst 2020.
O ganlyniad i'r dyfarniad, mae'r Fenter yn gryfach o ran ei llywodraethiant a phrosesau rheoli.



DIOLCH

Diolch i holl rieni, plant a phobl ifanc am droi atom yn y Fenter Iaith i chwilio am gefnogaeth neu weithgareddau gydol y flwyddyn, er bod y dirwedd gymdeithasol wedi'i thrawsnewid am y rhan fwyaf o'r flwyddyn hon, diolch i bandemig Covid-19.

Rydym yn falch o fod wedi parhau i wasanaethu trigolion Sir Ddinbych, drwy gynnig rhywfaint o gymorth o ran eu hanghenion ieithyddol, ac yn falch o fod wedi dwyn perswâd ar eraill o ran rhoi cynnig ar ddefnyddio'r Gymraeg a manteisio o'i defnyddio, boed fel dysgwyr, grwpiau cymunedol neu fusnesau.

Diolchwn hefyd i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser yn ystod y cyfnod hwn, i helpu llywio gwaith y Fenter, neu i'n cefnogi wrth gynnal gweithgareddau neu rannu negeseuon.

Ruth Williams
Prif Swyddog
Hydref 2021

Hoffai Menter Iaith Sir Ddinbych ddiolch i'w noddwyr am eu cymorth yn ystod 2020-2021

.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyngor Tref Dinbych Denbigh Town Council

Cyngor Tref Rhuddlan Town Council

CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

DVSC CGGSDd
Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Creu Cymunedau Cryf drwy Weithredu Gwirfoddol
Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through voluntary action

The Moondance Foundation

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

Cymdeithas Gymraeg Dinbych

BRENIG WIND LTD

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Mentrau Iaith Cymru

Diolch hefyd i swyddogion a phwyllgor Mentrau Iaith Cymru am eu cefnogaeth a chydweithrediad gwerthfawr gydol y flwyddyn.

Rhif cofrestredig y cwmni: 6204415
Rhif yr elusen: 1120223

Cwmni cyfyngedig drwy warant
heb gyfalaf cyfrannol ac Elusen gofrestredig

Datganiadau Ariannol
Am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2021
Sydd Wedi'u Paratoi Heb Archwiliad (Audit).

Hoffai Menter Iaith Sir Ddinbych ddiolch i'w noddwyr am eu cymorth yn ystod 2020-2021

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Cyngor Tref Dinbych Denbigh Town Council

Cyngor Tref Rhuddlan Town Council

CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Grŵp Cynefin

The Moondance Foundation

DVSC CGGSDd
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Creu Cymunedau Cryf trwy Weithredu Gwirfoddol
Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through Voluntary Action

Cymdeithas Gymraeg Dinbych

BRENIG WIND LTD

Diolch hefyd i swyddogion a phwyllgor Mentrau Iaith Cymru am eu cefnogaeth a chydweithrediad gwerthfawr gydol y flwyddyn.

Mentrau Iaith Cymru

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac Elusen gofrestredig

Cynnwys

	Tudalen
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1 - 5
Adroddiad yr arolygwr annibynnol	6
Datganiad o weithgareddau ariannol	7
Mantolen	8
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	9 – 18

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac Elusen gofrestredig

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWYR / YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

CYFEIRNOD A MANYLION GWEINYDDOL.

Enw'r Elusen gofrestredig	Menter Iaith Sir Ddinbych
Rhif Cofrestru'r Elusen:	1120223
Rhif Cofrestredig y Cwmni	6204415 (Cymru a Lloegr)
Swyddfa gofrestredig	6 Heigad DINBYCH Sir Ddinbych LL16 3LE

Ymddiriedolwyr
Yr ymddiriedolwyr a fu'n gwasanaethu'r elusen yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021 oedd:

Cadeirydd	Alice Jones
Is-gadeirydd	Arwel Roberts
Trysorydd	Owain Gwyn Morris
Ymddiriedolwyr eraill	Bethan Cartwright Alaw Griffith Emrys Wynne Gwenan Prysor Menna Eluned Jones
Ysgrifennydd	Anna Lloyd Edwards
Bancwyr	HSBC 17 Stryd y Dyffryn DINBYCH Sir Ddinbych LL16 3AG
Cyfrifwyr	Hill & Roberts Cyfrifwyr Siartredig 1 Tan y Castell RHUTHUN Sir Ddinbych LL15 1DQ

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac Elusen gofrestredig

ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR / CYFARWYDDWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

Strwythur a rheolaeth

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn elusen gofrestredig, rhif 1120223, wedi ei sefydlu fel cwmni cyfyngedig, rhif 6204415. Mae cyfansoddiad y cwmni yn unol â chyfansoddiad elusennol a chwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol. Cofrestrwyd Menter Iaith Sir Ddinbych fel elusen gofrestredig, ac fel cwmni cyfyngedig, ar 5 Ebrill 2007.

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych (yr "Elusen") yn cael ei gweinyddu a'i rheoli yn ôl y memorandwm ac erthyglau cymdeithasol y cwmni, a gan aelodau bwrdd y cyfarwyddwyr.

Mae aelodaeth yr Elusen yn agored i unigolion dros 18 oed ac unrhyw gymdeithas, gorfforedig neu anghorfforedig, sydd yn cytuno ag amcanion a gwaith yr Elusen, heb wahaniaethu rhwng pobl o safbwynt eu cyfoeth, gwleidyddiaeth, hil, crefydd, rhyw neu anabledd. Bydd unrhyw benderfyniad i dderbyn cais am aelodaeth yn amodol ar yr ymgeisydd i dalu'r tanysgrifiad yn llawn. Bydd i bob aelod-fudiad benodi unigolyn i'w gynrychioli ac i bleidleisio.

Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn unfrydol ac am reswm da, roi terfyn ar aelodaeth unrhyw unigolyn neu aelod-fudiad: cyhyd a bod gan yr unigolyn dan sylw neu gynrychiolydd penodedig yr aelod-fudiad dan sylw'r hawl i wrandawiad gan y Bwrdd y Cyfarwyddwyr, yng nghwmni ffrind, cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Bwrdd y cyfarwyddwyr

Rheolir busnes yr Elusen gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a fydd yn atebol i'r aelodau. Ni fydd gan unrhyw berson hawl i weithredu fel Cyfarwyddwr, boed hynny am, y tro cyntaf neu dro dilynol, hyd nes y bydd wedi llofnodi datganiad derbyn parodrwydd i weithredu er budd yr Elusen yn llyfr cofnodion Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

Bydd Bwrdd y cyfarwyddwyr yn cynnwys dim llai na 5 o gyfarwyddwyr a dim mwy na 12 o gyfarwyddwyr.

Gall y Cyfarwyddwyr ar unrhyw adeg gyfethol unrhyw berson i Fwrdd y Cyfarwyddwyr cyn belled na fydd mwy nag un rhan o dair o Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn gyfetholedig a chyn belled na ragorir ar yr uchafswm a benodir yn erthygl 39, ac na wneir rhagor na thri chyfetholiad o'r fath rhwng un Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r nesaf. Rhaid i bob person a gyfetholir fel hyn ymddiswyddo yn y Cyfarfod Blynyddol yn dilyn eu cyfetholiad, ond byddent yn gymwys i'w hailbenodi wedi hynny.

Ceir talu holl gostau teithio, gwesty a threuliau eraill rhesymol cyfarwyddwyr mewn perthynas â'u presenoldeb mewn cyfarfod Cyfarwyddwyr, pwyllgorau neu gyfarfod cyffredinol neu mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau, ond fel arall ni fyddant yn derbyn tal.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac Elusen gofrestredig

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWYR / YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

Nodau'r elusen

1. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yn Sir Ddinbych.

2. Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-gymraeg ddysgu'r iaith

3. Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.

4. Dylanwadu ar yr ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog neu Gymraeg.

Amcanion yr elusen

i) Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

ii) Annog y di-gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

iii) Cynnal digwyddiadau newydd naill a'i yn annibynnol neu trwy gydweithio mewn partneriaeth ag eraill
- i bontio rhwng ysgol a chymdeithas.
- i ategu at waith y ddarpariaeth Cymraeg i oedolion.
- i gyfoethogi a bywiocáu bywyd Cymraeg yn gyffredinol.

iv) Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes yn Gymraeg.

v) Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

vi) Hyrwyddo trosglwyddiad o'r Gymraeg o fewn y teulu.

Darparu budd i'r cyhoedd

Wrth gynllunio ein gwaith am y flwyddyn, mae aelodau'r pwyllgor sy'n gyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau a'r budd i'r cyhoedd. Yn benodol, ceisiwn gynorthwyo a chefnogi'r gymuned yn ei chyfanrwydd o ran hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg gan bob oedran. Rydym yn gweithio ar draws y sir gyfan a darparwn gyfleoedd i bobl wella proffil y Gymraeg a dwyieithrwydd, drwy ddarparu cyngor, cymorth, prosiectau a gweithgareddau penodol. Ein corff ni yw'r unig un â'r brîff penodol i normaleiddio'r Gymraeg/dwyieithrwydd mewn bywyd teuluol a bywyd cyhoeddus ar draws sbectrwm oedran y sir. Gweithiwn ar y cyd gyda phartneriaid allweddol megis yr Urdd a Mudiad Meithrin a darparwyr statudol megis ysgolion a'r Cyngor Sir. Rydym yn gweithio gyda chyrff eraill sy'n ymwneud â darparu gwersi Cymraeg i oedolion hefyd gan gynorthwyo i ymestyn y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae ein deunyddiau cynnig cyngor a marchnata ar gael bob amser, ac mae'r Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr yn cytuno ar dargedau ar gyfer gwaith cymunedol yn flynyddol.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac Elusen gofrestredig

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWYR / YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

Adolygiad ariannol

Mae'r prif weithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhai i blant a phobl ifanc, mewn partneriaeth gyda grwpiau lleol eraill. Er fod cyfnod Covid-19 wedi rhoi heriau yn hyn o beth, mae'r Fenter wedi addasu'n dda ac wedi manteisio ar ffyrdd newydd o weithiau drwy mwy o ddulliau digidol. Defnyddir yr holl incwm a dderbynnir i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd, p'un ai ar y ffôn, drwy gyfrwng e-bost neu wyneb yn wyneb. Ceisiwn sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol , gan dargedu'r cyhoedd drwy gynnig cyngor am ddim a gweithgareddau neu weithdai celfyddydol, llenyddol, digidol a rhai sy'n addas i siaradwyr Cymraeg rhugl neu siaradwyr Cymraeg newydd.

Campau a gyflawnwyd

Am ddarlun mwy manwl o weithgareddau'r flwyddyn sy'n cyflawni nodau ac amcanion yr elusen ac yn rhoi budd i'r cyhoedd gweler Adroddiad Blynyddol yr Elusen.

Perfformiad Ariannol yr Elusen

Mae cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 wedi cynyddu o £120,831 i £133,814, sef tyfiant o £12,983 (10.7%) ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r gyfradd llog yn parhau i fod yn isel iawn a derbyniwyd £4 o incwm buddsoddiad yn unig am y flwyddyn (2020 - £14). Mae cyfanswm yr adnoddau a dreuliwyd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 wedi gostwng o £127,093 i £110,046 sef gostyniad o £17,047 (13.4%) ar y flwyddyn flaenorol. Cafwyd gwarged felly o £23,768 am y flwyddyn i gymharu â ddiffyg o £6,262 am y flwyddyn flaenorol. Mae mwy o fanylder i'w weld yn adroddiad blynyddol yr Elusen.

Polisi Cronfeydd

Mae'n rhan o bolisi'r Elusen i gadw cronfeydd anghyfyngedig sef y cronfeydd rhyddion, ar lefel sy'n hafal i tua 3 mis o dreuliau anghyfyngedig. Rhydd hyn gronfa ddigonol i dalu costau rheoli, gweinyddu a chynnal yr Elusen. Ar 31 Mawrth 2021 mae'r gronfa anghyfyngedig yn sefyll ar £24,317. Cyfrifir bod taliadau sylfaenol am dri mis yn £24,180 ac felly mae'r gronfa ar y lefel ddelfrydol.

Polisi Buddsoddiad

Yr amcan buddsoddiad yw diogelu'r buddsoddiadau cyfredol yn erbyn chwyddiant ac i gael incwm rhesymol yn ôl. Mae perfformiad y buddsoddiadau yn cael eu hadolygu ar sail gyson trwy eu cymharu gyda maincfesuriad addas.

Rheolaeth Risg

Gwnaed arolwg gan y Cyfarwyddwyr ym meysydd busnes a gweithredu'r Elusen a gallant gadarnhau y byddai'r Elusen mewn sefyllfa i liniaru unrhyw risg.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae'r elusen yn parhau i weithio yn agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a phartneriaid eraill i hybu'r iaith Gymraeg drwy Sir Ddinbych gyfan. Mae'r elusen hefyd yn parhau i ddatblygu presenoldeb ar y we a chyfryngau cymdeithasol drwy'r wefan a rhwydweithiau cymdeithasol, a hyn wedi dod yn bwysicach fyth ers i gyfyngiadau Covid-19 newid patrymau cymdeithasu, dysgu a hamddena. Mae'r elusen bellach wedi'i ddyfarnu'n Elusen Ddibynadwy gan yr NCVO (marc ansawdd PQASSO gynt). Golyga hyn bod prosesau yn eu lle i roi sicrwydd i bartneriaid ac arianwyr a photensial i ddenu mwy o fuddsoddiad.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac Elusen gofrestredig

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWYR / YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar Fenter Iaith Sir Ddinbych at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y DU (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn gofyn bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi safbwynt cywir a theg ar faterion y cwmni elusennol fel y mae pethau ac o'r ffynonellau sy'n dod i mewn a defnydd y ffynonellau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol dros y cyfnod hwnnw. Fel rhan o waith paratoi'r datganiadau ariannol, bydd gofyn i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson
- Dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen
- Beirniadu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn bwyllog
- Paratoi'r datganiadau ariannol yn seiliedig ar fusnes sydd ar fynd oni bai ei bod yn anaddas cymryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion ariannol digonol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, beth ydy sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac yn eu galluogi nhw i sicrhau fod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Cwmnïau 2006. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly hefyd dros gymryd camau rhesymol er mwyn rhwystro a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Cafodd adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ei fabwysiadu ar 20 Hydref 2021 a'i arwyddo ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gan:

Llofnod

Enw llawn **Anna Lloyd Edwards**

Safle **Ysgrifennydd**

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac Elusen gofrestredig

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR (EXAMINER) ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CWMNI ELUSENNOL MENTER IAITH SIR DDINBYCH ("y Cwmni")

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr elusen ar fy archwiliad (examination) o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 fel y gwelir ar dudalennau 7 hyd 18.

Cyfrifoldebau a'r sail adrodd
Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y Cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006").

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archiliwad (audit) ariannol o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn hon o dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael archwiliad (examination) annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad (examination) o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011"). Wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Datganiad yr archwiliwr (examiner) annibynnol
Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad (examiniation). Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu:

- ni chafodd cofnodion cyfrifon eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf y Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad (examination) annibynnol; neu
- nid yw'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad (examination) y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd: Dyddiad:

R A Roberts, BSc, FCA
Hill & Roberts Cyfrifwyr Siartredig
1 Tan y Castell
RHUTHUN
Sir Ddinbych
LL15 1DQ

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac Elusen gofrestredig

Datganiad o weithgareddau ariannol (yn cynnwys crynodeb o gyfrif incwm a gwariant) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021

	Nodyn	2021 Cronfeydd Anghyfyngedig	2021 Cronfeydd Cyfygedig	2021 Cyfanswm Cronfeydd	2020 Cyfanswm Cronfeydd
		£	£	£	£
Incwm					
Incwm a gwaddoliadau					
Rhoddion a chymynroddion	3	94,454	-	94,454	111,500
Gweithgareddau elusennol	4	4,350	18,059	22,409	5,989
Gweithgareddau masnachu arall	5	1,881	-	1,881	3,328
Incwm arall	6	15,066	-	15,066	-
Buddsoddiant	7	4	-	4	14
Cyfanswm incwm		115,755	18,059	133,814	120,831
Gwariant					
Gwariant ar weithgareddau elusennol	8	103,291	6,755	110,046	127,093
Cyfanswm gwariant		103,291	6,755	110,046	127,093
Incwm / gwariant net	11	**12,464**	**11,304**	**23,768**	**(6,262)**
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd		**(50)**	**50**	**-**	**-**
Symudiad net yn y cronfeydd		**12,414**	**11,354**	**23,768**	**(6,262)**
Cyfanswm cronfeydd 01 Ebrill 2020		11,970	-	11,970	18,232
Cyfanswm cronfeydd 31 Mawrth 2021		**24,384**	**11,354**	**35,738**	**11,970**

Mae holl weithgareddau'r cwmni yn cael eu hystyried yn rhai parhaol.

Nid oedd gan y cwmni enillion na cholledion heblaw am y gwarged am y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 18 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol yma.

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac Elusen gofrestredig

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2021

	Nodyn	2021		2020	
		£	£	£	£
Asedau sefydlog					
Asedau cyffyrddadwy	16		271		365
Asedau cyfredol					
Dyledwyr	17	981		5,132	
Arian yn y banc		38,228		10,793	
Arian mewn llaw		11		66	
		39,220		15,991	
Credydwyr -yn daladwy o fewn blwyddyn	18	3,753		4,386	
Asedau cyfredol net			35,467		11,605
Asedau net			**£35,738**		**£11,970**
			£		£
Cronfeydd wrth gefn					
Cronfeydd anghyfyngedig	19		24,384		11,970
Cronfeydd cyfyngedig	19		11,354		-
Cyfanswm cronfeydd			**£35,738**		**£11,970**

Roedd gan y cwmni hawl i eithrio rhag archwilio'r datganiadau ariannol yn rhinwedd adran 477 o'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn berthnasol i gwmnïau bychan.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni gael archwiliad o'r datganiadau ariannol am y flwyddyn berthnasol yn unol ag adran 476;

Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu dyletswyddau i gydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf ynglŷn â chadw cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau ariannol.

Y mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi mewn cytundeb â'r ddarpariaeth arbennig adran XV o ddeddf Cwmnïau 2006 sydd yn berthnasol i gwmnïau bach ac yn unol â FRS 102 SORP.

Mabwysiadwyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 20 Hydref 2021 ac arwyddwyd ar eu rhan gan:

Llofnod:

Owain Gwyn Morris
Trysorydd - Cyfarwyddwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 18 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol yma

MENTER IAITH SIR DDINBYCH
Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannol ac Elusen gofrestredig

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL AM
Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

1 Gwybodaeth Statudol

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn gwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gorffori yng Nghymru, yn y DU. Y swyddfa gofrestredig ydy 6 Heigad, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3LE.

Caiff y datganiadau ariannol eu cyflwyno mewn punnoedd sterling (£), arian gweithredu'r cwmni, a'i dalgrynnu at y bunt agosaf.

Mae'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol sydd wedi'u defnyddio wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn wedi'u gosod isod. Mae'r polisïau wedi'u defnyddio yn gyson gyda phob blwyddyn gaiff ei chyflwyno, oni bai y nodir yn wahanol.

2 Polisïau Cyfrifyddu

Sail paratoi'r datganiadau ariannol
Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sy'n endid budd cyhoeddus o dan FRS102, wedi'u paratoi yn unol â Datganiad o Arferion Argymelledig yr Elusen (FRS102) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion Argymelledig sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adrodd Ariannol perthnasol y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (mewn grym 1 Ionawr 2015)', Safon Adrodd Ariannol 102 'Safon Adrodd Ariannol perthnasol y DU a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Cwmnïau 2016. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r confensiwn costau hanesyddol.

Busnes hyfyw

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Er gwaethaf sefyllfa barhaus Covid-19 mae'r elusen wedi parhau i weithredu yn y cyfnod cyfrifyddu cyfredol. Mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus bydd yr elusen yn parhau i weithredu. Mae'r elusen wedi llwyddo i ddal gafael ar brif grantiau, nodi ffynonellau grantiau newydd, a chychwyn ar y broses o ymgeisio am sawl un. Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan yr ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan yr elusen adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â dyfodol yr elusen, sydd o leiaf, ond heb ei gyfyngu i, ddeuddeg mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol yma.

Incwm
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith bydd gan yr elusen hawl dros yr arian.

Incwm o weithgareddau elusennol
Mae incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm wedi'i dderbyn trwy gytundeb neu lle mae hawl dros arian grant yn dibynnu ar amodau perfformio penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod wrth i'r gwasanaethau cysylltiedig gael eu darparu ac wrth gaffael yr hawl, bydd modd mesur tebygrwydd faint gaiff ei dderbyn a'r swm ei hun gyda digon o ddibynadwyedd. Caiff incwm ei ohirio pan gaiff swm ei dderbyn cyn perfformio'r gwasanaeth neu ddigwyddiad y mae'n gysylltiedig ag o.

2 Polisïau Cyfrifyddu - parhad

Incwm o fuddsoddiad
Caiff incwm o fuddsoddiad ei gydnabod pan gaiff ei derbyn.

Gwariant
Caiff dyledion eu cydnabod fel gwariant unwaith y bydd gorfodaeth ymarferol neu gyfreithiol sy'n ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, mae'n debyg y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd wrth ei dalu a bydd modd mesur swm yr orfodaeth yn ddibynadwy. Caiff gwariant ei ystyried ar sail croniadau ac mae wedi'i ddosbarthu o dan benawdau sy'n crynhoi'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw DAW nad oes modd ei hawlio yn ôl.

Mae "gwariant elusennol" yn cynnwys y costau hynny mae'r elusen wedi'i wario wrth ddarparu ei gweithgareddau a'i gwasanaethau ar gyfer ei buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y mae modd eu dyrannu yn uniongyrchol tuag at weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

"Costau cefnogi" ydy'r costau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gweithgaredd ond er hynny, tydyn nhw ddim yn cynhyrchu neu yn creu allbwn gweithgaredd yr elusen. Mae hyn yn cynnwys costau llywodraethol sef y costau hynny sy'n gysylltiedig gyda chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys y ffioedd a chostau cyfrifyddu sy'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen yn ogystal â rhan o'r cyflogau sy'n seiliedig ar fras amcan o'r amser a dreuliwyd ar yr adran hon.

Asedau sefydlog cyffyrddadwy
Mae asedau sefydlog wedi'u cofnodi trwy gostau i ddechrau.

Dibrisiad
Caiff dibrisiad ei gyfrifo er mwyn dileu cost ased, llai o'i werth sy'n weddill dros fywyd economaidd defnyddiol yr ased fel a ganlyn:

Offer swyddfa	- lleihau'r cyfanswm o 25%

Treth

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

Cyfrifyddu cronfeydd
Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'r elusen eu defnyddio, fel y gwêl yr ymddiriedolwyr yn ddoeth, at unrhyw ddiben sy'n ymwneud ag amcanion yr elusen.

Mae cronfeydd cyfyngedig wedi'u derbyn yn amodol gan y rhoddwyr at y diben sydd wedi'i bwriadu ar eu cyfer.

Offerynnau ariannol
Does gan yr elusen ddim ond asedau ariannol a dyledion ariannol o natur sy'n cymhwyso fel offerynnau ariannol syml. Caiff offerynnau ariannol syml eu hadnabod yn gyntaf drwy werth trosglwyddo ac yna eu mesur trwy eu gwerth talu.

2 Polisïau Cyfrifyddu - parhad

Dyledwyr
Caiff dyledwyr masnachu a dyledwyr eraill eu cydnabod trwy'r swm talu sy'n ddyledus ar ôl cynnig unrhyw ostyngiad masnachu.
Caiff taliadau o flaen llaw eu prisio ar y swm net a dalwyd o flaen llaw ar unrhyw ostyngiad dyledus.

Credydwyr
Caiff credydwyr eu cydnabod lle bo gan yr elusen orfodaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol fydd mwy na thebyg yn arwain at drosglwyddo cronfeydd at drydydd parti a bydd modd mesur neu amcangyfrif y swm sy'n ddyledus er mwyn talu'r orfodaeth yn ddibynadwy. Caiff credydwyr gan amlaf eu cydnabod trwy eu swm talu ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau masnachu sy'n ddyledus.

Costau pensiwn
Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun cyfraniad pensiwn diffiniedig. Caiff costau cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun pensiwn y cwmni elusennol eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y cyfnod perthnasol.

Mae'r cwmni elusennol yn gwneud cyfraniadau i gynlluniau pensiwn personol ar ran ei gyflogai. Caiff costau eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y cyfnod perthnasol.

3 Rhoddion a chymynrhoddion

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2021	Cyfanswm 2020
	£	£	£	£
Grant Llywodraeth Cymru	80,442	-	80,442	81,583
Grant Cyngor Sir Ddinbych	13,912	-	13,912	13,639
Grant Cadwyn Clwyd	-	-	-	16,078
Rhodd Cymdeithas Cymraeg Dinbych	100	-	100	-
Grant Blakemore Foundation	-	-	-	200
	94,454	-	94,454	111,500

4 Gweithgareddau elusennol

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd 2021	Cyfanswm 2020
	£	£	£	£
Grant Cyngor Tref Dinbych	1,650	-	1,650	1,500
Grant Cyngor Tref Rhuthun	900	-	900	959
Grant Popeth Cymraeg	-	-	-	2,000
Grant Loteri Cymunedol	-	9,600	9,600	-
Grant Grŵp Cynefin	200	-	200	-
Grant Cadwyn Clwyd Nerth dy Ben	-	8,459	8,459	-
Grant Cyngor Sir Dinbych Gweithdai Cerdd	1,100	-	1,100	-
Grant Cyngor Sir Dinbych Celf	500	-	500	-
Grant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	-	-	-	960
Grant Cyngor Tref Rhuddlan	-	-	-	500
Grant Cyngor Tref Llanelwy	-	-	-	70
	4,350	18,059	22,409	5,989

5 Gweithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2021	Cyfanswm 2020
	£	£	£	£
Gweithgareddau a phrosiectau	900	-	900	2,531
Incwm Arall	481	-	481	397
Menter Iaith Conwy/Helo Blod desg poeth	400	-	400	400
Maer Rhuddlan cystadleuaeth ffenestri	100	-	100	-
	1,881	-	1,881	3,328

6 Incwm Arall

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2021	Cyfanswm 2020
	£	£	£	£
Cyngor Sir Ddinbych – Covid 19	10,000	-	10,000	-
Moondance Foundation – Covid 19	3,550	-	3,550	-
DVSC – Covid 19	1,516	-	1,516	-
	15,066	-	15,066	-

7 Incwm o fuddsoddiant

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Llog derbyniwyd	4	-	4	14
	4	-	4	14

8 Gwariant ar weithgareddau elusennol

	Cronfeydd Anghyfynedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Costau gweithgareddau elusennol cyffredin				
Cyflogau	69,227	-	69,227	83,375
Nawdd cymdeithasol	2,527	-	2,527	3,961
Costau pensiwn staff	4,485	-	4,485	4,731
Ad-daliad grant Cronfa Glyndŵr	-	-	-	750
Hyfforddiant staff	-	-	-	-
Rhent	875	-	875	1,813
Prydlesi gweithredol – offer swyddfa	1,185	-	1,185	1,211
Teithio a Lluniaeth	145	-	145	3,239
Teleffon	1,543	-	1,543	1,357
Golau a gwres	-	-	-	-
Argraffu, papur a phost	345	-	345	130
Costau Cyfrifiadur	572	-	572	1,453
Costau Proffesiynol	-	-	-	-
Marchnata a hysbysebu	479	-	479	230
Costau banc	108	-	108	103
Aelodaeth	910	-	910	1,137
Dibrisiant	82	-	82	109
Prosiectau a gweithgareddau - Cymuned	1,089	-	1,089	3,255
Prosiectau a gweithgareddau – Teulu	360	-	360	1,061
Prosiectau a gweithgareddau – Plant & Phobl Ifanc	2,675	-	2,675	1,093
Prosiectau a gweithgareddau – Nerth dy Ben	-	6,661	6,661	-
Prosiectau a gweithgareddau – Bocs Trysor	-	94	94	-
Anoddau eraill – Cadwyn Clwyd	1,012	-	1,012	1,960
	87,619	6,755	94,374	110,968

8 Gwariant ar weithgareddau elusennol (parhad)

	Cronfeydd Anghyfynedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Costau cefnogi				
Cyflogau	9,607	-	9,607	9,557
Nawdd cymdeithasol	295	-	295	430
Costau pensiwn staff	713	-	713	669
Hyfforddiant	143	-	143	-
Rhent	125	-	125	188
Yswiriant	781	-	781	778
Prydlesi gweithredol – offer swyddfa	169	-	169	173
Golau a gwres	-	-	-	-
Cynnal a chadw	171	-	171	186
Argraffu, post a phapur	49	-	49	19
Marchnata a hysbysebu	68	-	68	36
Teleffon	220	-	220	194
Costau Cyfrifiadur	61	-	61	208
Costau cyfiethu	166	-	166	-
Teithio a Lluniaeth	14	-	14	130
Costau Cyfrifo	1,947	-	1,947	2,165
Costau banc	11	-	11	15
Mân gostau	990	-	990	1,201
Aelodaeth	130	-	130	161
Dibrisiant asedau cyffyrddadwy	12	-	12	15
	15,672	-	15,672	16,125
Cyfanswm gwariant ar weithgareddau elusennol	103,291	6,755	110,046	127,093

9 Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl math y gronfa

	Cronfeydd Anghyfyng-edig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cronfeydd Anghyfyng-edig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2020 £
Gwariant elusennol	87,619	6,755	94,374	110,968	-	110,968
Costau cefnogi	15,672	-	15,672	16,125	-	16,125
	103,291	6,755	110,046	127,093	-	127,093

10 Gwariant elusennol yn ôl gweithgareddau

	Gweithgareddau Uniongyrchol	Costau Cefnogi	Cyfanswm 2021	Cyfanswm 2020
	£	£	£	£
Gweithgareddau elusennol cyffredin	94,374	13,806	108,180	124,919
Gweithgareddau elusennol penodol	-	-	-	-
Costau llywodraethol	-	1,866	1,866	2,174
	94,374	15,672	110,046	127,093

11 Dadansoddiad o gostau cefnogi

	Costau Gweithgareddau Hybu'r iaith Gymraeg	Cyfanswm 2021	Cyfanswm 2020
	£	£	£
Costau staff	10,758	10,758	10,656
Costau eiddo	183	183	201
Costau swyddfa gyffredinol	2,865	2,865	3,094
Costau llywodraethu	1,866	1,866	2,174
	15,672	15,672	16,125

12 Gwariant / Incwm Net

Mae Gwariant net wedi ei ddatgan ar ôl codi:	£
Dibrisiant	94

13 Taliadau a Budd-daliadau'r Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiant eraill i'r ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 (2020 - £ Dim). Mae'r elusen yn ystyried mai ei phersonél rheoli allweddol ydy'r ymddiriedolwyr a'r prif swyddog. Cyfanswm buddiant cyflogaeth y personél rheoli allweddol, yn cynnwys cyfraniadau pensiwn, oedd £33,668 (2020 - £33,568).

Treuliau'r ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 (2020 - £ Dim).

14 Costau staff

	2021	2020
	£	£
Cyflogau	78,834	92,920
Nawdd cymdeithasol	2,822	4,390
Cyfraniadau pensiwn	5,198	5,400
	86,854	102,710

Mae'r elusen yn cyflogi 2 aelod o staff llawn amser ac 1 aelod o staff rhan-amser (2020 - 2 amser llawn ac 3 rhan amser). Ni enillodd unrhyw aelod o staff fwy na £60,000 y flwyddyn (2020: Dim). Mae'r elusen yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig mewn perthynas â'r staff. Mae rheolwyr annibynnol yn dal y cynllun a'i asedau. Mae'r tâl pensiwn yn cynrychioli cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cwmni a'u cyfanswm yw £5,198 (2020 - £5,400). Cyfraniadau sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn oedd £dim (2020: £dim). Bydd gordaliad yn ystod y flynyddoedd blaenorol, felly mae cyfanswm o £204 (2020: £137) yn ddyledus yn ôl i'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn sydd wedi eu hadlewyrchu yn y costau uchod.

15 Tâl yr Arolygwyr Annibynnol

Roedd tâl yr arholwr annibynnol yn gyfystyr â ffi cyfrifo ac arholi o £1,545 (2020 - £1,875) a gwaith cyflogres o £402 (2020 - £290).

16 Asedau cyffyrddadwy sefydlog

	Dodrefn	Offer Swyddfa	Cyfanswm
Cost	£	£	£
Ar 1 Ebrill 2020	673	4,283	4,956
Ychwanegiadau	-	-	-
Gwaredu	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2021	673	4,283	4,956
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2020	649	3,942	4,591
Dibrisiant am y cyfnod	8	86	94
Dileu wrth waredu	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2021	657	4,028	4,685
Gwerth llyfr net			
Ar 31 Mawrth 2021	£16	£255	£271
Ar 31 Mawrth 2020	£24	£341	£365

16 Dyledwyr – yn ddyledus o fewn y flwyddyn

	2021	2020
	£	£
Grant Cadwyn Clwyd	-	4,214
Dyledwyr masnachol	220	-
Dyledwr arall	761	918
	981	5,132

17 Credydwyr - yn ddyledus o fewn y flwyddyn

	2021	2020
	£	£
Gorddrafft banc	-	-
Credydwyr masnachol	857	1,526
Trethi a nawdd cymdeithasol	156	-
Credydwyr eraill	2,740	2,860
	3,753	4,386

18 Dadansoddiad o gronfeydd elusennol

	Ar 31 Mawrth 2020	Incwm	Gwariant	Trosglwy-ddiadau	Ar 31 Mawrth 2021
	£	£	£	£	£
Cronfeydd cyfyngedig	-	18,059	(6,755)	-	11,304
Cronfeydd anghyfyngedig	11,970	115,755	(103,291)	-	24,434
Cyfanswm cronfeydd	**£11,970**	**£133,814**	**£(110,046)**	**£-**	**£35,738**

19 Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

	Asedau sefydlog cyffyrddadwy	Asedau Cyfredol net	Rhwymedig-aethau tymor hir	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cronfeydd cyfyngedig	-	11,354	-	11,354
Cronfeydd anghyfyngedig	271	24,113	-	24,384
	£271	**£35,467**	**£ -**	**£35,738**

20 Partïon perthynol

Ni fu unrhyw drafodion gyda phartïon perthynol yn ystod y flwyddyn.

21 Ymrwymiadau ariannol arall

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y cwmni ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol ni chaiff eu diddymu, dros weddill tymor y prydlesi yma o £2,821 (2020 - £4,175).